Rhif: WG50592

Llywodraeth Cymru
# Dogfen Ymgynghori

Deddf Seilwaith (Cymru) 2024

# Rhoi Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 ar waith

Dyddiad cyhoeddi: 19 Medi 2024

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 13 Rhagfyr 2024

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

OGL © Hawlfraint y Goron

## Trosolwg

Mae Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 yn darparu ar gyfer proses gydsynio newydd a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i benderfynu ar geisiadau ar gyfer prosiectau seilwaith arwyddocaol. Mae'r Ddeddf yn cynnwys y fframwaith ar gyfer y broses gyffredinol, gyda'r union fanylion i'w rhagnodi mewn Rheoliadau.

Mae'r papur ymgynghori yn disgrifio'r union fanylion drwy nodi'r broses gydsynio gyfan, o adnabod prosiectau sy'n ddarostyngedig i'r drefn newydd, hyd at ddiwygiadau i gydsyniadau a dirymu. Bydd adborth i'r cynigion hyn yn golygu y gellir cwblhau'r Rheoliadau.

## Sut i ymateb

Y dyddiad cau ar gyfer ymateb yw 13 Rhagfyr 2024 a gallwch ymateb drwy ddefnyddio unrhyw un o'r dulliau canlynol:

**E-bost:** Cwblhewch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a'i hanfon i: **CydsynioSeilwaith@llyw.cymru** (dylech gynnwys 'Rhoi Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 ar waith') yn y llinell destun.

**Post:** Cwblhewch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a'i hanfon i:

Rhoi Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 ar waith
Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion Cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

E-bost: CydsynioSeilwaith@llyw.cymru

Ffôn: Owen Struthers ar 0300 025 6430

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd: hyperlink

## Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ac ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru (Erthygl 6(1)(e)).

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Yn achos ymgynghoriadau ar y cyd, mae'n bosibl y bydd hyn hefyd yn cynnwys awdurdodau cyhoeddus eraill. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth a'i bod yn bosibl y bydd Llywodraeth Cymru o dan rwymedigaeth gyfreithiol i ddatgelu gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

e-bost:
dataprotectionofficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 0303 123 1113

Gwefan: https://ico.org.uk/

# Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| Pennod 1: Cyflwniad | 1 |
| Pennod 2: Darpariaethau Trosiannol | 5 |
| Pennod 3: Datblygiadau a fydd yn ddarostyngedig i'r broses gydsynio yn ôl Cyfarwyddyd | 9 |
| Pennod 4: Datblygiadau trawsffiniol | 16 |
| Pennod 5: Cydsyniadau a Ddiddymwyd a Chydsyniadau Tybiedig | 18 |
| Pennod 6: Cyn gwneud cais: cyngor a gwybodaeth | 21 |
| Pennod 7: Hysbysu ac ymgynghori cyn gwneud cais | 32 |
| Pennod 8: Ceisiadau am Gydsyniad Seilwaith | 42 |
| Pennod 9: Ymgyngoreion Statudol | 55 |
| Pennod 10: Ffioedd | 62 |
| Pennod 11: Archwilio | 71 |
| Pennod 12: Penderfynu ar geisiadau a gwneud gorchmynion | 82 |
| Pennod 13: Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol | 86 |
| Pennod 14: Ar ôl y penderfyniad | 87 |
| Pennod 15: Caffael yn Orfodol | 99 |
| Pennod 16: Cofrestri | 108 |
| Atodiad A – Rhestr arfaethedig o gydsyniadau a ddiddymwyd a chydsyniadau tybiedig | 111 |
| Atodiad B – Rhestr bosibl o gydsyniadau a ddiddymwyd a chydsyniadau tybiedig | 114 |

**Rhestr o Dalfyriadau**

Dyma dermau cyffredin a gaiff eu talfyrru yn y papur hwn.

ACLlau – Awdurdodau Cynllunio Lleol

CNC – Cyfoeth Naturiol Cymru

Deddf 1990 – Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990

Y Ddeddf – Y Ddeddf Seilwaith (Cymru)

Y Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithiau – Deddf Trafnidiaeth a Gweithiau 1990

## Papur ymgynghori

### Pennod 1: Cyflwyniad

### Rhagair

1.1 Mae'r system gydsynio ar gyfer seilwaith yng Nghymru yn cyflawni rôl bwysig o ran helpu i gyflenwi seilwaith cynaliadwy a thwf ‘gwyrdd’, yn ogystal â sicrhau y caiff ein hymrwymiadau eu cyflawni mewn perthynas â chynnwys y gymuned, allyriadau carbon a diogelu'r amgylchedd. Caiff yr amcanion hyn eu hatgyfnerthu gan Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024.

1.2 O dan y prosesau cydsynio niferus cyfredol, gall fod yn anodd i gyfranogwyr, megis ACLlau, ymgyngoreion a'r gymuned, gymryd rhan yn effeithiol. Hefyd, gall bodolaeth gwahanol brosesau ar gyfer gwahanol fathau o seilwaith beri dryswch. Bydd hyn yn aml yn golygu mai'r rhai sydd â'r mwyaf o adnoddau a gwybodaeth sydd fwyaf tebygol o ymwneud â'r broses gydsynio, a gellid ystyried bod hyn yn annheg. Bwriedir i'r Ddeddf fynd i'r afael â'r problemau hyn.

### Deddf Seilwaith (Cymru) 2024

1.3 Mae'r Ddeddf yn galluogi Gweinidogion Cymru i benderfynu ar geisiadau ar gyfer datblygiadau sydd o arwyddocâd i Gymru o dan broses newydd sy'n briodol ar gyfer ymdrin â cheisiadau o'r fath.

1.4 Diben y Ddeddf yw rhoi mwy o sicrwydd yn y broses gwneud penderfyniadau. Mae'r Ddeddf yn cynnwys fframwaith y broses ond caiff y manylion eu rhagnodi mewn rheoliadau a fydd yn ategu'r Ddeddf.

### Diben yr ymgynghoriad

1.5 Roedd yr ymatebion a gafwyd mewn ymateb i'r papur ymgynghori ‘Newidiadau i gymeradwyo gwaith datblygu'r seilwaith’ yn ffurfio consensws cyffredinol ynglŷn â sefydlu proses gydsynio newydd ar gyfer datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol.

1.6 Hefyd, cafodd yr egwyddorion hyn eu cymeradwyo gan y Senedd o ganlyniad i basio'r Ddeddf. Bydd y broses newydd hon yn sicrhau yr ymdrinnir â datblygiadau mewn ffordd briodol o ystyried eu heffeithiau tebygol.

<u>Ymgyngoriadau hyd yma</u>

1.7 Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgyngoriadau ar y broses ymgynghori cyn gwneud cais a'r ffioedd sy'n gysylltiedig â'r broses gydsynio newydd rhwng 13 Mai a 22 Gorffennaf. Roedd yr ymgyngoriadau hyn yn seiliedig ar egwyddorion cyffredinol iawn, a'u bwriad oedd casglu tystiolaeth er mwyn helpu i fireinio'r polisi.

1.8 Mae'r papur ymgynghori hwn yn nodi cynigion manwl ar gyfer system i weinyddu'r categori hwn o ddatblygiadau a gwneud penderfyniadau arnynt, ac mae'n adeiladu ar y cynigion hynny a nodir yn y Ddeddf. Gan fod llawer o elfennau o'r broses yn cael eu hystyried yn rhai syml, mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnwys y manylion rydym yn bwriadu eu rhagnodi mewn cyfres o reoliadau. Mae'r cynigion ar gyfer ymgynghori a ffioedd cyn gwneud cais yn seiliedig ar y dystiolaeth a gawsom o'r ymgyngoriadau blaenorol.

1.9 Rhennir y papur ymgynghori hwn yn 15 o benodau.

Trefniadau trosiannol

1.10 Bydd y Ddeddf, naill ai'n llawn neu'n rhannol, yn disodli nifer o gyfundrefnau statudol cyfredol ar gyfer cydsynio prosiectau seilwaith. Bwriedir i'r darpariaethau trosiannol sicrhau y gellir symud yn ddidrafferth o un gyfundrefn i'r llall, er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar faterion sydd eisoes yn mynd rhagddynt. Gofynnir am eich safbwyntiau ar y trefniadau hyn.

Datblygiadau a fydd yn ddarostyngedig i'r broses gydsynio

1.11 Mae'r Ddeddf yn sicrhau y bydd Gweinidogion Cymru yn cydsynio seilwaith penodol yng Nghymru o dan un broses newydd. Mae'r Ddeddf yn diffinio'r prosiectau hyn yn ôl math o waith a throthwy, a bydd angen cydsyniad seilwaith ar gyfer pob prosiect ar wyneb y Ddeddf. Os bydd prosiect islaw'r trothwyon gorfodol a nodir yn Rhan 1 o'r Ddeddf ond yn cael ei ystyried yn brosiect o arwyddocâd cenedlaethol, er enghraifft am y bydd yn arwain at effeithiau sylweddol, neu'n cynnwys technoleg neu amgylchiadau newydd, mae'r Ddeddf yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gyfarwyddo bod prosiect o'r fath yn brosiect seilwaith arwyddocaol y penderfynir arno o dan y broses gydsynio newydd. Nawr, gofynnir am eich safbwyntiau ar gyfres o drothwyon a meini prawf ar gyfer achosion lle y gellir cyfarwyddo prosiect o'r fath.

Ceisiadau trawsffiniol

1.12 Mae'r Ddeddf yn cydnabod y gall datblygiad groesi'r ffin ac felly na fyddai'r datblygiad yn cael cydsyniad drwy un gyfundrefn, sy'n golygu na chaiff arbedion effeithlonrwydd y broses newydd eu gwireddu. Nodir ein proses ar gyfer y datblygiadau hyn yma.

Cydsyniadau a ddiddymwyd a chydsyniadau tybiedig

1.13 Mae'r Ddeddf yn darparu y gall cydsyniad seilwaith gynnwys darpariaeth sy'n diddymu'r gofyniad i gydsyniad a bennir mewn rheoliadau gael ei roi, neu sy'n tybio bod cydsyniad a bennir mewn rheoliadau wedi'i roi. Rhennir y cydsyniadau hyn yn rhai y gall Gweinidogion Cymru eu rhoi'n unochrog, ac yn rhai lle mae angen cydsyniad y corff awdurdodi. Nawr, gofynnir am eich safbwyntiau ar restr fanwl o'r cydsyniadau hynny, a'r ffordd y dylid ymdrin â nhw.

Cyngor a gwybodaeth cyn gwneud cais

1.14 Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaethau i alluogi darpar geisyddion i ddylunio a datblygu eu cynigion. Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, ACLlau a CNC ddarparu gwasanaethau cyn gwneud cais, os bydd darpar geisyddion yn gofyn am hynny. Hefyd, mae trefniadau ar gael i geisyddion gael gwybodaeth am berchnogaeth tir a chael mynediad at dir.

Hysbysu ac ymgynghori cyn gwneud cais

1.15 Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr roi hysbysiad o'r bwriad i gyflwyno cais am brosiect seilwaith arwyddocaol, a chynnal ymgynghoriad cyn gwneud cais â'r gymuned leol ac ymgyngoreion statudol.

1.16 Rydym wedi datblygu'r cynigion hyn yn seiliedig ar yr adborth a gafwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad cyntaf. Gofynnir am eich safbwyntiau ar ofynion gweithdrefnol y broses cyn gwneud cais, a lefel y gwaith ymgynghori y mae'n rhaid i'r datblygwr ei wneud cyn cyflwyno cais.

Ceisiadau am Gydsyniad Seilwaith

1.17 Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru, yn rhinwedd ei rôl fel yr awdurdod archwilio, fydd yn cyflawni'r holl swyddogaethau sy'n gysylltiedig â phrosesu cais am brosiect seilwaith arwyddocaol, a bydd y penderfyniad terfynol wedi'i gadw yn ôl ar gyfer Gweinidogion Cymru. Yn yr adran hon, byddwn yn rhagnodi'r broses a'r gofynion ar gyfer gwneud cais am brosiect seilwaith arwyddocaol. Gofynnir am eich safbwyntiau ar fanylion y broses hon.

Ymgyngoreion statudol

1.18 Gweinidogion Cymru fydd yn rhoi cydsyniad ar gyfer prosiectau seilwaith arwyddocaol, ond bydd gan ACLlau, CNC ac ymgyngoreion statudol eraill rôl hollbwysig i'w chyflawni yn y broses o archwilio ceisiadau a'u cwblhau wedi hynny. Bydd hyn yn cynnwys rhoi ymateb o sylwedd neu Adroddiad ar yr Effaith Leol neu . Gofynnir am eich safbwyntiau ar eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â cheisiadau o'r fath.

Ffioedd

1.19 Caiff ffioedd gwneud cais am brosiectau seilwaith arwyddocaol eu nodi mewn rheoliadau ffioedd newydd. Dyma'r ail ymgynghoriad ar y pwnc hwn, ac mae'r wybodaeth a nodir yn yr adran hon yn adlewyrchu'r adborth a gafwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad cyntaf. Gofynnir am eich safbwyntiau ar y model arfaethedig ar gyfer codi ffioedd.

Archwilio

1.20 Bydd y system gydsynio yn dilyn dull archwilio cymesur ac amserol gan sicrhau adroddiadau o safon i ategu proses gwneud penderfyniadau gadarn. Nodir

cynigion ar gyfer penodi awdurdod archwilio, y weithdrefn archwilio a gwrandawiadau llawr agored.

Penderfynu ar geisiadau a gwneud gorchmynion

1.21 Yn dilyn yr archwiliad, bydd yr awdurdod archwilio yn drafftio adroddiad a fydd yn sail ar gyfer rhan nesaf y broses, y penderfyniad ei hun, a'r broses o wneud gorchymyn.

1.22 Mae'r rhan hon yn nodi pwy fydd yn penderfynu ar gais am gydsyniad seilwaith, yr hyn y bydd yn rhaid i'r penderfynwr ei ystyried wrth benderfynu ar gais, ynglŷn â'r amserlen ar gyfer gwneud y penderfyniad, ac ynglŷn â gwneud y penderfyniad a rhoi cyhoeddusrwydd iddo.

Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol

1.23 Mae'r bennod hon hefyd yn cynnwys gwybodaeth am yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol a fydd yn berthnasol i'r broses gydsynio.

Ar ôl y penderfyniad

1.24 Fel arfer, ni fydd y broses ar gyfer cydsyniad seilwaith yn dod i ben pan fydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu rhoi cydsyniad. Mae'n bosibl y bydd angen cywiro gorchymyn ac, fel yn achos unrhyw ganiatâd, bydd cyfrifoldebau i fodloni gofynion a phosibilrwydd o ddiwygiadau i'r prosiect a gafodd gydsyniad.

Caffael yn orfodol

1.25 Gall cydsyniad seilwaith ei gwneud yn ofynnol caffael tir yn orfodol er mwyn sicrhau y gall cynllun fynd rhagddo. Bydd y bennod hon yn esbonio ble rydym yn gofyn am eich safbwyntiau ar roi proses newydd ar waith ar gyfer caffael tir yn orfodol fel rhan o'r broses gydsynio ar gyfer seilwaith.

Cofrestri o wasanaethau cyn gwneud cais a cheisiadau am Gydsyniad Seilwaith

1.26 Er mwyn sicrhau bod cymunedau lleol a rhanddeiliaid eraill yn ymwybodol o ddatblygiadau arfaethedig sy'n debygol o effeithio arnynt, rhoddir gofynion ar Weinidogion Cymru, ACLlau a CNC i sefydlu a chynnal cofrestri sy'n cynnwys gwybodaeth am wasanaethau cyn gwneud cais a cheisiadau am gydsyniad seilwaith.

**Pennod 2: Darpariaethau Trosiannol**

2.1 Bydd y Ddeddf, naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol, yn disodli nifer o gyfundrefnau statudol cyfredol ar gyfer cydsynio prosiectau seilwaith. Bwriedir i ddarpariaethau trosiannol sicrhau y gellir symud yn ddidrafferth o un gyfundrefn i'r llall.

2.2 Bwriedir tarfu cyn lleied â phosibl ar faterion sydd eisoes yn mynd rhagddynt. Mae hyn yn golygu y gall prosiectau sy'n cael eu hystyried neu sy'n symud yn eu blaen drwy brosesau cydsynio sydd eisoes yn bodoli barhau i wneud hynny nes y bydd penderfyniad wedi'i wneud. Mae hefyd yn bwysig bod y cyfnod trosiannol yn ddichonadwy yn ymarferol, ac felly gofynnir am eich safbwyntiau a'ch awgrymiadau ynglŷn â'r trefniadau arfaethedig.

2.3 Hefyd, mae'r darpariaethau trosiannol arfaethedig yn ceisio sicrhau cyn lleied â phosibl o ddyblygu gwaith os bydd prosiect wedi dechrau cael ei ddatblygu cyn i'r gyfundrefn newydd ddod i rym ond yn cael cydsyniad o dan y Ddeddf. Ar ben hynny, ar gyfer cydsyniadau sydd eisoes wedi'u rhoi, bydd penderfyniadau'n parhau i gael eu gwneud mewn perthynas â diwygiadau ar ôl cydsynio, megis diwygiadau neu newidiadau sylweddol i gydsyniad sydd eisoes wedi'i roi, o dan y cyfundrefnau presennol.

2.4 Bydd angen i'r Ddeddf gynnwys darpariaethau trosiannol priodol mewn perthynas â'r canlynol:

- Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;
- Deddf Trydan 1989;
- Deddf Harbyrau 1964;
- Deddf Trafnidiaeth a Gweithiau 1992;
- Deddf Priffyrdd 1980.

<u>Pwerau</u>

2.5 Mae'r adrannau perthnasol o'r Ddeddf fel a ganlyn:

- *Adran 144 Pŵer i wneud darpariaeth ddeilliadol a throsiannol etc;*
- *Adran 146 Darpariaethau trosiannol ac arbed.*

2.6 Mae adran 146 o'r Ddeddf yn nodi manylion y darpariaethau trosiannol. Mae'n nodi y gall cais am ddatblygiad arfaethedig barhau o dan y gyfundrefn bresennol berthnasol os bydd amodau penodol yn gymwys.

2.7 Mae adran 146(2)(b) yn nodi'r pwynt trosi penodol ar gyfer ceisiadau o dan y gyfundrefn ar gyfer datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol. Hysbysiad o dan adran 62E(1) o Ddeddf 1990 fydd hwn. Hyd y cyfnod trosiannol fydd 24 mis o'r diwrnod y daw adrannau perthnasol y Ddeddf i rym. Hefyd, mae gan Weinidogion Cymru bŵer i gyfarwyddo bod cyfnod trosiannol gwahanol yn gymwys.

2.8 Mae'r adran hefyd yn nodi y bydd is-ddeddfwriaeth yn gwneud darpariaeth ynglŷn â phryd y bydd cais neu hysbysiad i'w drin fel pe bai wedi ei wneud, a beth mae

dan ystyriaeth yn ei olygu. Felly, bydd yr is-ddeddfwriaeth yn nodi'r pwyntiau trosi mewn cyfundrefnau presennol.

2.9 Os bydd prosiect wedi cyrraedd y pwyntiau trosi hyn ar y dyddiad y daw'r Ddeddf i rym, mater i'r ceisydd fydd penderfynu a yw am barhau â chais o dan y cyfundrefnau presennol neu wneud cais newydd fel prosiect seilwaith arwyddocaol.

<u>Pwyntiau trosi ar gyfer cyfundrefnau presennol</u>

2.10 Ein bwriad yw nodi pwyntiau trosi mewn is-ddeddfwriaeth er eglurder. Cynigiwn y pwyntiau canlynol:

*Ceisiadau o dan a.36 o Ddeddf Trydan 1989*

- cais sydd wedi cael ei gyhoeddi yn y papurau newydd perthnasol yn unol â Rheoliad 7 o Reoliadau Trydan (Gorsafoedd Cynhyrchu Alltraeth) (Ceisiadau am Gydsyniad) (Cymru) 2019. Y dyddiad perthnasol yw'r dyddiad cyhoeddi cyntaf.

*Gorchmynion o dan a.14 o Ddeddf Harbyrau 1964 (Gorchmynion Diwygio Harbyrau)*

- y dyddiad perthnasol fydd y diwrnod pan gaiff Gweinidogion Cymru gais sy'n bodloni'r gofynion a nodir ym Mharagraff 7 Atodlen 3 i Ddeddf Harbyrau 1964.

*Gorchmynion o dan a.1 ac a.3 o Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithiau 1992*

- y dyddiad perthnasol fydd y diwrnod pan gaiff Gweinidogion Cymru orchymyn drafft cyn gwneud cais a memorandwm esboniadol yn unol â Rheol 5(1) o Reolau Trafnidiaeth a Gweithiau (Gweithdrefn Ceisiadau a Gwrthwynebiadau) (Cymru a Lloegr) 2006.

*Ceisiadau cynllunio o dan a.57(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990*

- y dyddiad perthnasol fydd y diwrnod pan gaiff yr ACLl gais sy'n bodloni gofynion Erthygl 5 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012.

*Gorchmynion Priffyrdd o dan Ddeddf Priffyrdd 1980*

- y dyddiad perthnasol fydd y diwrnod pan fydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi hysbysiad yn unol â Pharagraff 1 Atodlen 1 i Ddeddf Priffyrdd 1980.

<u>Gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo yr ystyrir ei fod yn berthnasol i'r gyfundrefn ar gyfer prosiectau seilwaith arwyddocaol</u>

2.11 Er mwyn sicrhau cyn lleied â phosibl o ddyblygu gwaith yn ystod y cyfnod trosiannol, bydd yn fuddiol gallu trosglwyddo gwaith cyn gwneud cais lle y caiff

prosiect ei ddatblygu cyn i'r gyfundrefn newydd ddod i rym ond y rhoddir cydsyniad iddo o dan y darpariaethau newydd.

2.12 Cydnabyddir bod y broses gwneud cais ar gyfer rhai cyfundrefnau cydsynio sydd eisoes yn bodoli, megis Deddf Trafnidiaeth a Gweithiau 1992 a Deddf Trydan 1989, wedi dyddio. Gobeithir y bydd cynnig eglurder yn golygu y gall darpar geisyddion sicrhau y bydd y gwaith a wneir yn gydnaws â'r gyfundrefn seilwaith newydd ac felly'n gallu cael ei drosglwyddo. Er enghraifft, gallai hyn olygu y bydd darpar geisyddion yn cynnal ymgynghoriad cyn gwneud cais ychwanegol er mwyn cydymffurfio â'r broses gwneud cais ar gyfer prosiect seilwaith arwyddocaol.

2.13 Mae ffurf, cynnwys a manylion penodol yr hyn a fydd yn ofynnol er mwyn gwneud cais dilys ar gyfer prosiect seilwaith arwyddocaol hefyd o dan sylw yn yr ymgynghoriad hwn, a chânt eu hystyried ar wahân i'r darpariaethau trosiannol. Rydym yn croesawu eich safbwyntiau a'ch awgrymiadau ynglŷn â'r math o waith y gellir ei drosglwyddo o bosibl.

Gwaith Ymgynghori Cyn Gwneud Cais

2.14 Mae rhagor o wybodaeth am fanylion gwaith ymgynghori cyn gwneud cais i'w gweld ym Mhennod 8 y papur ymgynghori hwn.

2.15 Gall ceisyddion gynllunio ar gyfer gwaith ymgynghori cyn gwneud cais a'i wneud yn unol â'r cynigion, cyn trosglwyddo i'r gyfundrefn newydd ar gyfer prosiectau seilwaith arwyddocaol. Fodd bynnag, mater i Weinidogion Cymru fydd derbyn adroddiadau ymgynghori cyn gwneud cais a phenderfynu ar eu dilysrwydd fel rhan o gais ar gyfer prosiectau seilwaith arwyddocaol.

Arolygon amgylcheddol ac arolygon eraill

2.16 Cydnabyddir ei bod yn cymryd cryn dipyn o amser i gynnal llawer o arolygon amgylcheddol, ac mae'n bosibl y bydd angen i randdeiliaid gynllunio ymlaen llaw er mwyn sicrhau y gellir trosglwyddo arolygon i gais ar gyfer prosiect seilwaith arwyddocaol.

2.17 Rhagwelir, ar yr amod bod datblygiadau arfaethedig yr un fath i raddau helaeth, y dylai fod modd trosglwyddo arolygon i'r gyfundrefn ar gyfer prosiectau seilwaith arwyddocaol cyhyd â'u bod yn gyfredol ac y gellir yn rhesymol ddibynnu arnynt yn hyn o beth. Fel yn achos unrhyw gais arall ar gyfer prosiect seilwaith mawr, os bydd dyluniad y prosiect neu unrhyw elfen arall yn newid, mae'n bosibl y bydd angen arolwg neu adroddiad atodol. Fodd bynnag, mater i Weinidogion Cymru benderfynu arno fydd hyn.

2.18 Yn yr un modd ag arolygon amgylcheddol, bydd yn aml yn cymryd llawer o amser i lunio Datganiad Amgylcheddol at ddibenion yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol. Er y gall hyn newid dros y blynyddoedd nesaf, rhagwelir y dylid gallu trosglwyddo gwaith ar yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol cyn belled â bod y prosiect yr un fath i raddau helaeth. Fodd bynnag, fel yn achos mathau eraill o waith cyn gwneud cais, mater i Weinidogion Cymru benderfynu arno fydd hyn.

2.19 Os bydd Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi barn neu gyfarwyddyd sgrinio neu gwmpasu ar gyfer Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, mae'n debygol y bydd modd trosglwyddo barn neu gyfarwyddyd o'r fath i'r gyfundrefn ar gyfer prosiectau seilwaith arwyddocaol. Fodd bynnag, bydd Gweinidogion Cymru yn dal i allu penderfynu cyhoeddi barn neu gyfarwyddyd newydd neu ofyn am ragor o wybodaeth am Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol.

Cyngor yn ôl Disgresiwn gan Ymgyngoreion

2.20 Os bydd corff neu sefydliad wedi rhoi cyngor cyn gwneud cais ar ddatblygiad arfaethedig, mater i'r corff hwnnw fydd penderfynu a ellir trosglwyddo'r cyngor hwnnw i gais ar gyfer prosiect seilwaith arwyddocaol. Rhagwelir y byddai'n broses syml i gorff gadarnhau bod y cyngor yn berthnasol o hyd, ac y bydd modd ychwanegu at gyngor os bydd unrhyw newidiadau.

Gofynion newydd yn dod i rym

2.21 Bydd y system gydsynio newydd yn cael ei chynnwys mewn rheoliadau, a disgwylir i'r rhain gynnwys darpariaeth ddatganedig i'w dwyn i rym yn ddiweddarach. Ystyrir bod angen rhoi digon o amser rhwng gwneud y ddeddfwriaeth a'i dwyn i rym er mwyn i bob rhanddeiliad ddeall y gofynion.

Cwestiynau

- A ydych yn cytuno â'r pwyntiau trosi arfaethedig yn y cyfundrefnau cydsynio presennol? Os nad ydych yn cytuno, pam?

- Yn eich barn chi, pa gyfnod o amser sy'n briodol rhwng yr adeg y caiff rheoliadau eu gosod a'r adeg pan ddaw'r broses gydsynio ar gyfer seilwaith i rym?

- Faint o amser y bydd ei angen rhwng gwneud y ddeddfwriaeth a'i dwyn i rym i bob rhanddeiliaid ddeall y gofynion?

- Pa ddarpariaethau eraill y dylid eu cyflwyno i'w gwneud yn bosibl i brosiectau symud i'r system newydd?

**Pennod 3: Datblygiadau a fydd yn ddarostyngedig i'r broses gydsynio yn ôl Cyfarwyddyd**

3.1 Caiff y mathau o ddatblygiadau a fydd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gydsynio newydd hon yn y Ddeddf eu hadnabod mewn un o dair ffordd:

- Mae'r Ddeddf yn diffinio'r prosiectau hyn yn ôl math o waith a throthwy, a bydd angen cydsyniad seilwaith ar gyfer pob prosiect a fydd yn cyfateb i'r diffiniadau.

- Datblygiad a nodir mewn Cyfarwyddyd a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru, naill ai yn dilyn cais gan y datblygwr neu gan Weinidogion Cymru o'u dewis eu hunain.

- Datblygiad a ddynodir yn brosiect seilwaith arwyddocaol yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a luniwyd o dan adran 60(3) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.

3.2 Mae'r adran hon yn ymwneud â datblygiadau a nodir mewn Cyfarwyddyd.

3.3 Mae'n ymdrin â sefyllfaoedd lle na fydd prosiect yn cyrraedd y trothwyon gorfodol a nodir yn Rhan 1 o'r Ddeddf ond yr ystyrir ei fod o arwyddocâd cenedlaethol. Ymhlith y rhesymau posibl dros hyn mae am y bydd yn arwain at effeithiau sylweddol, am ei fod yn cynnwys llwybrau cydsynio cymhleth, neu am ei fod yn cynnwys technoleg neu amgylchiadau newydd. Mae'r Ddeddf yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gyfarwyddo bod prosiect o'r fath yn brosiect seilwaith arwyddocaol. Bydd hyn yn golygu mai'r broses gydsynio newydd a gaiff ei defnyddio i benderfynu ar y prosiect.

3.4 Mae'r Ddeddf yn gosod cyfyngiadau ar y pŵer hwn i wneud cyfarwyddiadau drwy ei gwneud yn ofynnol pasio is-ddeddfwriaeth i ddisgrifio math o ddatblygiad y gellir cyfarwyddo y dylid ei ystyried yn brosiect seilwaith arwyddocaol. Gall y rheoliadau hyn gynnwys trothwyon, ond ni fydd yn rhaid iddynt wneud hynny.

3.5 Bydd mân faterion gweithdrefnol sy'n ymwneud â'r ffordd y dylai cais am gyfarwyddyd gael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru a'r amserlen i Weinidogion benderfynu a yw prosiect neu gais yn brosiect seilwaith arwyddocaol hefyd yn cael eu pennu mewn rheoliadau.

3.6 Mae'r adran hon yn trafod y canlynol:

- Y materion gweithdrefnol a bennir mewn rheoliadau;
- Y prosiectau a all fod yn destun cyfarwyddyd.

<u>Pwerau</u>

3.7 Mae'r adrannau perthnasol o'r Ddeddf fel a ganlyn:

- *Adran 22 – Cyfarwyddiadau sy'n pennu bod datblygiad yn brosiect seilwaith arwyddocaol;*

- *Adran 23 – Cyfarwyddiadau i geisiadau gael eu trin fel ceisiadau am gydsyniad seilwaith;*
- *Adran 25 – Cyfarwyddiadau o dan adrannau 22 i 24: darpariaeth gyffredinol;*
- *Adran 26 – Cyfarwyddiadau o dan adran 22: rheoliadau sy'n ymwneud â'r weithdrefn.*

**Materion gweithdrefnol: Cais am Gyfarwyddyd**

Pwy all wneud cais am gyfarwyddyd

3.8 O dan y Ddeddf, dim ond datblygwyr fydd yn gallu gwneud cais am Gyfarwyddyd. Ni all trydydd partïon eraill wneud cais i brosiect gael ei ystyried yn brosiect seilwaith arwyddocaol. Bydd modd i drydydd parti ofyn i Weinidogion Cymru ddefnyddio eu pwerau i wneud cyfarwyddyd o'u dewis eu hunain, ond ni fydd dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymateb i gais o'r fath.

3.9 Gellir gwneud ceisiadau am gyfarwyddiadau os bydd datblygwr am gael sicrwydd ynglŷn â'r llwybr cydsynio ar gyfer prosiect. Hefyd, mae'n bosibl y bydd am i'r prosiect fod yn ddarostyngedig i'r gyfundrefn newydd, gan y bydd y gyfundrefn yn cynnig manteision o gymharu â'r system gynllunio, er enghraifft prynu'n orfodol.

Y mathau o geisiadau

3.10 Bydd yn rhaid i geisiadau gan ddatblygwyr gael eu gwneud yn ysgrifenedig i Lywodraeth Cymru, a hynny drwy e-bost i flwch negeseuon penodol. Os caiff ceisiadau eu gwneud i flychau negeseuon eraill, cânt eu hanfon ymlaen, ond nid ystyrir y byddant wedi dod i law nes iddynt gyrraedd y blwch negeseuon cywir.

Gwybodaeth i'w darparu mewn perthynas â cheisiadau am gyfarwyddiadau

3.11 Bydd gallu Gweinidogion Cymru i wneud penderfyniadau amserol o safon uchel mewn ymateb i geisiadau am Gyfarwyddiadau yn dibynnu ar arferion da ac ymddygiad rhesymol gan bob parti. Felly, bydd angen i Weinidogion Cymru gael yr wybodaeth ganlynol er mwyn penderfynu a yw prosiect o arwyddocâd cenedlaethol:

- cynllun o'r lleoliad;
- disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig;
- a oes cais cydredol neu flaenorol wedi cael ei gyflwyno mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig;
- rhesymau pam mae'r datblygwr yn credu bod prosiect yn brosiectau seilwaith arwyddocaol, gan ystyried y trothwyon a bennir yn y Ddeddf ac mewn mannau eraill;
- y rhestr o gydsyniadau eraill sy'n ofynnol er mwyn i'r prosiect fynd rhagddo, rhesymau pam y byddai'n fuddiol eu cynnwys yn y gyfundrefn gydsynio ar gyfer seilwaith;
- unrhyw wybodaeth berthnasol arall am y datblygiad arfaethedig.

3.12 Disgwylir i ddatblygwyr roi digon o wybodaeth i Gyfarwyddyd allu cael ei wneud.

Y personau y dylid eu hysbysu mewn perthynas â cheisiadau am gyfarwyddiadau

3.13 Os bydd cais cymwys gan ddatblygwr wedi cael ei wneud, byddwn yn disgwyl i'r ceisydd hysbysu Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru a'r awdurdod y gwnaed y cais iddo neu y byddai'r cais wedi cael ei wneud iddo mewn perthynas â chais am gydsyniad sy'n dod o dan adran 20 o'r Ddeddf os na chaiff y cyfarwyddyd ei roi.

Terfynau amser

3.14 Caiff y cyfarwyddyd ei wneud o fewn 28 diwrnod ar ôl i gais cymwys ddod i law.

3.15 Os bydd angen gwybodaeth ychwanegol gan y datblygwr, neu os gofynnir am wybodaeth gan awdurdod o fewn is-adran 22(5), caiff y cyfarwyddyd ei wneud o fewn 28 diwrnod ar ôl i'r wybodaeth ddod i law.

Her

3.16 Yr Uchel Lys yw'r unig awdurdod a all nodi'n ffurfiol bod gwall cyfreithiol mewn penderfyniad a'i gwneud yn ofynnol ailystyried y penderfyniad hwnnw. Rhaid i geisiadau i herio penderfyniadau ar Gyfarwyddyd a phenderfyniadau ar gostau cysylltiedig ddod i law'r Llys Gweinyddol o fewn 42 diwrnod (6 wythnos) i ddyddiad y penderfyniad.

**Mathau o ddatblygiadau: Cais am Gyfarwyddyd**

3.17 Mae adran 22 yn nodi y gall Gweinidogion Cymru roi Cyfarwyddyd yn pennu bod datblygiad penodol yn brosiect seilwaith arwyddocaol. Ymhlith materion eraill a bennir ar wyneb y Ddeddf, rhaid i'r datblygiad gyfateb i ddisgrifiad a nodir mewn rheoliadau.

Mathau o ddatblygiadau sydd wedi'u cynnwys

3.18 Mae'r Ddeddf yn nodi'r meini prawf a'r trothwyon ar gyfer prosiectau seilwaith arwyddocaol a fydd yn perthyn i'r gyfundrefn gydsynio newydd. Ar gyfer mathau penodol o brosiectau (y rhai ag allbwn ynni canolig yn bennaf), neu brosiect sy'n cynnwys technoleg neu amgylchiadau newydd, mae'n bosibl na fydd trothwy meintiol gorfodol syml yn ddigon i bennu p'un a yw prosiect o arwyddocâd a chymhlethdod o'r fath yn deilwng o gael cydsyniad drwy broses gydsynio unedig. Felly, os bydd datblygiad o arwyddocâd cenedlaethol i Gymru, gall Gweinidogion Cymru roi Cyfarwyddyd i bennu bod datblygiad arfaethedig yn brosiect seilwaith arwyddocaol. Rydym wedi nodi dwy enghraifft lle y bydd hyn yn berthnasol.

3.19 Enghraifft 1 – pan na fydd y prosiect yn bodloni meini prawf gorfodol. Os bydd prosiect fymryn yn brin o fodloni meini prawf gorfodol y Ddeddf, ond ei fod yn debygol o godi pryderon sylweddol oherwydd ei leoliad neu ei gymhlethdod, gall Gweinidogion Cymru gyfarwyddo y dylid ystyried bod y prosiect yn brosiect seilwaith arwyddocaol ac felly bod angen cydsyniad seilwaith. Er enghraifft, gall Gweinidogion Cymru gyfarwyddo y dylai fferm ynni solar arfaethedig a fydd â chapasiti cynhyrchu o 45 o fegawatiau ond a fydd wedi'i lleoli yn agos at

dderbynnydd ecolegol sensitif, ac y bydd angen mwy nag un math o gydsyniad ar ei chyfer, gael ei hystyried yn brosiect seilwaith arwyddocaol oherwydd ei heffeithiau sylweddol posibl.

3.20 Enghraifft 2 – pan fydd y prosiect yn cynnwys technoleg neu amgylchiadau newydd. Yn ogystal â'r pŵer i gyfarwyddo pan fydd prosiect islaw'r trothwyon gorfodol, mae'r Ddeddf yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i Weinidogion Cymru wrth iddynt ystyried a ddylai technoleg neu amgylchiadau newydd fod yn rhan o'r gyfundrefn gydsynio. Er enghraifft, nid yw datblygiadau sy'n ymwneud â chynhyrchu hydrogen wedi'u cynnwys yn y Ddeddf ar hyn o bryd am fod y dechnoleg hon yn gymharol newydd ac am fod gan yr achosion sydd wedi cael eu cyflwyno hyd yma gapasiti bach ac am nad ydynt yn gymhleth. Fodd bynnag, os caiff prosiect newydd ei gyflwyno sy'n fwy cymhleth ac yn cynnwys effeithiau sylweddol posibl, gall fod yn fuddiol cynnwys y prosiectau hyn yn y gyfundrefn gydsynio unedig newydd, oherwydd eu hamgylchiadau newydd.

3.21 Yn seiliedig ar hyn, ystyrir ei bod yn briodol rhestru dau gategori o brosiectau mewn is-ddeddfwriaeth fel prosiectau y gellir cyfarwyddo eu bod yn brosiectau seilwaith arwyddocaol:

- Datblygiadau nad ydynt yn cyrraedd y trothwyon a restrir yn rhan 1 o'r Ddeddf;
- Technolegau newydd nad ydynt wedi'u rhestru yn y Ddeddf ar hyn o bryd.

3.22 Ystyrir y dylai'r ddeddfwriaeth restru'r categorïau o brosiectau, ac nid y trothwyon. Caiff canllawiau eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r ddeddfwriaeth, a gall y canllawiau hyn gynnig trothwy dangosol ynghylch p'un a fydd yn debygol y caiff prosiectau eu hystyried yn rhai arwyddocaol ai peidio.

3.23 Mae'r tabl isod yn dangos y mathau o ddatblygiadau arfaethedig a'r trothwyon cysylltiedig a gaiff eu nodi mewn canllawiau.

| **Datblygiadau a nodir yn y Ddeddf** | |
|---|---|
| **Math o ddatblygiad – a nodir mewn is-ddeddfwriaeth.** | **Trothwy'r datblygiad – a nodir mewn canllawiau.** |
| **1A. Gorsafoedd cynhyrchu ar y tir (ac eithrio'r rhai sy'n cynhyrchu o wynt ar y tir a bennwyd yn 1C a dosbarthiadau storio ynni fel y'u pennwyd yn 1D);** | **Adeiladu:**<br>Adeiladu gorsaf gynhyrchu, lle y disgwylir y bydd gan yr orsaf gynhyrchu gynhwysedd gosodedig rhwng 10 a 50 o fegawatiau.<br><br>**Addasu neu estyn:**<br>addasu neu estyn gorsaf gynhyrchu pan ddisgwylir mai effaith yr estyniad neu'r addasiad fydd cynyddu'r capasiti cynhyrchu gosodedig 10 o fegawatiau o leiaf, ond ni chaiff effaith yr estyniad gynyddu'r cynhwysedd cynhyrchu cyffredinol y tu hwnt i 350 o fegawatiau. |

| | |
|---|---|
| **1B. Gorsafoedd cynhyrchu alltraeth hyd at derfynau atfor y môr tiriogaethol, ac eithrio'r dosbarthiadau storio ynni hynny a nodir yn 1D)** | **Adeiladu:**<br>Adeiladu gorsaf gynhyrchu, lle y disgwylir y bydd gan yr orsaf gynhyrchu gynhwysedd gosodedig rhwng 1 a 50 o fegawatiau.<br><br>**Addasu neu estyn:**<br>Addasu neu estyn gorsaf gynhyrchu, os disgwylir mai effaith yr addasiad neu'r estyniad yw cynyddu'r cynhwysedd cynhyrchu gosodedig 1 megawat o leiaf, ond ni chaiff effaith yr estyniad gynyddu'r cynhwysedd cynhyrchu cyffredinol y tu hwnt i 350 o fegawatiau. |
| **1C. Gorsafoedd ynni gwynt ar y tir** | **Adeiladu:**<br>Adeiladu gorsaf gynhyrchu, lle y disgwylir y bydd gan yr orsaf gynhyrchu gynhwysedd gosodedig rhwng 10 a 50 o fegawatiau.<br><br>**Addasu neu estyn:**<br>Addasu neu estyn gorsaf gynhyrchu, os mai effaith yr addasiad neu'r estyniad yw cynyddu'r cynhwysedd cynhyrchu gosodedig 10 o fegawatiau o leiaf. |
| **1D. Storio Ynni – Gorsaf lle y caiff ynni trydanol ei droi'n fath o ynni y gellir ei storio, lle y caiff yr ynni hwnnw ei storio, a lle y caiff yr ynni hwnnw ei droi'n ôl yn ynni trydanol wedi hynny. Nid yw hyn yn cynnwys system hydrodrydanol lle y caiff trydan ei gynhyrchu gan ddefnyddio dŵr sydd wedi cael ei bwmpio i mewn i gronfa ddŵr ar dir uwch** | **Adeiladu:**<br>Adeiladu cyfleuster storio, lle y disgwylir y bydd ganddo gynhwysedd storio o fwy na 10 o fegawatiau.<br><br>**Addasu neu estyn:**<br>Addasu neu estyn cyfleuster storio, os mai effaith yr addasiad neu'r estyniad yw cynyddu'r cynhwysedd storio 10 o fegawatiau o leiaf. |
| **1E. Llinellau trydan uwchben sy'n gysylltiedig â gorsaf gynhyrchu o ddisgrifiad a nodwyd yn 1A-1D.** | **Gosod:**<br>Disgwylir y bydd gan y llinell drydan uwchben foltedd enwol o lai na 132 o gilofoltau; neu<br><br>Disgwylir y bydd gan y llinell drydan uwchben foltedd enwol o 132 o gilofoltau ac y bydd yn llai na 2 gilometr o hyd.<br><br>**Addasu neu uwchraddio:**<br>Unrhyw addasiad neu estyniad i linell drydan uwchben hyd at a chan gynnwys 132 o gilofoltau. |

| | |
|---|---|
| **2A. Cyfleusterau nwy naturiol hylifedig** | **Adeiladu:**<br>Disgwylir i'r cynhwysedd storio fod yn 10 miliwn o fetrau ciwbig safonol o leiaf neu y disgwylir i gyfradd llif uchaf y cyfleuster fod yn 1 filiwn o fetrau ciwbig safonol y diwrnod o leiaf;wedi wwedi neu<br>**Addasu:**<br>Disgwylir i'r cynhwysedd storio presennol gynyddu 10 miliwn o fetrau ciwbig safonol o leiaf neu o gyfradd llif uchaf o 10 miliwn o fetrau ciwbig safonol o leiaf yn fwy y dydd. |
| **2B. Cyfleusterau derbyn nwy** | **Adeiladu:**<br>Disgwylir i gyfradd llif uchaf y cyfleuster fod yn fwy nag 1 filiwn o fetrau ciwbig safonol y dydd; neu<br><br>**Addasu:**<br>Disgwylir i gyfradd llif uchaf y cyfleuster presennol fod yn fwy nag 1 filiwn o fetrau ciwbig safonol y dydd. |
| **3A. Priffyrdd** | **Adeiladu:**<br><br>Os mai Gweinidogion Cymru neu unrhyw gwmni sy'n eiddo iddynt yn gyfan gwbl fydd yr Awdurdod Priffyrdd; a lle y bydd y gwaith adeiladu'n cynnwys darn di-dor o ffordd sydd hyd at 1 cilometr o hyd. |
| **3B. Rheilffyrdd sy'n dechrau, yn gorffen ac yn aros yng Nghymru, ac nad ydynt wedi'u pennu'n Ddatblygiadau a Ganiateir o fewn Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995.** | **Adeiladu:**<br>Bydd y gwaith adeiladu yn cael ei wneud gan weithredwr a gymeradwywyd ac yn cynnwys darn o drac sy'n ddi-dor am fwy na 2 gilometr o hyd.<br><br>**Addasu:**<br>Bydd y gwaith addasu yn cael ei wneud gan weithredwr a gymeradwywyd ac yn cynnwys darn o drac sy'n ddi-dor am fwy na 2 gilometr o hyd. |
| **3C. Cyfnewidfeydd nwyddau rheilffordd** | **Adeiladu:**<br>Disgwylir i'r gyfnewidfa nwyddau rheilffordd, ar ôl iddi gael ei hadeiladu, allu trin hyd bedwar trên nwyddau y dydd.<br><br>**Addasu:**<br>Addasiad y disgwylir iddo gynyddu faint o drenau nwyddau a drinnir y dydd. |
| **3D. Porthladdoedd a Harbyrau** | **Gwaith:**<br>Disgwylir i'r cyfleusterau harbwr, ar ôl iddynt gael eu hadeiladu neu eu haddasu, arwain at weithrediad effeithlon yr harbwr, a disgwylir i'r cyfleusterau gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd (h.y. bydd angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol). |
| **3E. Meysydd awyr** | **Adeiladu:** |

| | |
|---|---|
| | Disgwylir i'r maes awyr, ar ôl iddo gael ei adeiladu neu ei addasu, gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd (h.y. bydd angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol). |
| **4A. Argaeau a chronfeydd dŵr** | **Adeiladu:**<br>Disgwylir i gyfaint y dŵr sy'n cael ei ddal yn ôl gan yr argae neu ei storio yn y gronfa ddŵr fod yn fwy nag 1 filiwn o fetrau ciwbig o ddŵr.<br><br>**Addasu:**<br>Disgwylir i gyfaint ychwanegol y dŵr sy'n cael ei ddal yn ôl gan yr argae neu ei storio yn y gronfa ddŵr o ganlyniad i'r addasiad fod yn fwy nag 1 filiwn o fetrau ciwbig. |
| **4B. Trosglwyddo adnoddau dŵr** | Ni chynigir unrhyw drothwyon dewisol. |
| **4C. Gweithfeydd trin dŵr gwastraff** | Ni chynigir unrhyw drothwyon dewisol. |
| **5A. Cyfleusterau gwastraff peryglus** | Ni chynigir unrhyw drothwyon dewisol. |
| **5B. Cyfleusterau gwaredu daearegol i waredu gwastraff ymbelydrol yn derfynol** | Ni chynigir unrhyw drothwyon dewisol. |
| **Prosiectau nad ydynt wedi'u pennu yn y Ddeddf** | |
| **Cynhyrchu hydrogen** | Mae'r cyfleuster yn gallu cynhyrchu 15 o dunelli o H2 y dydd. |
| **Piblinellau nad ydynt yn trawsgludo nwy** | Piblinellau sy'n cael eu hadeiladu gan drawsgludwyr nad ydynt yn trawsgludo nwy sydd rhwng 1 a 16 cilometr o hyd. |
| Piblinellau gan drawsgludwyr nwy | Mae'r biblinell<br>- yn cael ei hadeiladu gan drawsgludwr nwy<br>- yn gyfan gwbl neu'n rhannol yng Nghymru (neu barth Cymru)<br>- mae'n rhaid i'r biblinell fod yn fwy nag 800 o filifetrau mewn diamedr a mwy na 40 cilometr o hyd.<br>- mae'n rhaid i'r biblinell fod â phwysedd gweithredu dyluniad o fwy na 7 bar mesur.<br><br>Mae i drawsgludwr nwy yr yn ystyr ag sydd ym mharagraff 1 o Ddeddf Nwy 1986 p.44. |

## Cwestiynau

- A ydych yn cytuno â'r prosiectau y gellir eu cyfarwyddo, a'u trothwyon cyfatebol?
- Pa dechnolegau newydd neu wreiddiol eraill nad ydynt wedi'u rhestru yn y Ddeddf a ddylai gael eu rhestru, a beth yw'r trothwy cyfatebol?

## Pennod 4: Datblygiadau trawsffiniol

4.1 Mae'r Ddeddf yn sicrhau y bydd Gweinidogion Cymru yn cydsynio seilwaith penodol ar dir yng Nghymru, neu yn y môr hyd at 12 milltir forol o dan un broses newydd. Mae'r Ddeddf yn cydnabod y gall datblygiad groesi'r ffin ac felly na fyddai'r datblygiad yn cael cydsyniad drwy un gyfundrefn, gan olygu na chaiff arbedion effeithlonrwydd y broses newydd eu gwireddu.

4.2 Byddai angen i brosiectau sy'n pontio'r ffin ar y tir â Lloegr hefyd gael cydsyniad yn Lloegr o dan y ddeddfwriaeth berthnasol, er enghraifft Deddf Cynllunio 2008, neu Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Y tu hwnt i 12 milltir forol, byddai'r prosiect hefyd yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth arall ar gyfer y rhan honno o'r datblygiad, er enghraifft trwydded forol gan CNC neu gydsyniad gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Trydan 1989.

4.3 Os bydd prosiect yn croesi'r ffin, bydd faint o'r datblygiad a fydd yn destun penderfyniad o dan y Ddeddf yn amrywio fesul achos unigol. Os mai rhan fach o'r datblygiad fydd hyn, mae'n bosibl y bydd y broses newydd yn anghymesur. Felly, mae'r Ddeddf yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo na fydd prosiect penodol yn brosiect seilwaith arwyddocaol. O dan amgylchiadau o'r fath, byddai'r prosiect yn dychwelyd i'r gyfundrefn gydsynio bresennol ar gyfer y prosiect hwnnw (oni bai ei fod yn ddatblygiad o arwyddocâd cenedlaethol a fyddai'n dychwelyd i'r gyfundrefn ar gyfer caniatâd cynllunio o dan Ddeddf 1990).

<u>Pwerau</u>

4.4 Mae'r Ddeddf yn cynnwys nifer o ddarpariaethau mewn perthynas â chais i gyfarwyddo nad yw prosiect yn brosiect seilwaith arwyddocaol. Mae rhai o'r pwerau hyn hefyd yn ymdrin â gwneud Cyfarwyddyd i bennu bod datblygiad yn brosiect seilwaith arwyddocaol. Mae'r adrannau perthnasol o'r Ddeddf fel a ganlyn:

- *Adran 24 – Cyfarwyddiadau sy'n pennu nad yw datblygiad yn brosiect seilwaith arwyddocaol;*
- *Adran 25 – Cyfarwyddiadau o dan adrannau 22 i 24: darpariaeth gyffredinol;*
- *Adran 26 – Cyfarwyddiadau o dan adran 22: rheoliadau sy'n ymwneud â'r weithdrefn.*

### Materion gweithdrefnol

<u>Gweithdrefnau</u>

4.5 Byddai'r mwyafrif o'r gweithdrefnau a nodir uchod ar gyfer cais i gyfarwyddo bod prosiect yn brosiect seilwaith arwyddocaol, gan gynnwys pwy all wneud cais a'r cyfnodau amser, yn gymwys i geisiadau am gyfarwyddyd nad yw prosiect yn brosiect seilwaith arwyddocaol. Mae'r unig wahaniaethau'n ymwneud â'r mathau o brosiectau y gall y cais fod yn berthnasol iddynt, a'r wybodaeth i ategu cais.

Prosiectau

4.6 Dim ond os bydd y datblygiad (ar ôl iddo gael ei gwblhau) yn rhannol yng Nghymru neu yn ardal forol Cymru y gellir gwneud cais am gyfarwyddyd. Ni ellir ystyried yr un math arall o ddatblygiad.

Gwybodaeth i'w darparu mewn perthynas â cheisiadau am gyfarwyddiadau

4.7 Bydd angen i'r cais am gyfarwyddyd gynnwys gwybodaeth debyg i'r hyn a nodir ym mharagraff 3.11. Y prif wahaniaeth fydd cyfiawnhau pam na ddylid cynnwys y prosiect. Disgwylir y dylid cyflwyno'r canlynol o leiaf gyda chais am gyfarwyddyd:

- cynllun o'r lleoliad;
- disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig;
- a oes cais cydredol neu flaenorol wedi cael ei gyflwyno mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig;
- rhesymau pam mae'r datblygwr yn credu na ddylai'r prosiect gael ei gynnwys yn y gofyniad am gydsyniad seilwaith;
- unrhyw wybodaeth berthnasol arall am y datblygiad arfaethedig.

4.8 Mae'n ofynnol i ddatblygwyr roi digon o wybodaeth i Gyfarwyddyd allu cael ei wneud.

## Pennod 5: Cydsyniadau a Ddiddymwyd a Chydsyniadau Tybiedig

5.1 Mae'r Ddeddf yn rhoi un gyfundrefn gydsynio ar waith ar gyfer seilwaith arwyddocaol, yn lle'r system bresennol sy'n aml yn ei gwneud yn ofynnol cael nifer o gydsyniadau, sy'n gorgyffwrdd o bryd i'w gilydd, ar gyfer darn unigol o seilwaith.

5.2 Siop un stop yw'r bwriad. Felly, yn ogystal â'r cydsyniadau a restrir yn adran 20 o'r Ddeddf, gall fod yn fuddiol i hyrwyddwyr a'r corff cydsynio perthnasol i gydsyniad seilwaith gynnwys darpariaethau sy'n gysylltiedig ag agwedd benodol ar ddefnyddio neu weithrediad seilwaith a gwmpesir gan ofyniad cydsyniad penodol fel arfer.

Diben a chrynodeb

5.3 Felly, mae'n bosibl y bydd y cydsyniad seilwaith a roddir gan Weinidogion Cymru hefyd yn rhoi caniatâd, yn awdurdodi, yn cymeradwyo, yn cydsynio neu'n trwyddedu mewn perthynas â materion atodol. Bydd y dull hwn yn galluogi datblygwyr i wneud cais am yr amryw gydsyniadau eraill sy'n ofynnol i roi cynllun ar waith, petaent yn dymuno gwneud hynny.

Pwerau

5.4 Yr adran berthnasol yn y Ddeddf yw:

- *Adran 84 – Dileu gofynion cydsynio a thybio cydsyniadau.*

Gwahaniaethu rhwng cydsyniadau tybiedig a chydsyniadau a ddiddymwyd

5.5 Cydsyniadau a fydd yn cael eu rhoi fel rhan o gydsyniad seilwaith heb fod angen cydsyniad, awdurdodiad na thrwydded ar wahân yw cydsyniadau tybiedig. Cydsyniadau a gaiff eu datgymhwyso ac na fyddant yn ofynnol mwyach os rhoddir cydsyniad seilwaith yw cydsyniadau wedi'u diddymu.

5.6 Y gwahaniaeth hollbwysig rhwng cydsyniadau tybiedig a chydsyniadau a ddiddymwyd yw y gall cydsyniadau tybiedig gael eu gorfodi o dan y Ddeddf berthnasol os caiff eu telerau eu torri. Ni fydd cydsyniad a ddiddymwyd yn rhan o'r cydsyniad seilwaith ac felly ni ellir ei orfodi o dan y Ddeddf berthnasol. Fodd bynnag, gallai amodau gael eu cymhwyso fel rhan o'r cydsyniad seilwaith sy'n ymdrin â'r un pynciau â'r cydsyniad sydd wedi'i ddiddymu, a byddai'r amodau'n orfodadwy fel rhan o'r cydsyniad seilwaith.

Pwy fydd yn sefydlu'r cydsyniadau perthnasol

5.7 Os bydd cydsyniad yn dybiedig neu wedi'i ddiddymu, yn ymarferol, mater i'r datblygwr fydd penderfynu a hoffai wneud cais i dybio neu ddiddymu'r cydsyniad (h.y. na fydd angen y cydsyniad mwyach). Fodd bynnag, yn y pen draw, Gweinidogion Cymru fydd â'r pŵer i dybio neu ddiddymu'r cydsyniad.

Cydsyniad i dybio neu ddiddymu cydsyniad

5.8 Mae'r Ddeddf yn dilyn dull cymwysedig, sy'n tybio bod awdurdod cydsynio perthnasol wedi awdurdodi'r defnydd o'i gydsyniad/trwydded/awdurdodiad o fewn y cydsyniad seilwaith. Fodd bynnag, bydd yr awdurdod cydsynio perthnasol yn cael cyfle i wrthod yr hawl i gynnwys y cydsyniad/trwydded/awdurdodiad atodol dan sylw yn y cydsyniad seilwaith. Nodir hyn ar wyneb y Ddeddf yn adrannau 84(2) a (3).

Tybio neu ddiddymu cydsyniad lle nad yw cydsyniad yn ofynnol

5.9 Mae adran 84(3) o'r Ddeddf yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu mewn is-ddeddfwriaeth eithriadau i adrannau 84(2) a (3), gan ganiatáu, i bob pwrpas, i Weinidogion Cymru ddileu gofyniad am gydsyniadau penodedig, neu dybio'r cydsyniadau hynny, heb ganiatâd (datganedig neu fud) yr awdurdod perthnasol.

5.10 Mae'r mathau hyn o gydsyniad (megis caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad cysylltiedig, fforddfreintiau neu newidiadau i hawliau mordwyo) yn rhai y mae'n amlwg y dylent fod yn rhan o'r cydsyniad seilwaith, neu a gaiff gydsyniad gan Weinidogion Cymru yn y lle cyntaf. Ni ddylai fod angen caniatâd Gweinidogion Cymru na'r ACLl yn y lle cyntaf i gynnwys cydsyniadau o'r fath yn y cydsyniad seilwaith. Ar gyfer rhestr o gydsyniadau rhagnodedig, cynigir y dylid galluogi Gweinidogion Cymru i gynnwys y rhain yn y cydsyniad seilwaith o dan bob amgylchiad. Gall y penderfynwr osod amodau ar y cydsyniadau hyn.

Beth ddylai fod yn dybiedig neu wedi'i ddiddymu?

5.11 Ni chredwn y dylai rheoliadau nodi pob math o gydsyniad neu awdurdodiad a allai fod yn ofynnol ar gyfer prosiect – byddai hyn yn golygu rhestr hir ac anhylaw o berthnasedd cyfyngedig.

5.12 Yn lle hynny, rydym am nodi'r cydsyniadau hynny y gallai fod yn rhesymol gofyn i Weinidogion Cymru eu cynnwys, neu y gallai fod yn rhesymol iddynt ddymuno eu cynnwys, mewn cydsyniad seilwaith. Rydym wedi ceisio sicrhau bod y rhestr mor gynhwysfawr â phosibl o ran cydsyniadau y gallai fod yn rhesymol eu cynnwys mewn cydsyniad seilwaith.

**Materion y gellir eu tybio neu eu diddymu gyda chytundeb y corff cydsynio neu y gellir eu cynnwys heb gytundeb**

5.13 Mae Atodiad A yn cynnwys rhestr o'r cydsyniadau hynny y gellir eu tybio neu eu diddymu gyda chytundeb y corff cydsynio neu, fel arall, pan nad oes angen cydsyniad corff awdurdodi cyn bod cydsyniad yn cael ei dybio neu ei ddiddymu. Mae Atodiad B yn rhoi rhestr o'r holl gydsyniadau y gellid eu hychwanegu at y rhestr derfynol, ac fe'i darperir er gwybodaeth.

Cwestiynau

- A ydych yn cytuno â'r Cydsyniadau y gellir eu diddymu/tybio? Os nad ydych yn cytuno, pa gydsyniadau y dylid eu dileu neu eu rhestru?

- Pa gydsyniadau a ddylai gael eu diddymu/tybio gyda chydsyniad y corff perthnasol yn unig?

**Pennod 6: Cyn gwneud cais – cyngor a gwybodaeth**

6.1 Mae cam cyn gwneud cais prosiectau seilwaith yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod y broses gyfan yn mynd rhagddi'n ddidrafferth. Bydd y broses yn arwain at geisiadau sydd wedi'u dylunio'n well a bydd y broses yn dechrau ar y camau cynnar drwy weithdrefnau er mwyn helpu i ddylunio'r camau datblygu ac ymgysylltu.

6.2 Mae'r Ddeddf yn nodi'r gofynion hyn:

- Gwasanaethau cyn gwneud cais;
- Cael gwybodaeth ynghylch buddiannau mewn tir;
- Pwerau mynediad i gynnal arolwg o dir.

**Gwasanaethau cyn gwneud cais**

6.3 Mae Gweinidogion Cymru yn ymrwymedig i ddefnyddio gwasanaethau cyn gwneud cais fel ffordd o sicrhau y bydd unrhyw broses gydsynio ar gyfer seilwaith yn gweithredu'n effeithlon. Mae darparu gwasanaethau cyn gwneud cais yn gwella safon ceisiadau ac yn hwyluso penderfyniadau cyflymach.

6.4 Mae'r arferion presennol yn dangos bod y rhan fwyaf o ddatblygwyr yn ceisio cyngor cyn gwneud cais a'u bod yn cael llawer o fudd o'i ddefnyddio am fod modd iddynt drafod eu cynnig datblygu yn fanwl, cael gwybodaeth am y safle a'r ardal leol, nodi'r fframwaith polisi perthnasol a chael adborth cychwynnol ar eu cynnig datblygu.

6.5 Gall hyn helpu i ddatblygu cynnig sy'n cynnwys yr holl wybodaeth sy'n angenrheidiol er mwyn galluogi cymunedau lleol a rhanddeiliaid eraill i gymryd rhan yn llawn fel rhan o'r broses ymgynghori cyn gwneud cais, yn ogystal â helpu i sicrhau y bydd y cais yn symud yn fwy didrafferth drwy'r camau archwilio.

<u>Pwerau</u>

6.6 Yr adran berthnasol yn y Ddeddf yw:

- *Adran 27 – Darparu gwasanaethau cyn gwneud cais.*

<u>Cais am wasanaeth cyn gwneud cais</u>

6.7 Os bydd angen i ddarpar geisyddion gael gwasanaethau cyn gwneud cais gan yr ACLl perthnasol, CNC a/neu Weinidogion Cymru, bydd angen gwneud cais ffurfiol. Rydym yn bwriadu cyflwyno is-ddeddfwriaeth i nodi'r gofynion canlynol:

- Rhaid i unrhyw gais am wasanaethau cyn gwneud cais gael ei wneud yn ysgrifenedig ar ffurflen wedi'i chyhoeddi gan Weinidogion Cymru;
- Bydd angen i ddarpar geisyddion gynnwys y manylion a nodir neu y cyfeirir atynt ar y ffurflen (gweler paragraff 6.8 am ragor o wybodaeth);
- Rhaid cynnwys cynllun o leoliad y safle ac unrhyw gynlluniau neu luniadau eraill y bydd y ceisydd o'r farn eu bod yn briodol.

6.8 Rhaid i ffurflenni cais am wasanaethau cyn gwneud cais gynnwys y manylion canlynol:

- Enw a chyfeiriad y darpar geisydd;
- Lleoliad y datblygiad arfaethedig gan gyfeirio at gyfeiriad neu gyfesurynnau'r safle;
- Disgrifiad annhechnegol o'r datblygiad arfaethedig;
- A oes angen cyfarwyddyd sgrinio neu gwmpasu ar gyfer Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol gan Weinidogion Cymru.

6.9 Gall darpar geisyddion gynnwys gwybodaeth neu fanylion ychwanegol yn eu ffurflen gais am wasanaethau cyn gwneud cais os byddant yn credu y byddai hynny o fudd i'r corff sy'n darparu'r gwasanaethau cyn gwneud cais, ond ni fyddai hyn yn ofyniad gorfodol.

6.10 Bydd hefyd yn ofynnol i ddarpar geisyddion gyflwyno unrhyw ffi sy'n daladwy am wasanaethau cyn gwneud cais. Mae rhagor o wybodaeth am ffioedd wedi'i nodi ym mhennod 10.

<u>Dilysu ceisiadau am wasanaethau cyn gwneud cais</u>

6.11 Bydd angen i gais am wasanaethau cyn gwneud cais gael ei ddilysu gan y corff y mae'r darpar geisydd yn ei gyflwyno iddo (Gweinidogion Cymru, yr ACLl a/neu CNC). Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod gan y rhai sy'n darparu gwasanaethau cyn gwneud cais yr holl wybodaeth angenrheidiol o'u blaenau.

6.12 Er mwyn i gais am wasanaethau cyn gwneud cais gael ei ystyried yn un dilys, rydym yn cynnig y dylai'r holl wybodaeth a gofynion a nodir ym mharagraffau 6.7 – 6.8 uchod gael eu bodloni.

6.13 Os caiff cais am wasanaethau cyn gwneud cais ei gyflwyno ond nad yw'r holl ofynion wedi'u bodloni, er enghraifft os bydd gwybodaeth ar goll neu os caiff ffi anghywir ei chyflwyno, bydd yn ofynnol i'r corff y cafodd y cais ei wneud iddo ysgrifennu at y ceisydd cyn gynted ag y bo'n ymarferol, gan nodi'r hyn y bydd angen ei gyflwyno er mwyn i'r cais gael ei ystyried yn un dilys.

6.14 Yn yr un modd, os caiff cais ei wneud sy'n bodloni'r holl ofynion, bydd yn rhaid i'r corff y cafodd y cais ei gyflwyno iddo ysgrifennu at y ceisydd cyn gynted ag y bo'n ymarferol yn nodi bod ei gais am wasanaethau cyn gwneud cais wedi cael ei dderbyn, ac yn nodi erbyn pa ddyddiad y bydd yn rhaid i'r gwasanaethau cyn gwneud cais gael eu darparu.

6.15 Rydym yn cynnig y bydd hyn 28 diwrnod ar ôl y dyddiad pan gaiff hysbysiad ysgrifenedig o gais dilys am wasanaethau cyn gwneud cais ei roi i'r ceisydd, oni bai (yn achos gwasanaethau cyn gwneud cais a ddarperir gan ACLlau a CNC) y cytunir ar estyniad amser yn ysgrifenedig gyda'r ceisydd, neu (yn achos Gweinidogion Cymru) y bydd Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo bod angen rhagor o amser.

Gofyniad i ddarparu gwasanaethau cyn gwneud cais

6.16 Ar ôl i gais dilys am wasanaethau cyn gwneud cais ddod i law, bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru, ACLlau a CNC ddarparu gwasanaethau cyn gwneud cais a gall ceisyddion wneud cais am y gwasanaethau hyn gan un, dau neu bob un o'r cyrff hyn.

6.17 Er mwyn sicrhau y bydd darpar geisyddion yn cael gwasanaethau cyn gwneud cais digonol sy'n rhoi'r modd iddynt ddatblygu eu cynnig er budd y gymuned leol a'r gymuned ehangach, bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru, ACLlau a CNC gynnwys lefel benodol o wybodaeth yn eu hymateb ysgrifenedig i gais am wasanaethau cyn gwneud cais gan ddarpar geisyddion.

6.18 Bydd yr wybodaeth a roddir yn amrywio, o ystyried y gwahanol wybodaeth ac arbenigedd a fydd gan y rhai a all ddarparu gwasanaethau cyn gwneud cais, a'n bwriad ni yw pennu lefel ofynnol yr wybodaeth y bydd yn rhaid ei rhoi.

6.19 Ar gyfer Gweinidogion Cymru, rydym yn cynnig y bydd yn rhaid rhoi'r wybodaeth ganlynol o leiaf:

- Cyngor ar ffurf a chynnwys cais (gan gynnwys adroddiadau technegol);
- Cyngor ar unrhyw bolisi perthnasol;
- Cyngor ar y broses gydsynio, gan gynnwys cydsyniadau tybiedig neu gydsyniadau a ddiddymwyd.

6.20 Ar gyfer ACLlau, rydym yn cynnig y bydd yn rhaid rhoi'r wybodaeth ganlynol o leiaf:

- Hanes cynllunio perthnasol safle datblygiad arfaethedig;
- Manylion unrhyw ddatganiadau posibl o dir cyffredin;
- Syniad o faterion lleol sy'n ymwneud â safle datblygiad arfaethedig, gan gynnwys mesurau lliniaru posibl;
- Y fframwaith polisi lleol, i'r graddau y mae'n berthnasol i'r cais;
- Cyngor ar ymgynghori cyn gwneud cais a sut y gellir rhoi cymaint o wybodaeth â phosibl i randdeiliaid a chymunedau lleol (gan gynnwys unigolion, grwpiau neu gymdeithasau) y gallai cynnig ar gyfer datblygiad effeithio arnynt.

6.21 Ar gyfer CNC, rydym yn cynnig y bydd yn rhaid rhoi'r wybodaeth ganlynol o leiaf:

- Safbwynt dangosol ar ba ystyriaethau amgylcheddol y bydd angen rhoi sylw iddynt fel rhan o ddatblygiad arfaethedig;
- Amlinelliad o'r asesiadau y gall fod angen eu cynnal i ategu cais am gydsyniad seilwaith;
- Trafodaethau ynglŷn ag unrhyw ddatganiadau posibl o dir cyffredin;
- Rhoi cyngor cychwynnol ar ganiatadau neu drwyddedau a all fod yn ofynnol ar gyfer y prosiect;
- Os bydd y cynigydd yn ceisio tybio neu ddiddymu cydsyniad, cyngor cychwynnol mewn perthynas â'r cais hwnnw.

6.22 Gall pob un o'r cyrff hyn hefyd ddarparu gwasanaethau cyn gwneud cais ychwanegol sy'n mynd y tu hwnt i'r gofynion sylfaenol statudol a nodir uchod, os bydd darpar geisydd yn gofyn iddynt wneud hynny. Fodd bynnag, ni fyddai gofyniad gorfodol i wneud hynny a byddai unrhyw ffi bellach a gaiff ei phennu gan y corff yn daladwy am unrhyw wasanaethau cyn gwneud cais ychwanegol hefyd.

Cyfarfodydd gwasanaeth cyn gwneud cais

6.23 Mae'n bosibl y bydd cyfarfodydd yn ddefnyddiol i ddarpar geisyddion wrth drafod eu datblygiadau arfaethedig, yn enwedig os byddant yn ymwneud ag egluro'r broses gydsynio neu ymhelaethu ar gyngor cyn gwneud cais ysgrifenedig a gafwyd. Felly, rydym yn cynnig galluogi ceisyddion i wneud cais am gyfarfodydd gyda Gweinidogion Cymru, yr ACLl a/neu CNC fel rhan o'r gwasanaethau cyn gwneud cais a fydd ar gael iddynt. Rhaid i geisiadau o'r fath gael eu gwneud yn ysgrifenedig.

6.24 Os caiff cais am gyfarfod ynghylch gwasanaethau cyn gwneud cais ei dderbyn, bydd yn ofynnol i'r darpar geisydd dalu ffi i'r corff (neu'r cyrff) a fydd wedi derbyn y cais am gyfarfod.

6.25 Fodd bynnag, gall Gweinidogion Cymru, yr ACLl neu CNC, heb ymrwymiad ac os byddant o'r fan bod cyfarfod yn ddiangen, wrthod cael cyfarfod gyda darpar geisydd.

Cynnal cofrestr o wasanaethau cyn gwneud cais

6.26 Er mwyn hwyluso gwasanaeth cyn gwneud cais cyson, bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru, ACLlau a CNC gynnal cofrestr o'r holl geisiadau am wasanaethau cyn gwneud cais a gyflwynir iddynt.

6.27 Mae rhagor o fanylion am gofrestri i'w gweld ym mhennod 16 yn yr ymgynghoriad hwn.

Datganiad o wasanaethau

6.28 Er mwyn rhoi cymaint â phosibl o wybodaeth i ddarpar geisyddion, ac er eglurder, credwn ei bod yn briodol i Weinidogion Cymru, ACLlau a CNC nodi pa wasanaethau cyn gwneud cais a ddarperir ganddynt a sut y gall darpar geisyddion ryngweithio â'r gwasanaeth. Credwn mai rhoi'r wybodaeth hon ar wefan sy'n eiddo i'r cyrff hyn neu a gaiff ei chynnal ganddynt yw'r ffordd fwyaf priodol o wneud hyn.

6.29 Fel rhan o'r cynigion hyn, rydym yn cynnig y dylai is-ddeddfwriaeth ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, ACLlau a CNC gyhoeddi datganiad ar eu priod wefannau sy'n rhoi manylion y gwasanaethau cyn gwneud cais a ddarperir ganddynt, yn ogystal â chyhoeddi manylion y ffioedd sy'n daladwy mewn perthynas â cheisiadau am wasanaethau cyn gwneud cais.

**Cael gwybodaeth ynghylch buddiannau mewn tir**

6.30 Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaethau o dan adran 28 (darpariaethau ynglŷn â chael gwybodaeth ynghylch buddiannau mewn tir) er mwyn sicrhau y bydd y rhai hynny y bydd datblygiad yn effeithio ar eu buddiannau mewn tir[1] yn rhan o'r broses gydsynio. Er y disgwylir y gall datblygwyr ffurfio'r cysylltiadau hyn drwy ymgysylltu'n gadarnhaol â'r gymuned leol, mae'r Ddeddf yn cydnabod efallai na fydd hyn yn bosibl bob amser.

6.31 Mae'r Ddeddf yn gosod gofynion i bobl benodol gael eu hysbysu os caiff ceisiadau eu cynnig neu eu gwneud. Ymhlith y rhain mae adran 29 (darpariaethau ynglŷn â hysbysu am gais arfaethedig), 30 (darpariaethau ynglŷn ag ymgynghoriad a chyhoeddusrwydd cyn gwneud cais), ac adrannau 61 i 69 (darpariaethau mewn gorchmynion sy'n awdurdodi caffael tir yn orfodol).

6.32 Diben adran 28 yw galluogi'r ceisydd i gydymffurfio â'r darpariaethau hyn. Mae'r adran yn galluogi Gweinidogion Cymru i awdurdodi'r ceisydd i gyflwyno hysbysiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r derbynnydd roi i'r ceisydd enw a chyfeiriad unrhyw berson y mae'r derbynnydd yn credu sydd â buddiant mewn tir y mae cais arfaethedig am gydsyniad seilwaith yn ymwneud ag ef; a bod ganddo hawl i wneud cais i gael ei ddigolledu pe bai'r cais yn cael ei gymeradwyo a bod y datblygiad yn mynd rhagddo.

6.33 Cyn defnyddio'r pŵer hwn, disgwylir i geisyddion ymddwyn yn rhesymol, gan geisio cael gwybodaeth berthnasol am fuddiannau mewn tir yn uniongyrchol yn gyntaf cyn ceisio cydsyniad gan Weinidogion Cymru. Dylent wneud hyn drwy ‘ymholi'n ddyfal’, h.y. drwy roi cynnig ar bob modd rhesymol o gael gwybodaeth.

<u>Pwerau</u>

6.34 Yr adran berthnasol yn y Ddeddf yw:

- *Adran 28 – Cael gwybodaeth ynghylch buddiannau mewn tir.*

**Gwneud cais**

6.35 Nid yw'r Ddeddf yn rhagnodi ffurflen na phroses i'w dilyn wrth geisio awdurdodiad gan Weinidogion Cymru i gael gwybodaeth am fuddiannau mewn tir o dan adran 28. Mae'r broses rydym yn bwriadu ei dilyn ar hyn o bryd fel a ganlyn.

<u>Gwybodaeth i'w chynnwys gyda'r cais i gyflwyno hysbysiad ar fuddiannau mewn tir</u>

6.36 Os na fydd y ceisydd wedi llwyddo i gadarnhau ei fod wedi cael yr holl wybodaeth am fuddiannau mewn tir sy'n gysylltiedig â'r cais am gydsyniad seilwaith yn wirfoddol, dylai ceisiadau i allu cyflwyno hysbysiad i gael y manylion hynny gael

[1] Diffinnir buddiannau mewn tir o dan adran 28 o'r Ddeddf ac maent yn cynnwys perchnogion neu feddianwyr y tir, unrhyw berson sydd â buddiant yn y tir ac unrhyw berson sydd â'r pŵer i werthu, trawsgludo neu ryddhau'r tir.

eu gwneud yn ysgrifenedig i Weinidogion Cymru. I ategu'r cais, dylai'r ceisydd roi'r wybodaeth ganlynol:

- Manylion cyswllt ar gyfer y ceisydd;
- Disgrifiad o'r prosiect y mae angen cydsyniad ar ei gyfer;
- Esboniad o'r rhesymau pam mae angen awdurdodiad;
- Y derbynnydd/derbynyddion arfaethedig;
- Cynlluniau sy'n dangos y tir y mae gwybodaeth ynghylch buddiannau'n cael ei cheisio ar ei gyfer;
- Gwybodaeth i ddangos bod y ceisydd wedi ymddwyn yn rhesymol a'i fod wedi rhoi cynnig ar bob modd rhesymol o gael gwybodaeth a/neu fod ei gais am wybodaeth wedi cael ei wrthod yn afresymol;
- Tystiolaeth o roi gwybod i'r derbynnydd/derbynyddion arfaethedig bod cais am awdurdodiad wedi cael ei wneud i Weinidogion Cymru;
- Am ba hyd y gwneir cais am awdurdodiad adran 28, sef dim mwy na 12 mis yn y rhan fwyaf o achosion.

<u>Pa dir y gellir ei gynnwys mewn cais</u>

6.37 Dylai cais am awdurdodiad adran 28 gynnwys yr holl barseli o dir lle nad yw'r ceisydd wedi llwyddo i gael yr wybodaeth berthnasol am fuddiannau mewn tir.

<u>Ffioedd ar gyfer y cais</u>

6.38 Cynigir y bydd ffi yn daladwy am gais adran 28. Cynigir y bydd y ffi sy'n daladwy yn ddibynnol ar nifer y parseli o dir y gwneir y cais ar eu cyfer. Mae'r ffi arfaethedig wedi'i nodi ym mhennod 10.

**Y broses**

<u>Sylwadau ar y cais</u>

6.39 Os bydd ceisydd yn gwneud cais am awdurdodiad, bydd Gweinidogion Cymru yn disgwyl i'r ceisydd anfon llythyr hysbysu at bob un o'r derbynyddion arfaethedig (a chopïau at asiantiaid sy'n gweithredu ar eu rhan, os bydd hynny'n berthnasol) gan amgáu copi union o'r cais am awdurdodiad.

6.40 Dylai'r llythyr hysbysu roi gwybod i'r derbynnydd/derbynyddion arfaethedig ei bod yn rhaid iddo/iddynt ymateb i'r cais/ceisiadau am awdurdodiad o fewn 14 diwrnod, yn dechrau ar y diwrnod ar ôl y dyddiad y disgwylir i'r hysbysiad gyrraedd y derbynnydd/derbynyddion arfaethedig. Bydd Gweinidogion Cymru hefyd yn ysgrifennu at y derbynyddion ar ôl i'r cais ddod i law.

<u>Rhagor o wybodaeth</u>

6.41 Ar ôl i'r derbynnydd/derbynyddion arfaethedig gael cyfle i wneud sylwadau ar y cais/ceisiadau am awdurdodiad, ac os bydd Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn briodol, gallant ofyn am ragor o sylwadau neu wybodaeth gan y ceisydd a/neu'r derbynnydd/derbynyddion arfaethedig.

Ystyriaeth

6.42 Bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried y cais ac unrhyw wybodaeth a gyflwynwyd.

Hyd yr awdurdodiad

6.43 Rhagwelir y byddai'r awdurdodiad, os caiff ei roi, yn datgan yn y rhan fwyaf o achosion y bydd yn dod i ben naill ai 12 mis ar ôl dyddiad yr awdurdodiad, neu, os caiff ei roi yn ystod y cam cyn gwneud cais, ddyddiad cyflwyno cais ar gyfer prosiect seilwaith arwyddocaol mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig (os caiff y cais ei gyflwyno cyn i'r cyfnod 12 mis hwnnw ddod i ben).

**Hyd y cyfnod penderfynu**

6.44 Nid oes amserlen statudol ragnodedig sy'n nodi erbyn pryd y mae'n rhaid penderfynu ar gais am awdurdodiad. Fodd bynnag, ystyrir y gall hyn gymryd o leiaf dri mis.

**Yr hysbysiad**

6.45 Bydd y broses a fydd yn galluogi'r ceisydd i roi hysbysiad os na fydd wedi cael gwybodaeth am fuddiannau mewn tir yn cael ei nodi mewn rheoliadau. Mae adran 28 o'r Ddeddf yn cadarnhau y gall Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth ynglŷn â hysbysiad o dan Is-adran (2) neu (3), gan gynnwys darpariaeth ynglŷn â ffurf a chynnwys hysbysiad; sut y dylai hysbysiad gael ei roi; a'r amserlen ar gyfer ymateb i hysbysiad.

Ffurf a chynnwys yr hysbysiad

6.46 Rhagwelir y bydd rheoliadau'n rhoi'r gofynion canlynol ar gyfer sut y dylai'r hysbysiad gael ei wneud a'i gynnwys:

- Rhaid i'r hysbysiad gael ei wneud yn ysgrifenedig a nodi'r wybodaeth y bydd yn ofynnol i'r derbynnydd ei rhoi mewn ymateb;
- Datgan bod Gweinidogion Cymru wedi awdurdodi'r ceisydd i gyflwyno'r hysbysiad;
- Nodi neu ddisgrifio'r tir y mae'r cais, neu'r cais arfaethedig, yn ymwneud ag ef;
- Nodi erbyn pryd y bydd yn rhaid i'r derbynnydd roi'r wybodaeth ofynnol i'r ceisydd;
- Tynnu sylw at y darpariaethau yn Is-adrannau 28(6) i (8) o'r Ddeddf sy'n cadarnhau y byddai'r person yn cyflawni trosedd ac yn agored i ddirwy pe na bai'n cydymffurfio â'r hysbysiad.

Amserlen ar gyfer ymateb

6.47 Yr amserlen arfaethedig ar gyfer ymateb i'r hysbysiad yw 21 diwrnod.

**Tirfeddianwyr absennol neu nad oes ôl ohonynt wrth gael gwybodaeth ynghylch buddiannau mewn tir**

6.48 Cydnabyddir y bydd rhai amgylchiadau, os bydd y ceisydd yn ceisio darganfod buddiannau perthnasol mewn tir y byddai archiad caffael gorfodol yn effeithio arnynt, lle na fydd yn ymarferol dod o hyd i fanylion ar gyfer y personau y caiff hysbysiad ei gyflwyno iddynt o bosibl.

6.49 Os bydd ceisydd, ar ôl rhoi cynnig ar bob modd rhesymol o gyflwyno hysbysiad (drwy ymholi'n ddyfal a dilyn y camau a amlinellir uchod), yn fodlon nad yw'n ymarferol canfod enwau a chyfeiriadau'r holl fuddiannau mewn tir, ac os bydd yn ofynnol cyflwyno dogfen berthnasol ar gaffael yn orfodol (gan gynnwys cyhoeddi hysbysiad safle), rydym yn cynnig y bydd is-ddeddfwriaeth yn nodi gofynion i'r ddogfen gael ei chyflwyno drwy wneud y canlynol:

- Ei chyfeirio ato gan ddatgan ei fod ar gyfer “perchennog” neu “feddiannydd” y tir;
- Naill ei gadael yn nwylo person sy'n byw neu sy'n cael ei gyflogi ar y tir, neu y mae'n ymddangos ei fod yn byw neu'n cael ei gyflogi yno, neu ei gadael wedi'i gosod mewn lle amlwg ar adeilad neu wrthrych ar y tir neu'n agos ato.

**Pwerau mynediad i gynnal arolwg o dir**

6.50 Mae'n bosibl y bydd angen i geisyddion sy'n ystyried gwneud cais ar gyfer prosiect seilwaith arwyddocaol fynd ar dir at ddibenion arolygu a phrisio. Er enghraifft, efallai y bydd angen iddynt gael gwybod a oes unrhyw dir halogedig a allai lesteirio cynllun arfaethedig neu bennu manylebau prosiect terfynol.

6.51 Er y disgwylir y gall datblygwyr gael cydsyniad ar gyfer y mathau hyn o waith drwy ymgysylltu'n gadarnhaol â'r tirfeddianwyr lleol a'r gymuned, mae'r Ddeddf yn cydnabod efallai na fydd hyn yn bosibl bob amser. Mae adrannau 125 a 126 yn darparu pwerau mynediad i gynnal arolwg o dir.

<u>Diben a chrynodeb</u>

6.52 O dan adran 125, gall Gweinidogion Cymru awdurdodi person(au) i fynd ar dir sy'n eiddo i drydydd partïon, er mwyn cynnal arolygon a chymryd lefelau a/neu er mwyn hwyluso cydymffurfiaeth â darpariaethau statudol. Gall y pwerau mynediad gynnwys y pŵer i chwilio a thurio er mwyn canfod natur yr isbridd neu bresenoldeb mwynau neu fater arall ynddo a/neu gymryd a phrosesu samplau.

6.53 Cyn defnyddio'r pŵer hwn, disgwylir i geisyddion ymddwyn yn rhesymol, gan geisio cael mynediad yn uniongyrchol yn gyntaf cyn ceisio cydsyniad. Ar ben hynny, cyn rhoi awdurdodiad, bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru fod yn fodlon bod y ceisydd arfaethedig yn ystyried prosiect pendant o sylwedd gwirioneddol y mae gwir angen mynd ar y tir ar ei gyfer.

Pwerau

6.54 Yr adran berthnasol yn y Ddeddf yw:

- *Adran 125 – Pwerau mynediad i gynnal arolwg o dir.*

**Gwneud cais**

6.55 Nid yw'r Ddeddf yn rhagnodi ffurflen na phroses i'w dilyn wrth geisio awdurdodiad o dan adran 125. Mae'r broses rydym yn bwriadu ei dilyn ar hyn o bryd fel a ganlyn.

Gwybodaeth i'w chynnwys gyda'r cais

6.56 Dylai ceisiadau gael eu gwneud yn ysgrifenedig i Weinidogion Cymru, a chynnwys yr wybodaeth ganlynol a restrir isod i ategu'r cais:

- Manylion cyswllt;
- Disgrifiad o'r prosiect y mae angen neu y rhoddwyd cydsyniad ar ei gyfer;
- Esboniad o'r rhesymau pam mae angen awdurdodiad, gan ystyried y meini prawf ar gyfer awdurdodiad adran 125 (h.y. mae'r ceisydd yn ystyried prosiect o sylwedd gwirioneddol y mae gwir angen mynd ar y tir ar ei gyfer);
- Manylion yr arolygon a'r gwaith arfaethedig;
- Nodi personau â buddiant;
- Cynlluniau sy'n dangos y tir y mae awdurdodiad i gael mynediad yn cael ei geisio ar ei gyfer;
- Gwybodaeth i ddangos bod y ceisydd wedi ymddwyn yn rhesymol a bod cais ganddo i fynd ar y tir wedi cael ei wrthod yn afresymol;
- Tystiolaeth o roi gwybod i'r person â buddiant bod cais am awdurdodiad wedi cael ei wneud;
- Hyd yr awdurdodiad adran 125 y gwneir cais amdano;
- Unrhyw amodau y mae'r ceisydd yn credu y dylai unrhyw awdurdodiad fod yn ddarostyngedig iddynt.

6.57 Os bydd y cais yn ymwneud â thir y Goron, gall awdurdodiad adran 126 roi'r hawl i fynd ar dir y Goron. Fodd bynnag, ni all person arfer yr hawl honno heb ganiatâd awdurdod priodol y Goron neu awdurdodiad person y mae'n ymddangos i'r person hwnnw fod ganddo hawl i roi'r caniatâd hwnnw. Os bydd angen hyn, dylai gael ei gynnwys gyda'r cais.

Pa dir y gellir ei gynnwys mewn cais

6.58 Dylai cais am awdurdodiad adran 125 gynnwys yr holl barseli o dir lle mae angen i'r ceisydd wneud gwaith arolygu perthnasol.

Ffioedd ar gyfer y cais

6.59 Cynigir y bydd ffi yn daladwy am gais adran 125. Nodir hyn ym mhennod 10.

**Y broses**

Sylwadau ar y cais

6.60 Os bydd ceisydd yn gwneud cais am awdurdodiad, bydd Gweinidogion Cymru yn disgwyl i'r ceisydd anfon llythyr hysbysu at bob un o'r derbynyddion arfaethedig (a chopïau at asiantiaid sy'n gweithredu ar eu rhan, os bydd hynny'n berthnasol) gan amgáu copi union o'r cais am awdurdodiad.

6.61 Dylai'r llythyr hysbysu roi gwybod i'r derbynnydd/derbynyddion arfaethedig y gall wneud sylwadau ar y cais/ceisiadau am awdurdodiad o fewn 14 diwrnod, yn dechrau ar y diwrnod ar ôl y dyddiad y disgwylir i'r hysbysiad gyrraedd y derbynnydd/derbynyddion arfaethedig. Bydd Gweinidogion Cymru hefyd yn ysgrifennu at bob derbynnydd arfaethedig i sicrhau bod pob derbynnydd yn cael ei hysbysu.

Rhagor o wybodaeth

6.62 Ar ôl i'r derbynnydd/derbynyddion arfaethedig gael cyfle i wneud sylwadau ar y cais/ceisiadau am awdurdodiad, ac os bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol, gallant ofyn am ragor o sylwadau neu wybodaeth gan y ceisydd a/neu'r derbynnydd/derbynyddion arfaethedig.

Hyd y cyfnod penderfynu

6.63 Nid oes amserlen statudol ragnodedig sy'n nodi erbyn pryd y mae'n rhaid penderfynu ar gais am awdurdodiad. Fodd bynnag, ystyrir y gall hyn gymryd o leiaf dri mis.

**Y penderfyniad**

6.64 Ar ôl cael gwybodaeth ddigonol, bydd yr awdurdod archwilio yn ystyried unrhyw wybodaeth a roddwyd gan y ceisydd a'r personau â buddiant ac yn penderfynu ar y cais am awdurdodiad.

6.65 Ar ôl penderfynu ar y cais, bydd Gweinidogion Cymru yn anfon copi o'r penderfyniad at y ceisydd, naill ai'n awdurdodi mynediad ar y tir gan gynnwys unrhyw amodau, neu'n gwrthod y cais/ceisiadau. Caiff rhesymau eu rhoi i ategu'r penderfyniad. Bydd Gweinidogion Cymru yn anfon y rhain ymlaen at bersonau â buddiant.

Cwestiynau

- A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu cyffredinol a gynigir ar gyfer gwasanaethau cyn gwneud cais? Os nad ydych yn cytuno, pam?

- A ydych yn cytuno â'r gofynion sylfaenol arfaethedig a bennir ar gyfer Gweinidogion Cymru, ACLlau a CNC o ran darparu gwasanaethau cyn gwneud cais? Os nad ydych yn cytuno, a ddylid ychwanegu / dileu unrhyw ofynion?

- A oes gennych unrhyw sylwadau ar y broses o gael gwybodaeth ynghylch buddiannau mewn tir?

- A oes gennych unrhyw sylwadau ar y broses ar gyfer pwerau mynediad i gynnal arolwg o dir?

**Pennod 7: hysbysu ac ymgynghori cyn gwneud cais**

7.1 Mae sicrhau y gall cymunedau lleol a rhanddeiliaid eraill ddylanwadu ar ddatblygiadau arfaethedig cyn gynted â phosibl yn helpu i sicrhau y gellir penderfynu ar geisiadau mewn modd amserol.

7.2 Ein bwriad yw y caiff unrhyw faterion o bwys eu codi, eu trafod a'u hystyried rhwng darpar geisyddion a rhanddeiliaid cyn i gais ffurfiol gael ei gyflwyno. Gall rhanddeiliaid ddwyn i sylw ceisyddion wybodaeth ac ystyriaethau hanfodol nad oeddent yn hysbys i ddarpar geisyddion o'r blaen, a chaiff cymunedau lleol eu grymuso i helpu i lywio cynllun posibl. Bydd cynnal ymgynghoriad effeithiol cyn gwneud cais o fudd i bob parti sy'n rhan o'r broses ddatblygu. Cwmpesir y broses hon gan yr hysbysiad o geisiadau arfaethedig ac ymgynghoriad a chyhoeddusrwydd cyn gwneud cais.

**Hysbysiad o geisiadau arfaethedig**

7.3 Cyn iddynt gyflawni eu dyletswyddau ymgynghori cyn gwneud cais, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ddarpar geisyddion roi gwybod i Weinidogion Cymru a phersonau penodedig eraill am eu bwriad i gyflwyno cais am gydsyniad seilwaith.

7.4 Drwy ei gwneud yn ofynnol i ddarpar geisyddion roi gwybod ymlaen llaw bydd hynny'n helpu i gyfrannu at ddiwylliant o roi mwy o bwyslais ar gamau rhagarweiniol y system, drwy hysbysu pob parti perthnasol am ddatblygiad arfaethedig ac y byddant yn debygol o gyflwyno cais ffurfiol yn y dyfodol.

Pwerau

7.5 Yr adran berthnasol yn y Ddeddf yw:

- *Adran 29 – Hysbysu am gais arfaethedig.*

Ffurflen hysbysu a gwybodaeth ategol

7.6 Er mwyn sicrhau dull cyson, rydym yn bwriadu cyflwyno is-ddeddfwriaeth er mwyn pennu'r gofynion sylfaenol o ran yr hyn y bydd yn rhaid ei gyflwyno fel rhan o hysbysiad cyn gwneud cais darpar geisydd. Bydd disgwyl i ddarpar geisyddion gyflwyno:

- Ffurflen hysbysu cyn gwneud cais a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru (neu ffurflen sylweddol gyffelyb o ran ei heffaith), gan gynnwys y manylion a nodir neu y cyfeirir atynt ar y ffurflen (gweler paragraff 7.7 am ragor o wybodaeth);
- Cynllun wedi'i luniadu wrth raddfa a nodwyd sy'n dangos y lleoliad/ffin y mae datblygiad arfaethedig yn ymwneud ag ef/hi;
- Naill ai datganiad yn cadarnhau y caiff datganiad amgylcheddol ei gyflwyno, neu gyfarwyddyd sgrinio yn cadarnhau nad yw'n ofynnol;
- Manylion personau eraill y cafodd y ffurflen cyn gwneud cais a gwybodaeth ategol arall eu hanfon atynt;

- Unrhyw ffi y bydd angen ei thalu mewn perthynas â rhoi hysbysiad cyn gwneud cais.

7.7 Rhaid i ffurflenni hysbysu cyn gwneud cais gynnwys y manylion canlynol:

- Enw a chyfeiriad y darpar geisydd;
- Enw a chyfeiriad yr asiant (os yw'n berthnasol);
- Lleoliad y datblygiad arfaethedig gan gyfeirio at gyfeiriad neu gyfesurynnau safle;
- Disgrifiad annhechnegol o'r datblygiad arfaethedig.

Derbyn ffurflen hysbysu cyn gwneud cais

7.8 Ar ôl i ffurflen hysbysu cyn gwneud cais gael ei chyflwyno, bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi hysbysiad ysgrifenedig yn cadarnhau eu bod wedi cael a derbyn yr hysbysiad i'r person a gyflwynodd yr hysbysiad ac i'r partïon hynny y gwnaeth y darpar geisydd anfon ei ffurflen hysbysu cyn gwneud cais atynt (gweler paragraff 7.6).

7.9 Bydd yn ofynnol i hysbysiad o'r fath gael ei roi yn ysgrifenedig o fewn 10 diwrnod gwaith, yn dechrau ar y diwrnod y cafodd Gweinidogion Cymru ffurflen hysbysu gan ddarpar geisydd, oni fydd Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo bod angen rhagor o amser.

7.10 Fodd bynnag, dim ond os bydd yr holl wybodaeth ofynnol yn y ffurflen hysbysu a'r deunyddiau ategol eraill a nodir ym mharagraffau 7.6 – 7.7 wedi cael eu cynnwys, a'r ffi gywir wedi'i thalu, y bydd Gweinidogion Cymru yn derbyn ffurflen hysbysu cyn gwneud cais.

7.11 Os bydd Gweinidogion Cymru o'r farn bod hysbysiad cyn gwneud cais wedi cael ei gyflwyno nad yw'n bodloni'r gofynion, bydd yn ofynnol iddynt anfon hysbysiad ysgrifenedig at y darpar geisydd a'r holl bartïon hynny yr anfonwyd copi o'r hysbysiad cyn gwneud cais atynt, yn rhoi gwybod iddynt na chafodd yr hysbysiad ei dderbyn a pha wybodaeth neu fanylion sydd ar goll neu'n anghyflawn.

7.12 Bydd yn ofynnol i hysbysiad o'r fath gael ei roi yn ysgrifenedig o fewn 10 diwrnod gwaith, yn dechrau ar y diwrnod y cafodd Gweinidogion Cymru ffurflen hysbysu gan ddarpar geisydd, oni fydd Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo bod angen rhagor o amser.

Terfynau amser ar gyfer dechrau cynnal ymgynghoriad cyn gwneud cais

7.13 Yn dilyn hysbysiad ysgrifenedig bod y ffurflen hysbysu cyn gwneud cais wedi cael ei derbyn, gall darpar geisyddion ddechrau cynnal eu hymgynghoriad cyn gwneud cais ffurfiol â chymunedau lleol a rhanddeiliaid eraill, yn unol ag adran 30 o'r Ddeddf a gofynion eraill a nodir ym mharagraffau 7.15 – 7.59 y papur ymgynghori hwn.

7.14 Er mwyn sicrhau bod ffocws pendant i weithgareddau cyn gwneud cais a'u bod yn parhau i fod yn berthnasol, rydym yn cynnig y bydd gan ddarpar geisyddion

gyfnod o 12 mis i gynnal eu gweithgareddau ymgynghori cyn gwneud cais a chyflwyno cais ffurfiol am gydsyniad seilwaith i Weinidogion Cymru. Byddai'r cyfnod 12 mis yn dechrau ar y diwrnod pan fydd Gweinidogion Cymru yn cadarnhau eu bod wedi derbyn hysbysiad cyn gwneud cais.

**Ymgynghori cyn gwneud cais**

7.15 Mae'n hanfodol cynnal cyfnod o ymgynghori cyn gwneud cais er mwyn sicrhau bod cymunedau lleol a rhanddeiliaid perthnasol yn cael gwybod cyn gynted â phosibl am ddatblygiadau arfaethedig sy'n debygol o effeithio arnynt.

7.16 Mae hyn hefyd yn cynnig cyfle ar gyfer cynnwys ac ymgysylltu mwy effeithiol er mwyn helpu cymunedau lleol a rhanddeiliaid i ddylanwadu ar gynlluniau cyn i gais ffurfiol am gydsyniad seilwaith gael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru.

7.17 Er mwyn sicrhau y caiff ymgyngoriadau cyn gwneud cais eu cynnal mewn modd ystyrlon a chynhwysol, mae'n bwysig sefydlu ‘gofynion sylfaenol’ ar gyfer pob cais arfaethedig am gydsyniad seilwaith. Bydd hyn yn helpu i sicrhau lefel o gysondeb yn y broses, ond byddwn yn annog darpar geisyddion i fynd y tu hwnt i unrhyw ofynion sylfaenol statudol a gaiff eu nodi mewn canllawiau lle bo hynny'n briodol.

Pwerau

7.18 Yr adran berthnasol yn y Ddeddf yw:

- *Adran 30 – Ymgynghoriad a chyhoeddusrwydd cyn gwneud cais.*

Ymgynghoriad blaenorol

7.19 Ar 13 Mai 2024, cafodd papur ymgynghori o'r enw ‘Bil Seilwaith (Cymru) – y gofynion ar gyfer ymgynghori cyn gwneud cais a dulliau o ymgysylltu â rhanddeiliaid a chymunedau lleol’ ei gyhoeddi.

7.20 Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn, syniadau ac awgrymiadau ynglŷn â sut y gall gofynion ymgynghori cyn gwneud cais gael eu pennu mewn is-ddeddfwriaeth.

7.21 Mae copi o'r ddogfen ‘crynodeb o'r ymatebion’ sydd wedi dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad i'w weld yma:

**Bil Seilwaith (Cymru): y gofynion ar gyfer ymgynghori cyn ymgeisio | LLYW.CYMRU**

Gofynion ymgynghori cyn gwneud cais

7.22 Ar ôl i'r ymgynghoriad blaenorol ddod i ben ac yn dilyn y sylwadau a wnaed, ynghyd â thystiolaeth o brosesau cydsynio sydd eisoes yn bodoli, rydym yn cynnig y gofynion sylfaenol statudol canlynol ar gyfer ymgynghori cyn gwneud cais:

*Agor a chynnal gwefan*

7.23 Fel rhan o'r broses ymgynghori cyn gwneud cais, rydym yn cynnig ei gwneud yn ofynnol i ddarpar geisyddion agor a chynnal gwefan arbennig ar gyfer eu datblygiadau arfaethedig, a fyddai ar gael i unrhyw berson a hoffai ei gweld.

7.24 Bydd agor gwefan arbennig ar gyfer datblygiad arfaethedig yn helpu i sicrhau proses agored a thryloyw drwy greu man hygyrch lle y gellir cyhoeddi manylion llawn cynnig ar gyfer datblygiad.

7.25 Bydd hefyd yn sicrhau bod cymunedau lleol a rhanddeiliaid eraill yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am hynt prosiect arfaethedig yn rheolaidd a'u bod yn ymwybodol o unrhyw ddigwyddiadau neu weithgareddau ymgynghori eraill.

7.26 Fel rhan o'r cynigion hyn, byddem yn ei gwneud yn ofynnol i ddarpar geisyddion agor a chynnal gwefan benodol yn arbennig ar gyfer eu datblygiadau arfaethedig o fewn tri mis i'r dyddiad y cânt wybod gan Weinidogion Cymru fod eu hysbysiad cyn gwneud cais wedi cael ei dderbyn fel un dilys. Wedyn, byddai angen i'r wefan gael ei chynnal o ddechrau'r ymgynghoriad cyn gwneud cais tan yr adeg y caiff cais llawn am gydsyniad seilwaith ei gyflwyno i Weinidogion Cymru (o leiaf).

7.27 Os na fydd darpar geisydd yn agor gwefan yn ystod y cyfnod tri mis, tybir bod ei hysbysiad cyn gwneud cais wedi'i dynnu yn ôl.

*Gofynion sylfaenol ar gyfer gwefan*

7.28 Er y bydd agor a chynnal gwefan arbennig ar gyfer datblygiad arfaethedig yn helpu i wella tryloywder a hygyrchedd o ran darparu gwybodaeth a manylion perthnasol, mae'n bwysig bod gwefannau o'r fath yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i gymunedau lleol a rhanddeiliaid eraill am y datblygiad a sut y gallant wneud sylwadau.

7.29 Er mwyn sicrhau y bydd hyn yn digwydd, rydym yn cynnig cyflwyno gofynion sylfaenol o ran yr hyn y bydd yn rhaid i wefan ei gynnwys. Bydd hyn yn cynnwys:

- Disgrifiad annhechnegol o'r datblygiad arfaethedig;
- Cynllun yn dangos y tir neu'r ardal y mae'r datblygiad arfaethedig yn ymwneud ag ef/hi;
- Unrhyw luniadau a dogfennau eraill y bydd darpar geisydd o'r farn eu bod yn briodol;
- Disgrifiadau annhechnegol o unrhyw ddogfennau, cynlluniau a gwybodaeth sy'n ymwneud â datblygiad arfaethedig;
- Manylion unrhyw ymgyngoriadau sy'n cael eu cynnal neu y bwriedir eu cynnal, megis digwyddiadau;
- Copi o'r ffurflen hysbysu cyn gwneud cais;
- Unrhyw ddiweddariadau, amserlenni a newidiadau a wneir i ddatblygiad arfaethedig;
- Manylion cyswllt (rhif ffôn a chyfeiriad e-bost) y datblygwr i'w rhoi i'r cyhoedd yn fwy cyffredinol a'r rhai sydd â buddiant mewn datblygiad arfaethedig er

mwyn iddynt geisio eglurder ynglŷn ag agweddau ar y datblygiad a gofyn cwestiynau.

Gofynion cyhoeddusrwydd a hysbysu

7.30 Yn ogystal â gwefan arbennig ar gyfer datblygiad arfaethedig, mae hefyd yn hanfodol bod cymunedau lleol a rhanddeiliaid eraill yn cael gwybod cyn gynted â phosibl am ddatblygiadau arfaethedig sy'n effeithio arnynt. Mae hyn yn golygu y gellir eu cynnwys ac ymgysylltu â nhw yn fwy effeithiol er mwyn helpu i ddylanwadu ar gynlluniau.

7.31 Ein bwriad yw cyflwyno gofyniad sylfaenol i ddarpar geisyddion roi cyhoeddusrwydd i'r datblygiadau arfaethedig ac unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â'u hymarferion ymgynghori ac ymgysylltu cyn gwneud cais ymhlith cymunedau lleol a rhanddeiliaid perthnasol cyn i unrhyw ymgynghoriad ddechrau.

7.32 Bydd gofynion cyhoeddusrwydd a hysbysu yn amrywio yn dibynnu ar b'un a fydd datblygiad arfaethedig ar dir neu yn ardal forol Cymru.

*Datblygiad ar dir:*

- Rhoi hysbysiad ysgrifenedig am ddatblygiad arfaethedig i berchennog a/neu feddianwyr tir sy'n agos at safle'r datblygiad arfaethedig, ymgyngoreion statudol, cynghorau cymuned, Aelodau perthnasol o'r Senedd a Thŷ'r Cyffredin, ac unrhyw bersonau eraill yr ystyrir eu bod yn briodol, gan gynnwys unigolion, grwpiau neu gymdeithasau a nodir yn ystod unrhyw drafodaethau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau cyn gwneud cais (*gweler isod am ragor o fanylion yr wybodaeth a gaiff ei chynnwys mewn hysbysiad*);

- Rhoi hysbysiad ysgrifenedig i bob person sy'n berchen ar y tir y mae datblygiad arfaethedig yn ymwneud ag ef, neu sy'n ei feddiannu neu sydd â buddiant arall ynddo, neu y gellid effeithio arno mewn ffordd sy'n golygu y gall hawlio cael ei ddigolledu;

- Arddangos o leiaf un hysbysiad safle ar y safle y mae datblygiad arfaethedig yn ymwneud ag ef neu'n agos ato, a hynny am o leiaf 42 diwrnod. Fodd bynnag, os caiff hysbysiad safle ei symud ymaith, ei guddio neu ei ddifwyno yn ystod y cyfnod gofynnol o 42 diwrnod, rydym yn bwriadu i ddarpar geisyddion gael eu trin fel pe baent wedi cydymffurfio â'r gofynion os cymerir camau rhesymol i amddiffyn yr hysbysiad, a gosod un newydd yn ei le os bydd angen (*gweler isod am ragor o fanylion am hysbysiadau safle*);

- Cyhoeddi hysbysiad o ddatblygiad arfaethedig ac unrhyw weithgareddau ymgynghori cyn gwneud cais sydd wedi'u trefnu, a dolen i'r wefan sy'n ymwneud â datblygiad arfaethedig, mewn o leiaf un papur newydd sy'n cael ei gylchredeg yn yr ardal leol y mae datblygiad arfaethedig yn gysylltiedig â hi, am o leiaf wythnos.

*Datblygiad yn ardal forol Cymru:*

- Rhoi hysbysiad ysgrifenedig i ymgyngoreion statudol, cynghorau cymuned ac unrhyw berson eraill yr ystyrir eu bod yn briodol, gan gynnwys unigolion, grwpiau neu gymdeithasau a nodir yn ystod unrhyw drafodaethau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau cyn gwneud cais, yn rhoi gwybod iddynt am unrhyw weithgareddau ymgynghori cyn gwneud cais ac yn rhoi manylion ble y gellir dod o hyd i'r wefan sy'n ymwneud â datblygiad arfaethedig;

- Cyhoeddi hysbysiad o ddatblygiad arfaethedig mewn o leiaf un papur newydd ac sy'n debygol o ddod i sylw'r rhai y mae'r datblygiad arfaethedig yn debygol o effeithio arnynt, yn Lloyd's List ac mewn o leiaf un cyfnodolyn pysgota (os oes un mewn cylchrediad)

<u>Rhagor o wybodaeth am hysbysiadau</u>

7.33 Os rhoddir hysbysiad am ddatblygiad arfaethedig, naill ai yn ysgrifenedig neu drwy ei arddangos ar safle neu'n agos ato (lle bo hynny'n berthnasol), credwn ei bod yn angenrheidiol i unrhyw hysbysiadau o'r fath gynnwys lefel ofynnol o wybodaeth a manylder er mwyn i gymunedau lleol a rhanddeiliaid eraill allu ymwneud yn llawn â'r broses.

7.34 Felly, rydym yn cynnig ei bod yn rhaid i unrhyw hysbysiad ysgrifenedig fel rhan o'r broses ymgynghori cyn gwneud cais ac unrhyw hysbysiad safle gynnwys y canlynol o leiaf:

- Enw a chyfeiriad y darpar geisydd;
- Cyfeiriad e-bost a rhif ffôn cyswllt y ceisydd;
- Lleoliad y datblygiad arfaethedig;
- Crynodeb o'r prif gynigion, gan gynnwys a yw'r datblygiad arfaethedig yn cynnwys cais i awdurdodi caffael tir yn orfodol;
- Manylion unrhyw weithgareddau ymgynghori cyn gwneud cais a gaiff eu cynnal;
- Manylion sut y gellir dod o hyd i wefan darpar geisydd ar gyfer datblygiad arfaethedig;
- Erbyn pa ddyddiad y bydd yn rhaid i unrhyw sylwadau ddod i law ac at bwy y dylid eu cyfeirio.

7.35 Ar gyfer hysbysiadau safle, rydym yn cydnabod y gall rhai datblygiadau a gwmpesir gan y Ddeddf fod ar gyfer cynlluniau llinol (fel llinellau trydan uwchben) sy'n ymestyn am hyd sylweddol ac felly y byddai angen gofynion penodol ar eu cyfer.

7.36 Rydym yn cynnig, os bydd datblygiad arfaethedig yn gynllun llinol sy'n fwy na 5 cilometr o hyd, y bydd yn rhaid arddangos hysbysiadau safle â bwlch o ddim mwy na 5 cilometr rhyngddynt, o ddechrau'r llwybr arfaethedig i'r diwedd, ac eithrio lle y bydd hynny'n anymarferol, er enghraifft os bydd dŵr yn gorchuddio rhan o'r tir. Os na fydd yr hyd yn fwy na 5 cilometr, bydd yn rhaid arddangos hysbysiadau safle ar bob pen i'r datblygiad arfaethedig.

Digwyddiadau cyhoeddus

7.37 Mae tystiolaeth o'r broses ar gyfer datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol wedi dangos, er nad yw'n ofyniad statudol, fod nifer sylweddol o ddatblygwyr yn cynnal o leiaf un digwyddiad cyhoeddus, naill ai wyneb yn wyneb neu'n rhithwir. Mae hyn yn cynnig cyfle cyhoeddus i randdeiliaid a chymunedau lleol gael rhagor o fanylion a gwybodaeth am ddatblygiadau arfaethedig sy'n debygol o effeithio arnynt.

7.38 Rydym yn cynnig y dylid ffurfioli hyn fel rhan o'r broses gydsynio ar gyfer seilwaith. Fodd bynnag, nid ydym yn bwriadu bod yn rhy ragnodol ynglŷn â materion megis sut y dylai digwyddiadau gael eu trefnu na'r hyn y dylid ei gynnwys fel rhan o ddigwyddiad gan y bydd hyn yn dibynnu ar yr achos unigol, yn ein barn ni. Byddai'n fwy priodol i ganllawiau nodi manylion ynglŷn ag arferion gorau.

7.39 Ar gyfer datblygiadau arfaethedig yn ardal forol Cymru, rydym yn cydnabod na fyddai'n bosibl cynnal digwyddiad cyhoeddus yng nghyffiniau'r datblygiad ac, felly, byddem yn caniatáu i'r digwyddiadau hyn gael eu cynnal drwy ddulliau rhithwir yn unig.

Os caiff partïon ychwanegol sydd â buddiant mewn tir eu canfod

7.40 Cydnabyddir y gall buddiannau ychwanegol mewn tir ddod i'r amlwg yn ystod camau cyn gwneud cais am gydsyniad seilwaith a thu hwnt. Er enghraifft, gallai hyn fod pan gaiff buddiannau newydd mewn tir eu gwneud ar ôl i deitl gael ei drosglwyddo o ganlyniad i werthu tir. Ystyrir y bydd yn rhaid i'r partïon ychwanegol hyn sydd â buddiant mewn tir gael eu hysbysu'n llawn am y cydsyniad seilwaith arfaethedig. Hefyd, rhaid i'r buddiannau hyn gael eu cynnwys yn llawn mewn deunydd yn y dyfodol i ategu'r cais, gan gynnwys mewn ymgyngoriadau cyn gwneud cais a dogfennau cyflwyno, ond bydd hyn yn dibynnu pryd yn y broses gwneud cais y caiff y buddiannau ychwanegol hyn mewn tir eu canfod.

7.41 Er mwyn sicrhau yr ymgynghorir yn briodol ag unrhyw bartïon ychwanegol sydd â buddiant mewn tir ynghylch y cais, rydym yn cynnig y bydd is-ddeddfwriaeth yn nodi gofynion ar gyfer cynnal cyfnod o ymgynghori statudol ychwanegol (‘ymgynghoriad buddiant mewn tir terfynol’) â'r partïon hynny os bydd unrhyw gyfnod ymgynghori cyn gwneud cais statudol rhagnodedig wedi dechrau a/neu ddod i ben. Ar ben hynny, cynigir y bydd yn rhaid i ymgynghoriad o'r fath gael ei gynnal o fewn cyfnod o ddim llai na 28 diwrnod ar ôl y dyddiad pan gafodd y parti ychwanegol olaf a gadarnhawyd sydd â buddiant mewn tir ei hysbysu am yr ymgynghoriad.

7.42 Rhaid i ymgynghoriad buddiant mewn tir terfynol gynnwys y dogfennau ymgynghori cyn gwneud cais statudol gwreiddiol a gwybodaeth wedi'i diweddaru am y cynllun. Gellir ei gynnal fesul cam er mwyn gallu dilyn proses o gadarnhau'r partïon a ddaeth i'r amlwg.

Ymgynghori ag ymgyngoreion statudol a phersonau eraill

7.43 Yn ystod y broses ymgynghori cyn gwneud cais, byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i ddarpar geisyddion ymgynghori â rhai rhanddeiliaid penodol. Mae'n bosibl y bydd

gan y rhanddeiliaid hyn lefel o arbenigedd mewn maes penodol, neu mae'n bosibl y byddant yn ymgyngoreion statudol. Rydym yn cynnig mai unrhyw gyngor tref neu gymuned (os oes un wedi'i sefydlu), unrhyw ymgynghorai statudol ac unrhyw bersonau perthnasol eraill y bydd darpar geisydd o'r farn eu bod yn briodol fydd y rhain.

7.44 Pobl sy'n arbenigwyr neu sydd â gwybodaeth dechnegol am bwnc penodol ac sydd mewn sefyllfa i allu rhoi cyngor arbenigol yw ymgyngoreion statudol. Dim ond at ddibenion achosion pan fo angen cydsyniadau tybiedig neu gydsyniadau a ddiddymwyd ynghyd â chydsyniad seilwaith y caiff personau perthnasol eraill eu diffinio, ac maent yn cyfeirio at y bobl hynny a fyddai wedi penderfynu p'un a ddylid rhoi cydsyniad tybiedig neu gydsyniad a ddiddymwyd ai peidio pe na baent wedi'u cynnwys yn y cydsyniad seilwaith.

7.45 Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod cyrff ar gyfer y DU neu Loegr yn unig nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Ddeddf ond y gall fod ganddynt wybodaeth arbenigol sy'n ddefnyddiol ar gyfer y broses gwneud penderfyniadau. Felly, rydym yn cynnig cynnal trafodaethau gyda'r cyrff hynny na ellir eu dynodi'n ymgyngoreion statudol at ddibenion y broses gydsynio ar gyfer seilwaith, er mwyn cytuno ar ffordd o weithredu yn y dyfodol mewn perthynas â'u cynnwys yn y broses.

7.46 Er mwyn sicrhau y rhoddir ymateb ystyrlon, rydym yn cynnig, pan ymgynghorir â nhw, y bydd yn ofynnol i ymgyngoreion statudol roi ymateb o sylwedd o fewn cyfnod o 42 diwrnod.

7.47 Rydym yn cynnig y bydd ymateb o sylwedd yn gwneud un o'r canlynol:

- Datgan nad oes gan yr ymgynghorai statudol sylw i'w wneud;
- Datgan nad oes gan yr ymgynghorai statudol unrhyw wrthwynebiadau;
- Datgan bod gan yr ymgynghorai statudol bryderon ynglŷn â'r datblygiad arfaethedig a sut y gellir mynd i'r afael â nhw; neu
- Datgan bod gan yr ymgynghorai statudol bryderon ynglŷn â'r datblygiad arfaethedig ac y byddai'n debygol o wrthwynebu pe bai cais fel yr un yr ymgynghorir arno yn cael ei gyflwyno.

Pan fo'r cais yn cynnig cydsyniadau tybiedig/a ddiddymwyd, disgwylir i'r ymgynghorai statudol fynd i'r afael â'r rhain yn yr ymateb uchod.

7.48 Nid ydym yn cynnig y bydd gofyniad i ymgyngoreion cymunedol nac unrhyw bersonau eraill roi ymateb o sylwedd. Fodd bynnag, pe baent yn dymuno ymateb i hysbysiad cyn gwneud cais, byddai'n ofynnol iddynt ymateb o fewn cyfnod o 42 diwrnod. Os na fyddant yn ymateb, ystyrir nad oes gan yr ymgynghorai sylw i'w wneud ac nad oes ganddo wrthwynebiad.

7.49 Os na fydd ymgynghorai statudol yn rhoi ymateb o sylwedd o fewn y cyfnod penodedig, nid ydym yn bwriadu cyflwyno unrhyw fath o gamau gorfodi (er enghraifft ad-daliad) ar hyn o bryd. Fodd bynnag, byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i bob ymgynghorai statudol gyflwyno adroddiad blynyddol ar berfformiad i Weinidogion Cymru.

7.50 Fel gofyniad sylfaenol, bydd adroddiad a gyflwynir i Weinidogion Cymru ar ffurflen a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru a bydd yn rhaid iddo gynnwys:

- Nifer yr achlysuron pan ymgynghorwyd â'r ymgynghorai statudol yn ystod y flwyddyn;
- Nifer yr achlysuron pan gyflwynwyd ymateb o sylwedd;
- Nifer yr achlysuron pan roddwyd ymateb (naill ai o sylwedd neu fel arall) y tu allan i'r cyfnod ymateb penodedig, gan gynnwys rhesymau pam na lynwyd wrth y cyfnod penodedig.

<u>Terfynau amser ychwanegol ar gyfer ymgynghori cyn gwneud cais</u>

7.51 Er ein bod yn cynnig y bydd gan ddarpar geisyddion gyfnod o 12 mis i gynnal eu hymgynghoriad cyn gwneud cais ac i gyflwyno eu cais am gydsyniad seilwaith i Weinidogion Cymru, mae amgylchiadau penodol lle y byddai estyniad i'r terfyn amser hwn yn arwain at gyflwyno ceisiadau o safon uchel ac yn helpu i gyflymu'r broses archwilio.

7.52 Yn gyntaf, rydym yn ystyried cyflwyno ‘gwiriad dilysu cyn gwneud cais’. Er y bydd y broses o ddilysu cais yn asesu a yw'r holl gynlluniau, dogfennau a gwybodaeth angenrheidiol wedi cael eu cyflwyno ar y cyd â'r cais, byddai'r cam ychwanegol hwn yn asesu eu manylder a'u hansawdd er mwyn lleihau'r gofyniad i wybodaeth ychwanegol gael ei gyflwyno yn ystod y cam archwilio.

7.53 Yn ail, rydym yn ystyried dull dau gam o ymgynghori cyn gwneud cais. Mae trafodaethau â'r ymgyngoreion statudol presennol wedi codi pryderon nad ydynt, pan fyddant yn gwneud sylwadau neu'n codi materion ar gais arfaethedig ar y cam cyn gwneud cais fel rhan o'r cyfundrefnau cydsynio presennol, yn cael cyfle i weld a yw'r rhain wedi cael eu cydnabod neu a ymdriniwyd â nhw nes bod cais ffurfiol yn cael ei gyflwyno.

7.54 Er mwyn helpu i liniaru hyn, credwn y dylai ceisyddion gael cyfle i ymdrin ag unrhyw bryderon neu faterion a godir gan ymgyngoreion statudol yn ystod y cam cyn gwneud cais, heb effeithio ar yr amserlen gyffredinol ar gyfer cyflwyno eu cais ffurfiol. Byddai hyn hefyd yn cynnig cyfle i ymgyngoreion statudol barhau â'u deialog gyda cheisyddion cyn iddynt gyflwyno cais.

7.55 Fodd bynnag, ni fyddai'r naill gynnig na'r llall yn ofynion gorfodol a byddent yn ôl disgresiwn ceisyddion.

<u>Adroddiadau ymgynghori cyn gwneud cais</u>

7.56 Er mwyn dogfennu'r holl weithgareddau cyn gwneud cais, rydym yn cynnig gosod gofyniad ar bob darpar geisydd i gynnwys adroddiad ymgynghori cyn gwneud cais i Weinidogion Cymru pan gaiff cais ffurfiol am gydsyniad seilwaith ei gyflwyno.

7.57 Nid yn unig y bydd yr adroddiadau hyn yn dangos sut mae darpar geisyddion wedi cydymffurfio â'r gofynion ar gyfer ymgynghori cyn gwneud cais ar gyfer prosiectau seilwaith arwyddocaol, ond byddant hefyd yn dogfennu sut mae unrhyw sylwadau

a gafwyd yn ystod y broses ymgynghori cyn gwneud cais eu hystyried wrth ffurfio cynnig terfynol ar gyfer datblygiad.

7.58 Bydd hefyd angen i adroddiadau ymgynghori ddangos lle yr aethpwyd i'r afael â sylwadau a lle na wnaed hynny, gan roi cyfle i ddarpar geisyddion gyfiawnhau unrhyw achosion lle nad yw wedi gweithredu.

7.59 Fel gofyniad sylfaenol, rydym yn cynnig y bydd yn rhaid i adroddiad ymgynghori cyn gwneud cais gynnwys y canlynol:

- Manylion sut mae'r darpar geisydd wedi cydymffurfio â'r gofynion ymgynghori cyn gwneud cais, gan gynnwys unrhyw ofynion cyhoeddusrwydd a hysbysu;
- Copïau o bob sylw a wnaed ar y cam ymgynghori cyn gwneud cais;
- Manylion sut y cafodd y sylwadau hynny eu hystyried;
- Copi o'r hysbysiad safle a datganiad yn cadarnhau iddo gael ei arddangos ar y safle ar y safle y mae datblygiad arfaethedig yn ymwneud ag ef neu'n agos ato, a hynny am o leiaf 42 diwrnod;
- Rhestr o'r personau hynny a gafodd hysbysiad ysgrifenedig o ddatblygiad arfaethedig a chopi o'r hysbysiad ysgrifenedig a roddwyd i'r personau hynny.

<u>Cwestiynau</u>

- A ydych yn cytuno bod y gofynion sylfaenol arfaethedig yn gymesur, o ystyried y gwahanol fathau o gais y gellir ei gyflwyno? Os nad ydych yn cytuno, pam?

- A ydych yn cytuno â chynnwys arfaethedig ymateb o sylwedd? Os nad ydych yn cytuno, pam?

- A ydych yn cytuno â chyflwyno proses ‘dilysu cyn gwneud cais’ a phroses ymgynghori cyn gwneud cais dau gam? Os nad ydych yn cytuno, pam?

## Pennod 8: Ceisiadau am Gydsyniad Seilwaith

8.1 Mae'r bennod hon yn canolbwyntio ar y gofynion ar gyfer cyflwyno cais am gydsyniad seilwaith, sut y caiff ceisiadau eu derbyn fel rhai dilys a pha ofynion cyhoeddusrwydd a hysbysu a fydd yn angenrheidiol er mwyn sicrhau y bydd cymunedau lleol, rhanddeiliaid ac unrhyw bartïon eraill sydd â diddordeb yn cael cyfle i weld cynnig terfynol ar gyfer datblygiad a gwneud sylwadau arno.

### Gwneud cais am gydsyniad seilwaith a phenderfynu ar ddilysrwydd cais

8.2 Yn dilyn ymgynghoriad cyn gwneud cais sydd wedi bodloni'r holl ofynion gorfodol, gellir cyflwyno cais ffurfiol am gydsyniad seilwaith i Weinidogion Cymru.

8.3 Bydd pob cais yn destun proses ddilysu cyn iddo allu cael ei dderbyn i gael ei archwilio. Bydd unrhyw gais a gaiff ei dderbyn fel un dilys yn ddarostyngedig i ofynion cyhoeddusrwydd a hysbysu, gan sicrhau y bydd cymunedau lleol a rhanddeiliaid eraill yn cael cyfle ychwanegol i asesu datblygiad arfaethedig a gwneud sylwadau.

8.4 Mae'n hanfodol i'r broses gydsynio ar gyfer seilwaith, y bwriedir iddi gynnig sicrwydd o ran amserlenni a chanlyniadau, bod gofynion sylfaenol yn cael eu nodi cyn i gais allu symud ymlaen. Bydd hyn yn sicrhau bod yr holl wybodaeth angenrheidiol sy'n ymwneud â'r cais gerbron Gweinidogion Cymru. Bydd hyn hefyd yn rhoi rhywfaint o sicrwydd i gymunedau lleol a chyfranogwyr eraill yn y broses ynglŷn â'r hyn sy'n cael ei ystyried. Dylai'r dull hwn hefyd leihau achosion o oedi wrth ofyn am ragor o wybodaeth.

8.5 Yn unol â hynny, bydd pob cais a gyflwynir i Weinidogion Cymru yn destun proses ddilysu cyn iddo allu cael ei dderbyn i gael ei archwilio.

Pwerau

8.6 Mae'r adrannau perthnasol o'r Ddeddf fel a ganlyn:

- *Adran 32 – Gwneud cais am gydsyniad seilwaith;*
- *Adran 33 – Penderfynu ar ddilysrwydd cais a hysbysu'r ceisydd.*

Cyflwyno cais

8.7 Bydd yn ofynnol i bob cais am gydsyniad seilwaith gael ei gyflwyno'n electronig ar ffurflen gais a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru. Bydd yn ofynnol i geisiadau gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru o fewn cyfnod o 12 mis, yn dechrau ar y diwrnod pan gaiff hysbysiad cyn gwneud cais ei dderbyn gan Weinidogion Cymru.

8.8 Rydym yn rhagweld y bydd ffurflen gais yn cynnwys gwybodaeth fel yr eitemau canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt):

- Enw, cyfeiriad a manylion cyswllt y ceisydd;
- Enw, cyfeiriad a manylion cyswllt asiant (os bydd un wedi'i benodi);

- A oes angen unrhyw gydsyniadau tybiedig neu gydsyniadau a ddiddymwyd ac os felly, pa rai;
- Enwau'r ACLl(au) neu'r ACLl(au) lleol agosaf y bydd y datblygiad arfaethedig yn effeithio arno/arnynt;
- Disgrifiad annhechnegol o'r datblygiad arfaethedig;
- Disgrifiad o safle neu lwybr y datblygiad arfaethedig a'i gyfesurynnau (Dwyreiniad a Gogleddiad);
- Gwybodaeth am ymweliadau safle;
- Disgrifiad o unrhyw gynlluniau, lluniadau a/neu ddogfennau ychwanegol a gyflwynwyd gyda chais, a'u cyfeirnodau;
- A oes trafodaethau wedi cael eu cynnal gyda'r ACLl(au) lleol ynglŷn â rhwymedigaethau cynllunio a chanlyniad y trafodaethau hyn;
- A oes trafodaethau cyn gwneud cais wedi cael eu cynnal gyda Gweinidogion Cymru a/neu ACLl(au) perthnasol a chanlyniad y trafodaethau hyn;
- Cadarnhad bod ffi berthnasol wedi'i thalu;
- Manylion perchnogaeth y safle;
- Manylion daliadau amaethyddol;
- Rhestr wirio;
- Datganiadau.

8.9 Mae adran 32(3) o'r Ddeddf eisoes yn nodi y bydd yn rhaid i gais am gydsyniad seilwaith bennu’r datblygiad y mae’n ymwneud ag ef a chynnwys gorchymyn cydsyniad seilwaith drafft ac adroddiad ymgynghori cyn gwneud cais.

8.10 Rydym yn cynnig cyflwyno is-ddeddfwriaeth a fydd hefyd yn nodi y bydd yn rhaid cyflwyno'r wybodaeth, dogfennau a chynlluniau canlynol gyda chais:

- Cynllun yn dangos y tir y mae'r cais yn ymwneud ag ef, wedi'i luniadu wrth raddfa wedi'i nodi gan y ceisydd a chan ddangos cyfeiriad y Gogledd;
- Unrhyw gynlluniau, lluniadau a gwybodaeth arall sy'n angenrheidiol i ddisgrifio'r datblygiad arfaethedig;
- Copi o'r hysbysiad yn cadarnhau bod hysbysiad cyn gwneud cais nad yw wedi dod i ben wedi cael ei dderbyn;
- Adroddiad sy'n dogfennu'r cynnydd a wnaed o ran trafodaethau â'r ACLl(au) yn yr ardal y mae'r datblygiad arfaethedig wedi'i leoli ynddi (neu'r ACLl(au) agosaf a CNC yn achos cynigion yn ardal forol Cymru) ac unrhyw ymgyngoreion perthnasol eraill mewn perthynas â chyfraniadau datblygwyr ac amodau drafft sy'n gysylltiedig â chydsyniad seilwaith;
- Datganiad amgylcheddol (lle y bo'n berthnasol);
- Y ffi berthnasol (gweler pennod 10);
- Amlinelliad o'r llwybr cydsynio a gynigir gan y datblygwr;
- Os cynigir cydsyniad tybiedig/a ddiddymwyd fel rhan o'r cydsyniad seilwaith, gwybodaeth a fyddai fel arfer yn cael ei chyflwyno gyda'r cais perthnasol;
- Datganiad ynghylch a fydd y cynnig yn ymwneud ag un neu fwy o'r materion a nodir yn Adran 79(1) (niwsansau statudol ac archwiliadau ohonynt) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ac, os felly, sut mae'r ceisydd yn bwriadu eu lliniaru neu gyfyngu arnynt;
- Unrhyw adroddiad sy'n nodi unrhyw safle Ewropeaidd y mae rheoliad 63 o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 yn gymwys iddo,

neu unrhyw safle Ramsar, y gall y datblygiad arfaethedig effeithio arno, ynghyd â gwybodaeth ddigonol a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud asesiad priodol o'r goblygiadau i'r safle os bydd hynny'n ofynnol;
- Cynllun gwaith sy'n dangos y canlynol mewn perthynas â nodweddion presennol—
    - lleoliad arfaethedig neu (ar gyfer cynllun llinol) lwybr ac aliniad arfaethedig y datblygiad a'r gwaith;
    - terfynau'r ardal lle y gall y datblygiad a'r gwaith ddigwydd ac unrhyw derfynau gwyriad y darperir ar eu cyfer yn y gorchymyn drafft;
- Lle y bo'n berthnasol, cynllun yn dangos unrhyw fynedfeydd newydd neu a newidiwyd, cau strydoedd neu ffyrdd neu unrhyw wyriadau, diddymu neu greu hawliau tramwy neu hawliau mordwyo cyhoeddus;
- Lle y bo'n berthnasol, cynllun ynghyd â gwybodaeth sy'n dangos—
    - unrhyw safleoedd neu nodweddion gwarchod natur statudol neu anstatudol megis safleoedd sy'n bwysig o ran daeareg neu dirwedd;
    - cynefinoedd rhywogaethau a warchodir, cynefinoedd pwysig neu nodweddion amrywiaeth eraill;
    - ardaloedd dyfrol mewn cynllun rheoli basn afon;
    - ynghyd ag asesiad o unrhyw effeithiau ar safleoedd, nodweddion, cynefinoedd neu ardaloedd dyfrol y mae'r datblygiad arfaethedig yn debygol o'u hachosi;
- Lle y bo'n berthnasol, cynllun ynghyd â gwybodaeth gysylltiedig yn dangos unrhyw safleoedd neu nodweddion statudol neu anstatudol yn yr amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys henebion cofrestredig, safleoedd Treftadaeth y Byd, adeiladau rhestredig ac adeileddau hanesyddol, safleoedd archaeolegol a meysydd brwydrau cofrestredig eraill, ynghyd ag asesiad o unrhyw effeithiau ar safleoedd, nodweddion neu adeileddau o'r fath y mae'r datblygiad arfaethedig yn debygol o'u hachosi;
- Lle y bo'n berthnasol, cynllun ynghyd ag unrhyw wybodaeth gysylltiedig yn dangos unrhyw dir y Goron;
- Unrhyw gynlluniau, lluniadau a thrychiadau eraill sy'n angenrheidiol i ddisgrifio'r cynigion y gwneir cais am gydsyniad ar eu cyfer, gan ddangos manylion dyluniad a golwg allanol adeiladau neu adeileddau, systemau draenio, systemau rheoli dŵr wyneb, mynedfeydd i gerbydau a cherddwyr, unrhyw leoedd parcio i'w darparu, a dulliau tirlunio, a'r cynllun a ffefrir ar eu cyfer.

8.11 Bydd angen cyflwyno gwybodaeth benodol gyda cheisiadau penodol hefyd. Os bydd cais yn ymwneud ag adeiladu neu estyn gorsaf gynhyrchu, bydd yn rhaid cyflwyno'r canlynol gyda'r cais—

- os bydd y cais yn ymwneud â gorsaf gynhyrchu nad yw'n orsaf gynhyrchu alltraeth—
    - datganiad o bwy fydd yn gyfrifol am ddylunio ac adeiladu'r cysylltiad â'r grid trydan;
    - os bydd y cais yn ymwneud â gorsaf gynhyrchu a fydd yn llosgi nwy, datganiad o bwy fydd yn gyfrifol am ddylunio ac adeiladu'r cysylltiad piblinell nwy â'r orsaf gynhyrchu;
- os bydd y cais yn ymwneud â gorsaf gynhyrchu alltraeth—
    - manylion y llwybr a'r dull gosod arfaethedig ar gyfer unrhyw gebl;

    - datganiad ynghylch a gaiff ceisiadau eu gwneud am barthau diogelwch.

8.12 Os bydd y cais yn ymwneud â datblygiad sy'n gysylltiedig â phriffyrdd neu adeiladu neu newid rheilffordd, rhaid cyflwyno'r canlynol gydag ef—

- lluniadau trychiadol wrth raddfeydd llorweddol a fertigol addas sy'n dangos y canlynol, gan gyfeirio at ddatwm Siart neu Arolwg Ordnans;
- lefelau'r gwaith arfaethedig, gan gynnwys y canlynol yn arbennig a lle y bônt yn berthnasol—
    - lefelau tir;
    - uchder pob pont, traphont, traphont ddŵr, arglawdd a rhigol uchel arfaethedig;
    - dyfnder pob cloddiad a thwnnel arfaethedig;
    - lefelau gwely unrhyw ddyfroedd llanw neu ddyfrffyrdd mewnol lle y cynigir y dylai unrhyw waith gael ei leoli;
    - uchder yr holl adeileddau neu ddyfeisiau (gan gynnwys cebl, ond nid catenâu na chyfarpar cysylltiedig) y bwriedir eu codi uwchben dyfroedd llanw neu ddyfrffyrdd mewnol, neu ar neu islaw wyneb neu welyau dyfroedd neu ddyfrffyrdd o'r fath;
    - manylion goferau draenio ar gyfer priffyrdd;
- trawstoriad o bob twnnel bwriadedig ac unrhyw newid i raddiant ffordd gerbydau neu ffordd sy'n rhan o system trafnidiaeth gyfeiriedig ar y naill ochr i bob croesfan, pont, twnnel neu danffordd a fyddai'n cludo'r ffordd gerbydau neu'r ffordd neu y byddai'r ffordd gerbydau neu'r ffordd yn mynd drwyddi;
- Os bydd y cais yn ymwneud ag adeiladu neu newid cyfleusterau harbwr, rhaid cyflwyno datganiad gydag ef yn nodi pam y dymunir gwneud y gorchymyn er mwyn y canlynol—
    - sicrhau y caiff yr harbwr ei wella, ei gynnal a'i gadw neu ei reoli mewn modd effeithlon a darbodus; neu
    - hwyluso'r broses o gludo nwyddau neu deithwyr mewn modd effeithlon a darbodus ar y môr neu er budd defnyddio llongau môr at ddibenion hamdden.

<u>Cydnabod bod cais wedi dod i law</u>

8.13 Pan fydd cais wedi cael ei gyflwyno, bydd Gweinidogion Cymru yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r personau canlynol, yn cadarnhau bod y cais wedi dod i law ac yn nodi y bydd yn symud yn ei flaen drwy'r broses ddilysu:

- Y ceisydd;
- Yr asiant (os yw hynny'n berthnasol);
- Yr ACLl(au) yn yr ardal y mae datblygiad arfaethedig wedi'i leoli ynddi;
- Os mai dim ond yn ardal forol Cymru y mae'r datblygiad arfaethedig; CNC;
- Unrhyw bersonau eraill y bydd Gweinidogion Cymru o'r farn eu bod yn berthnasol.

8.14 Ni fydd yr hysbysiad hwn yn dilysu'r cais. Bydd cydnabod bod cais wedi cael ei gyflwyno yn cynnig eglurder a sicrwydd i'r partïon ac yn dechrau'r cyfnod ar gyfer y broses ddilysu.

Dilysu cais am gydsyniad seilwaith

8.15 Bydd y broses ddilysu yn helpu i sicrhau bod ceisyddion yn cyflwyno'r holl wybodaeth angenrheidiol y bydd angen i Weinidogion Cymru ei chael er mwyn eu helpu i wneud penderfyniad rhesymedig mewn modd amserol.

8.16 Dim ond os bydd yr holl ddogfennau, gwybodaeth, cynlluniau, ffioedd perthnasol ac unrhyw fanylion eraill a nodir ym mharagraffau 8.10 – 8.12 uchod wedi cael eu cyflwyno'n llawn y caiff ceisiadau eu derbyn fel rhai dilys.

8.17 Os bydd unrhyw ddogfennau, gwybodaeth, cynlluniau, ffioedd perthnasol neu unrhyw fanylion eraill ar goll neu'n anghyflawn, ni fydd Gweinidogion Cymru yn derbyn y cais.

Amserlenni ar gyfer dilysu

8.18 Er mwyn sicrhau elfen o sicrwydd i geisyddion a chysondeb ym mhob rhan o'r broses gydsynio, rydym yn cynnig cyflwyno amserlenni ar gyfer dilysu ceisiadau mewn is-ddeddfwriaeth, sef o fewn 42 diwrnod i'r dyddiad y daw cais i law, neu o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad y daw cais i law mewn achosion lle na chaiff Datganiad Amgylcheddol ei gyflwyno gydag ef, os nad oes angen un.

8.19 Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gall fod rhai achosion lle na all Gweinidogion Cymru gydymffurfio â'r amserlenni rhagnodedig hyn. Felly, rydym yn cynnig y bydd gan Weinidogion Cymru y gallu i ymestyn yr amserlenni hyn fesul achos unigol.

8.20 Os bydd angen gwneud hyn, bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru roi hysbysiad ysgrifenedig i'r canlynol:

- Y ceisydd;
- Yr asiant (os yw hynny'n berthnasol);
- Yr ACLl(au) yn yr ardal y mae datblygiad arfaethedig wedi'i leoli ynddi;
- Os mai dim ond yn ardal forol Cymru y mae'r datblygiad arfaethedig, CNC;
- Unrhyw bersonau eraill y bydd Gweinidogion Cymru o'r farn eu bod yn berthnasol.

Hysbysu bod cais yn ddilys

8.21 Os caiff cais ei dderbyn fel un dilys, mae Adran 33(3) o'r Ddeddf yn nodi y bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r ceisydd am hyn.

8.22 Lle y rhoddir hysbysiad bod cais yn ddilys:

- Bydd yn rhaid iddo gael ei roi yn ysgrifenedig;
- Bydd yn rhaid iddo gadarnhau bod y cais wedi cael ei dderbyn;
- Gall gynnwys unrhyw wybodaeth arall am y cais y mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn briodol.

8.23 Mae manylion am hysbysu partïon eraill bod cais yn ddilys wedi'u cynnwys ym mhennod 'cyhoeddusrwydd a hysbysu' y papur ymgynghori.

8.24 Os na ellir derbyn cais fel un dilys, mae Adran 33(4) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi hysbysiad o hyn i'r ceisydd, y bydd yn rhaid iddo:

- Gael ei roi yn ysgrifenedig;
- Cadarnhau nad yw'r cais wedi cael ei dderbyn;
- Nodi'r rhesymau dros y penderfyniad.

**Hysbysiad am geisiadau a dderbynnir a chyhoeddusrwydd**

8.25 Ar ôl i gais am gydsyniad seilwaith gael ei dderbyn yn ffurfiol, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru (neu unrhyw berson arall y bydd Gweinidogion Cymru yn rhoi swyddogaeth iddo) hysbysu amrywiol bartïon am hyn, yn ogystal â rhoi cyhoeddusrwydd i'r cais ymhlith y cyhoedd yn ehangach.

8.26 Bydd rhoi cyhoeddusrwydd i gais ar ôl iddo gael ei dderbyn fel un dilys yn rhoi cyfle pellach i gymunedau lleol, rhanddeiliaid ac unrhyw bartïon eraill sydd â diddordeb wneud sylwadau i Weinidogion Cymru yn dilyn y cam ymgynghori cyn gwneud cais. Bydd hyn yn eu galluogi i wneud sylwadau ynghylch a ydynt o blaid datblygiad arfaethedig yn gyffredinol ai peidio, a rhoi tystiolaeth i Weinidogion Cymru lle bo angen.

<u>Pwerau</u>

8.27 Mae'r adrannau perthnasol o'r Ddeddf fel a ganlyn:

- *Adran 34 – Hysbysiad am geisiadau a dderbynnir a chyhoeddusrwydd;*
- *Adran 35 – Rheoliadau ynghylch hysbysiadau a chyhoeddusrwydd;*
- *Adran 36 – Adroddiadau ar yr effaith leol;*
- *Adran 37 – Adroddiadau ar yr effaith forol.*

<u>Hysbysiad ysgrifenedig o gais</u>

8.28 Ar ôl i gais dilys gael ei dderbyn, bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi hysbysiad ysgrifenedig o hyn i'r ceisydd a'r partïon hynny a nodir yn adran 34(2)(a) a (b) o'r Ddeddf.

8.29 Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd unigolion eraill y byddai'n fuddiol iddynt gael hysbysiad ysgrifenedig o gais. Rydym yn cynnig cyflwyno is-ddeddfwriaeth yn nodi y bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru roi hysbysiad ysgrifenedig o gais i'r personau canlynol hefyd:

- Unrhyw un sy'n berchen ar y tir y mae cais yn ymwneud ag ef neu sy'n ei feddiannu, heb gynnwys y ceisydd;
- Unrhyw bersonau eraill sy'n berchen ar y tir y mae datblygiad arfaethedig yn ymwneud ag ef, neu sy'n ei feddiannu neu sydd â buddiant arall ynddo, neu y

gellid effeithio arnynt mewn ffordd sy'n golygu y gallant hawlio cael eu digolledu;

- Unrhyw un sy'n berchen ar dir sy'n cydffinio â'r tir y mae cais yn ymwneud ag ef, neu sy'n meddiannu tir o'r fath;
- Pob ymgynghorai statudol sy'n berthnasol i ddatblygiad arfaethedig;
- Unrhyw berson sydd wedi gwneud cais am gael ei hysbysu am ddatblygiad arfaethedig penodol;
- Unrhyw bersonau eraill y bydd Gweinidogion Cymru o'r farn eu bod yn briodol.

8.30 Bydd yn ofynnol i hysbysiadau o'r fath gael eu rhoi cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i gais gael ei ddilysu a'i dderbyn, a hynny ar ffurflen a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru.

8.31 Rydym yn cynnig y bydd yn rhaid i'r hysbysiadau hyn gynnwys yr wybodaeth ganlynol o leiaf:

- Enw a chyfeiriad ceisydd;
- Datganiad yn nodi bod cais wedi cael ei wneud i Weinidogion Cymru a'i dderbyn ganddynt;
- Rhif cyfeirnod a roddwyd i'r cais gan Weinidogion Cymru;
- Crynodeb o'r prif gynigion, gan gynnwys p'un a yw'r cais yn cynnwys cais i awdurdodi caffael tir yn orfodol ai peidio;
- Datganiad yn nodi a yw'r cais ar gyfer datblygiad sy'n destun Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol;
- Nodi ble y gellir gweld copi o'r cais ac unrhyw ddogfennau cysylltiedig;
- Manylion gwefan sy'n cynnwys gwybodaeth am y datblygiad arfaethedig (gweler paragraffau 8.33 – 8.34);
- Manylion sut y gellir gwneud sylwadau.

8.32 Mae adran 34(4) o'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i hysbysiadau o'r fath nodi erbyn pryd y bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru gael sylwadau ynglŷn â chais, a chaiff y terfyn amser hwnnw ei bennu mewn is-ddeddfwriaeth. Rydym yn cynnig y dylai'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno sylwadau fod ymhen o leiaf 42 diwrnod, yn dechrau ar y diwrnod ar ôl i hysbysiad ysgrifenedig gael ei roi.

<u>Gofyniad i gyhoeddi ceisiadau ar wefan</u>

8.33 Er mwyn sicrhau y gall cynifer â phosibl o bobl weld manylion datblygiad arfaethedig drwy gynifer â phosibl o ddulliau, credwn y byddai'n fuddiol i Weinidogion Cymru gyhoeddi manylion o'r fath ar wefan.

8.34 Felly, rydym yn cynnig y bydd yn rhaid i'r wybodaeth ganlynol gael ei chyhoeddi ar wefan sy'n eiddo i Weinidogion Cymru ac sy'n cael ei chynnal ganddynt:

- Cyfeiriad a lleoliad y datblygiad arfaethedig;
- Disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig;
- Ble a phryd y gellid archwilio'r cais;
- Sut y gellir gwneud sylwadau ynglŷn â'r cais ac erbyn pa ddyddiad y bydd yn rhaid i sylwadau o'r fath ddod i law;

- Yn achos cais y caiff datganiad amgylcheddol ei gyflwyno gydag ef:
    - Y ffaith bod y datblygiad yn destun gweithdrefn Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol;
    - Sut y gellir cael copïau o'r datganiad amgylcheddol ac unrhyw ffi gysylltiedig;
    - Y prif adroddiadau a chyngor a roddwyd i Weinidogion Cymru;
    - Manylion y trefniadau i'r cyhoedd gymryd rhan yn y weithdrefn gwneud penderfyniadau, gan gynnwys disgrifiad o'r weithdrefn ar gyfer cyhoeddi unrhyw wybodaeth ychwanegol a gyflwynir gan geisydd yn dilyn hynny;
    - Unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i benderfyniad a fydd ond ar gael ar ôl i'r holl wybodaeth arall gael ei chyhoeddi gyntaf.

<u>Gofynion cyhoeddusrwydd a hysbysu ychwanegol</u>

8.35 Yn ogystal â rhoi hysbysiad ysgrifenedig yn rhoi gwybod i randdeiliaid perthnasol fod Gweinidogion Cymru wedi derbyn cais, rydym hefyd yn cynnig y dylid bodloni gofynion cyhoeddusrwydd a hysbysu pellach sy'n rhoi cyhoeddusrwydd i gais ymhlith y gymuned ehangach a hefyd yn gwahodd sylwadau ar gynnig ar gyfer datblygiad. Yn y lle cyntaf, Gweinidogion Cymru fydd yn gwneud hyn, ond gallant gyfarwyddo y dylai'r ceisydd, ACLlau, CNC, neu unrhyw berson arall yr ystyrir ei fod yn briodol, gyflawni'r swyddogaethau hyn (naill ai yn eu cyfanrwydd neu'n rhannol) yn eu lle.

8.36 Bydd angen i'r gofynion hyn gael eu teilwra, yn dibynnu ar b'un a fydd datblygiad arfaethedig ar dir neu yn ardal forol Cymru, a byddant yn dilyn gofynion tebyg i'r cam cyn gwneud cais.

8.37 Felly, rydym yn cynnig pennu'r gofynion ychwanegol canlynol ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysu:

*Datblygiad ar dir*

- Cyhoeddi hysbysiad o gais mewn o leiaf un papur newydd sy'n cael ei gylchredeg yn yr ardal leol y mae datblygiad arfaethedig yn gysylltiedig â hi, am o leiaf wythnos;
- Arddangos o leiaf un hysbysiad safle ar y safle y mae datblygiad arfaethedig yn ymwneud ag ef neu'n agos ato, a hynny am o leiaf 42 diwrnod. Fodd bynnag, os caiff hysbysiad safle ei symud ymaith, ei guddio neu ei ddifwyno yn ystod y cyfnod gofynnol o 42 diwrnod, rydym yn bwriadu i ddarpar geisyddion gael eu trin fel pe baent wedi cydymffurfio â'r gofynion os cymerir camau rhesymol i amddiffyn yr hysbysiad, a gosod un newydd yn ei le os bydd angen.

Ar gyfer cynlluniau llinol sy'n fwy na 5 cilometr o hyd, y bydd yn rhaid arddangos hysbysiadau safle â bwlch o ddim mwy na 5 cilometr rhyngddynt, o ddechrau'r llwybr arfaethedig i'r diwedd, ac eithrio lle y bydd hynny'n anymarferol, er enghraifft os bydd dŵr yn gorchuddio rhan o'r tir. Os na fydd yr hyd yn fwy na 5 cilometr, bydd yn rhaid arddangos hysbysiadau safle ar bob pen i'r datblygiad arfaethedig.

*Datblygiad yn ardal forol Cymru*

- Cyhoeddi hysbysiad o gais mewn o leiaf un papur newydd sy'n debygol o ddod i sylw'r rhai y mae datblygiad arfaethedig yn debygol o effeithio arnynt;
- Cyhoeddi hysbysiad o gais yn Lloyd's List;
- Cyhoeddi hysbysiad o gais mewn o leiaf un cyfnodolyn pysgota priodol, os oes un mewn cylchrediad.

Ymgynghori ag ymgyngoreion statudol a phersonau eraill

8.38 Er y bydd ymgyngoreion statudol a phersonau perthnasol eraill wedi cael cyfle i wneud sylwadau ar ddatblygiad arfaethedig yn ystod y cam ymgynghori cyn gwneud cais, mae'n bosibl y bydd y datblygiad wedi bod yn destun amrywiol newidiadau a diwygiadau mewn ymateb i'r sylwadau hynny cyn cael ei gyflwyno'n ffurfiol.

8.39 Oherwydd y rôl allweddol a fydd gan ymgyngoreion statudol a phersonau perthnasol eraill yn y broses gydsynio ar gyfer seilwaith, rydym wedi pennu uchod ym mharagraff 8.29 y bydd pob ymgynghorai statudol sy'n berthnasol i ddatblygiad arfaethedig yn cael hysbysiad ysgrifenedig o gais pan fydd Gweinidogion Cymru wedi'i dderbyn fel un dilys.

8.40 Yn debyg i'r gofynion yn ystod y cam cyn gwneud cais, rydym yn cynnig y bydd yn rhaid i ymgyngoreion statudol roi ymateb o sylwedd o fewn cyfnod o 42 diwrnod pan gânt hysbysiad ysgrifenedig o gais. Bydd hyn yn helpu i sicrhau y rhoddir ymateb ystyrlon. Caiff manylion pellach am y gofynion o ran yr hyn y bydd yn rhaid i ymateb o sylwedd ei gynnwys a'r ymgyngoreion statudol eu pennu yn y penodau ar ‘hysbysu ac ymgynghori cyn gwneud cais’ ac ‘Ymgyngoreion statudol’.

8.41 Fodd bynnag, er mwyn helpu i gryfhau'r broses cyn gwneud cais ac annog ymgyngoreion statudol i godi unrhyw faterion neu bryderon mor gynnar â phosibl, rydym yn ystyried pennu mewn is-ddeddfwriaeth na chaiff ymateb o sylwedd a gyflwynir gan ymgyngoreion statudol ar y cam hwn o'r broses gydsynio godi unrhyw fater y gellid bod wedi ymdrin ag ef yn ystod y broses ymgynghori cyn gwneud cais.

8.42 Nid ydym yn cynnig y bydd gofyniad i ymgyngoreion cymunedol roi ymateb o sylwedd. Fodd bynnag, pe baent yn dymuno ymateb i hysbysiad cyn gwneud cais, byddai'n ofynnol iddynt ymateb o fewn cyfnod o 42 diwrnod. Os na fyddant yn ymateb, ystyrir nad oes gan yr ymgynghorai sylw i'w wneud ac nad oes ganddo wrthwynebiad.

Adroddiadau ar yr Effaith Leol ac Adroddiadau ar yr Effaith Forol

8.43 Fel rhan o'r gofynion cyhoeddusrwydd a hysbysu a bennir gan y Ddeddf, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru hysbysu ACLlau a chynghorau cymuned perthnasol a CNC, yn dibynnu ar b'un a fydd datblygiad arfaethedig ar dir neu yn ardal forol Cymru.

8.44 Wrth ymateb i hysbysiad o'r fath, credwn y bydd yn angenrheidiol ac yn briodol pennu gofynion ar sut y dylai'r ymatebion hyn ddigwydd, sef ar ffurf Adroddiadau ar yr Effaith Leol ac Adroddiadau ar yr Effaith Forol.

8.45 Rhoi gwybodaeth ffeithiol i Weinidogion Cymru yw bwriad yr adroddiadau hyn, nid rhoi barn na safbwyntiau ar ddatblygiad arfaethedig, na rhoi crynodeb o sylwadau a gafwyd gan y cyhoedd. Wedyn, gellir defnyddio'r wybodaeth hon fel tystiolaeth wrth archwilio cais a bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i'r adroddiadau hyn wrth ddod i benderfyniad ynghylch cais.

*Adroddiadau ar yr Effaith Leol*

8.46 Dim ond ar gyfer datblygiadau ar dir y bydd Adroddiadau ar yr Effaith Leol yn ofynnol, a bydd yn ofyniad gorfodol i bob ACLl ar gyfer ardal lle y bydd datblygiad arfaethedig wedi'i leoli a gaiff hysbysiad bod cais wedi'i dderbyn gyflwyno Adroddiad ar yr Effaith Leol i Weinidogion Cymru.

8.47 Gall unrhyw ACLl neu gyngor cymuned arall (os oes un wedi'i sefydlu) gyflwyno Adroddiad ar yr Effaith Leol hefyd, ond ni fyddai gofyniad gorfodol i wneud hynny. Er enghraifft, gallai hyn fod yn berthnasol i ddatblygiad arfaethedig yn ardal forol Cymru, lle y gallai fod rhywfaint o effaith ar ACLl arfordirol cyfagos.

8.48 Os bydd yn ofynnol i ACLl gyflwyno Adroddiad ar yr Effaith Leol, credwn, er mwyn eglurder a sicrwydd, y byddai'n briodol pennu gofynion sylfaenol mewn is-ddeddfwriaeth o ran yr hyn y bydd yn rhaid ei gynnwys yn yr adroddiadau hyn, sef:

- Hanes cynllunio perthnasol y tir y mae'r cais yn ymwneud ag ef;
- Unrhyw ddynodiadau lleol sy'n berthnasol i'r tir y mae'r cais yn ymwneud ag ef;
- Effaith debygol unrhyw gais mewn perthynas â chydsyniad tybiedig neu gydsyniad a ddiddymwyd;
- Unrhyw ganllawiau a pholisïau cynllunio sy'n berthnasol yn lleol, ac unrhyw ddogfennau eraill sy'n berthnasol i'r cais;
- Amodau neu rwymedigaethau drafft y bydd ACLlau o'r farn y dylai cais fod yn ddarostyngedig iddynt, pe bai'n cael ei ganiatáu;
- Cadarnhad bod yr ACLl wedi bodloni unrhyw ofynion cyhoeddusrwydd a hysbysu y bydd angen iddynt eu bodloni, os bydd hynny'n berthnasol.

8.49 Mae'n bosibl y bydd ACLlau am bennu rhagor o wybodaeth, os byddant o'r farn bod hynny'n briodol.

8.50 Fodd bynnag, os bydd ACLl neu gyngor cymuned am gyflwyno Adroddiad ar yr Effaith Leol yn wirfoddol, ni fyddem yn disgwyl i'r un gofynion gorfodol fod yn berthnasol. Felly, o dan yr amgylchiadau hyn, bydd is-ddeddfwriaeth yn pennu gofynion sylfaenol penodol gan gynnwys:

- Effaith debygol unrhyw gais mewn perthynas â chydsyniad tybiedig neu gydsyniad a ddiddymwyd;

- Unrhyw ganllawiau a pholisïau cynllunio sy'n berthnasol yn lleol, ac unrhyw ddogfennau eraill sy'n berthnasol i gais, megis y rhai a nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol neu'r Cynllun Datblygu Strategol;
- Amodau neu rwymedigaethau drafft y bydd yr ACLl neu'r cyngor cymuned o'r farn y dylai cais fod yn ddarostyngedig iddynt, pe bai'n cael ei ganiatáu.

*Adroddiadau ar yr Effaith Forol*

8.51 Er eu bod yn debyg i Adroddiadau ar yr Effaith Leol, dim ond ar gyfer datblygiadau yn ardal forol Cymru lle y bydd cais am gydsyniad seilwaith yn cynnwys darpariaeth ar gyfer trwydded forol dybiedig y bydd Adroddiadau ar yr Effaith Forol yn ofynnol.

8.52 O dan yr amgylchiadau hyn, ac os bydd CNC wedi cael ei hysbysu bod cais wedi cael ei dderbyn, bydd gofyniad gorfodol i CNC gyflwyno Adroddiad Effaith ar y Môr. Fodd bynnag, bydd gan Weinidogion Cymru hefyd y pŵer i gyfarwyddo CNC i gyflwyno Adroddiad Effaith ar y Môr o dan amgylchiadau eraill os ystyrir bod hynny'n briodol.

8.53 Lle y bydd yn ofynnol i CNC gyflwyno Adroddiad ar yr Effaith Forol, neu lle y caiff ei gyfarwyddo i wneud hynny, rydym yn cynnig cyflwyno is-ddeddfwriaeth yn pennu'r gofynion sylfaenol o ran pa wybodaeth y bydd yn rhaid ei chynnwys mewn adroddiad. Bydd hyn yn cynnwys:

- Sylwadau ar y dynodiadau amgylcheddol sy'n berthnasol i'r ardal ac effaith debygol yr amgylchedd arfaethedig (yn seiliedig ar yr hyn a gyflwynir gan geisyddion) y mae'r cais yn ymwneud â nhw;
- Hanes perthnasol yr ardal y mae'r cais yn ymwneud â hi o ran trwyddedau morol;
- Sylwadau ar unrhyw bolisïau a chanllawiau perthnasol ac unrhyw ddogfennau eraill sy'n berthnasol i'r cais, a nodir gan y ceisydd fel rhan o'r cais;
- Sylwadau ar unrhyw amodau neu rwymedigaethau drafft sydd wedi'u cynnwys yn nhrwydded forol dybiedig ddrafft y ceisydd;
- Unrhyw amodau ychwanegol y bydd CNC o'r farn y dylai cais fod yn ddarostyngedig iddynt, pe bai'n cael ei ganiatáu.

8.54 Fodd bynnag, ni fyddai dim byd yn atal CNC rhag cyflwyno unrhyw wybodaeth berthnasol arall pe bai o'r farn ei bod yn briodol ar sail achos unigol.

<u>Amrywio ceisiadau</u>

8.55 Mae'r broses ar gyfer Gorchymyn Cydsyniad Datblygu a'r broses ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol wedi bod yn llwyddiannus o ran cyfyngu ar ddiwygiadau i ddatblygiadau arfaethedig ar ôl i gais dilys gael ei dderbyn. Mae hyn yn helpu i gynnig lefel o sicrwydd a chysondeb i gymunedau lleol a rhanddeiliaid eraill ynghylch sut y caiff datblygiad arfaethedig ei asesu drwy gydol y broses benderfynu.

8.56 Er hynny, gallwn ragweld amgylchiadau lle y bydd angen diwygio datblygiad arfaethedig yn dilyn sylwadau a wnaed gan gymunedau lleol, ymgyngoreion

statudol a rhanddeiliaid eraill. Er enghraifft, efallai y bydd aelodau cymuned leol yn dweud y byddent yn fwy tebygol o gefnogi cais pe bai mân newid yn cael ei wneud i'r datblygiad.

8.57 Felly, rydym yn cynnig, ar ôl y cyfnod cyhoeddusrwydd a hysbysu, y bydd ceisyddion yn cael un cyfle i gynnig amrywiad i'w cais. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau cysondeb a chyfyngu ar gwmpas diwygiadau, byddant wedi'u cyfyngu i'r rhai sy'n fân ddiwygiadau neu'n ddiwygiadau ansylweddol. Ar y cyfan, ni fydd diwygiadau sy'n gwneud newidiadau i Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, yn ysgogi'r angen am Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd neu'n cael mwy o effaith ar gymunedau neu fusnesau yn cael eu derbyn.

8.58 Os bydd ceisydd yn dymuno cynnig amrywiad, bydd yn ofynnol iddo roi hysbysiad ysgrifenedig o hyn i Weinidogion Cymru o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl i'r cyfnod ar gyfer gwneud sylwadau ddod i ben.

8.59 Bydd angen i'r hysbysiad ysgrifenedig gael ei roi ar ffurflen a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru a chynnwys disgrifiad o'r amrywiad arfaethedig, a bydd angen talu unrhyw ffi berthnasol ar yr un pryd.

8.60 Mater i Weinidogion Cymru fydd penderfynu a ddylid derbyn yr amrywiad arfaethedig ai peidio. Caiff rhagor o wybodaeth am yr hyn a gaiff ei ystyried yn fân ac yn ansylweddol ei chynnwys mewn canllawiau, gan ei bod yn bosibl i hyn amrywio fesul achos unigol.

8.61 Er mwyn sicrhau bod unrhyw amrywiad arfaethedig yn fân neu'n ansylweddol, os bydd Gweinidogion Cymru o'r farn bod amrywiad arfaethedig yn newid sylweddol, ni fydd modd iddynt gytuno i'r amrywiad.

8.62 Ym mhob achos, bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu ceisydd am eu penderfyniad naill ai i ganiatáu neu i wrthod amrywiad arfaethedig i gais o fewn pum diwrnod gwaith ar ôl iddynt gael hysbysiad o'r bwriad i amrywio'r cais. Fodd bynnag, bydd penderfyniad Gweinidogion Cymru yn derfynol ac ni fydd cyfle i apelio yn erbyn y penderfyniad.

8.63 Os cytunir i amrywiad arfaethedig, gall Gweinidogion Cymru roi amserlen ar gyfer cyflwyno'r amrywiad a hysbysu ac ymgynghori ar yr amrywiad drwy unrhyw fodd ac ag unrhyw berson(au) y byddant o'r farn ei fod/eu bod yn briodol.

<u>Cwestiynau</u>

- A ddylai unrhyw wybodaeth, dogfennaeth neu gynlluniau ychwanegol gael eu cyflwyno ar y cyd â chais am gydsyniad seilwaith?

- A ydych yn cytuno â'r dull cyffredinol o gyflwyno a dilysu ceisiadau am gydsyniad seilwaith? Os nad ydych yn cytuno, pam?

- A ydych yn cytuno â'r gofynion sylfaenol arfaethedig o ran cyhoeddusrwydd a hysbysu ynghylch cais am gydsyniad seilwaith? Os nad ydych yn cytuno, pam?

- A ydych yn cytuno â chynnwys arfaethedig adroddiadau ar yr effaith leol? Os nad ydych yn cytuno, pam?

- A ydych yn cytuno â chynnwys arfaethedig adroddiadau ar yr effaith forol? Os nad ydych yn cytuno, pam?

- A ydych yn cytuno na ddylai fod modd i ymgyngoreion statudol roi sylwadau ar unrhyw faterion y gellid bod wedi eu codi yn ystod y cyfnod ymgynghori cyn gwneud cais? Os nad ydych yn cytuno, pam?

## Pennod 9: Ymgyngoreion Statudol

9.1 Gweinidogion Cymru fydd yn rhoi cydsyniad ar gyfer prosiectau seilwaith arwyddocaol. Fodd bynnag, bydd gan ymgyngoreion statudol rôl hanfodol i'w chyflawni yn y broses gydsynio.

9.2 Ynghyd ag ymgynghori ac ymgysylltu â darpar geisyddion, bydd hyn hefyd yn cynnwys rhoi ymateb o sylwedd i ymgynghoriad, ac Adroddiad Effaith ar y Môr gan CNC yn achos ceisiadau o fewn ardal forol Cymru. Gofynnir am eich safbwyntiau a'ch adborth ar eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â cheisiadau am gydsyniad seilwaith.

9.3 Mae ymgynghori ag ymgyngoreion statudol ar geisiadau am gydsyniad seilwaith yn egwyddor sydd eisoes ar waith yn y gyfundrefn ar gyfer datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol. Mae darpariaethau tebyg wedi cael eu cynnwys yn y Ddeddf er mwyn sicrhau yr ymgysylltir â chyrff cyhoeddus penodedig ac y cânt eu cynnwys yn effeithiol.

<u>Diben a chrynodeb</u>

9.4 Bydd cyrff arbenigol yn rhoi cyngor technegol drwy gydol y broses gydsynio ar gyfer seilwaith. Bydd hyn yn cynnwys cyngor ac arweiniad ar amrywiaeth eang o faterion megis gwella'r amgylchedd naturiol a diogelu asedau hanesyddol.

9.5 Mae'r broses gydsynio newydd wedi cael ei dylunio i fod yn system sy'n rhoi mwy o bwyslais ar y camau rhagarweiniol. Mae hyn yn golygu y bydd angen i geisyddion ymgysylltu'n gynnar ac yn rhagweithiol cyn gwneud cais. Ceir rhagor o wybodaeth ym mhennod 7 ar ymgynghori cyn gwneud cais.

<u>Pwerau</u>

9.6 Mae'r Ddeddf yn darparu amrywiaeth o bwerau sy'n llywodraethu rolau ymgyngoreion statudol. Mae'r adrannau perthnasol o'r Ddeddf fel a ganlyn:

- *Adran 30 – Ymgynghoriad a chyhoeddusrwydd cyn gwneud cais;*
- *Adran 34 – Hysbysiad am geisiadau a dderbynnir a chyhoeddusrwydd;*
- *Adran 39 – Ymgynghoriad ar ôl cais mewn perthynas â chaffael gorfodol;*
- *Adran 44 – Y weithdrefn archwilio;*
- *Adran 129 – Pŵer i ymgynghori a dyletswydd i ymateb i ymgynghoriad.*

<u>Ymgyngoreion Statudol Arfaethedig</u>

9.7 Bydd yn ofynnol i geisydd neu Weinidogion Cymru ymgynghori â chyrff penodol fel rhan o'r broses gydsynio, yn dibynnu ar natur y datblygiad arfaethedig. Bydd gan y cyrff a nodir statws 'ymgynghorai statudol'.

9.8 Bwriedir i reoliadau bennu rhestr o ymgyngoreion statudol yn y broses ar gyfer prosiectau seilwaith arwyddocaol, ac felly croesewir eich safbwyntiau a'ch awgrymiadau o ran pa gyrff y dylid eu cynnwys yn y rhestr hon.

9.9 Oherwydd telerau'r setliad datganoli, ni fydd modd i Weinidogion Cymru osod dyletswydd ar bob corff cyhoeddus. Ni ellir gosod dyletswydd ar yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol na Chomisiynwyr yr Heddlu, ac felly ni ellir eu nodi fel ymgyngoreion statudol.

9.10 Ni fydd hyn yn eu hatal rhag ymateb i ymgyngoriadau cyhoeddus ehangach o'u gwirfodd eu hunain. Fodd bynnag, bwriedir, yn ymarferol ymgynghori â'r cyrff hyn lle y bo'n briodol gan ein bod yn cydnabod y gall fod gan y cyrff hyn safbwyntiau a fyddai'n bwydo i mewn i'r broses gwneud penderfyniadau. Bydd canllawiau yn annog datblygwyr i gysylltu â'r cyrff hyn ar sail wirfoddol er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o ymgyngoriadau cyhoeddus.

9.11 Mae'r tabl isod yn dangos ymgyngoreion statudol arfaethedig a'r amgylchiadau lle y dylid ymgynghori â nhw:

| Amgylchiadau Posibl ar gyfer Ymgynghori | Ymgyngoreion Penodol |
|---|---|
| **Gall y datblygiad arfaethedig arwain at newid neu gynnydd sylweddol mewn traffig** | • Gweinidogion Cymru<br>• Gweithredwyr Rhwydweithiau<br>• Awdurdod Priffyrdd Lleol |
| **Gall y datblygiad arfaethedig gynnwys rheilffyrdd neu effeithio ar gludiant ar reilffyrdd** | • Network Rail |
| **Mae'r datblygiad arfaethedig yn cynnwys cau neu wyro llwybr troed, llwybr ceffylau, cilffordd neu lwybr beicio** | • Undeb y Beiciau Modur<br>• Cymdeithas Ceffylau Prydain<br>• Yr Ymddiriedolaeth Cilffyrdd a Llwybrau Ceffylau<br>• Y Gymdeithas Mannau Agored<br>• Cymdeithas y Cerddwyr<br>• Cymdeithas Yrru Prydain<br>• Beicwyr y DU<br>• Cymdeithas Beicwyr Gwlad Cymru |
| **Gall y datblygiad arfaethedig fod mewn ardal lofaol a nodwyd** | • Yr Awdurdod Glo |

| | |
|---|---|
| **Gall y datblygiad arfaethedig gael effaith ar ased hanesyddol** | • Gweinidogion Cymru (Cadw) |
| **Mae'r datblygiad arfaethedig ar dir lle mae theatr** | • Ymddiriedolaeth y Theatrau |
| **Gall y datblygiad arfaethedig gael effaith ar dir amaethyddol** | • Gweinidogion Cymru |
| **Gall y datblygiad arfaethedig arwain at golli meysydd chwaraeon** | • Cyngor Chwaraeon Cymru |
| **Mae'r datblygiad arfaethedig yn cynnwys ardal sydd o dan reolaeth awdurdod harbwr** | • Awdurdod Harbwr perthnasol<br>• Awdurdod Mordwyo perthnasol (os yw'n wahanol)<br>• Associated British Ports |
| **Mae'r datblygiad arfaethedig o faint penodol neu mewn lleoliad penodol** | • Yr Awdurdod Tân ac Achub Perthnasol |
| | |
| **Mae'r datblygiad arfaethedig yn ymwneud â maes awyr neu gall effeithio ar faes awyr neu ei weithrediadau** | • Yr Awdurdod Hedfan Sifil |
| **Gall y datblygiad arfaethedig effeithio ar dir y Goron neu mae wedi'i leoli ar dir y Goron** | • Ystad y Goron |
| **Gall y datblygiad arfaethedig effeithio ar amgylchedd y môr** | • Y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur |
| **Gall y datblygiad arfaethedig effeithio ar amgylchedd y môr neu'r arfordir, neu'r diwydiant morgludiant** | • Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau |
| **Gall y datblygiad arfaethedig effeithio ar amgylchedd y môr o fewn dyfroedd tiriogaethol Lloegr** | • Y Sefydliad Rheoli Morol |
| **Gall y datblygiad arfaethedig effeithio ar fordwyaeth mewn dyfroedd llanw** | • Trinity House |

| | |
|---|---|
| **Gall y datblygiad arfaethedig effeithio ar swyddogaethau ymgymerwyr statudol** | • Ymgymerwr statudol perthnasol |
| **Mae'r datblygiad arfaethedig yn cynnwys trwydded forol dybiedig** | • Ystad y Goron<br>• Y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur<br>• Unrhyw gorff cadwraeth natur statudol perthnasol arall<br>• Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau<br>• Trinity House<br>• Y Gymdeithas Hwylio Frenhinol<br>• ACLl perthnasol<br>• Awdurdod harbwr lleol<br>• Porthladdoedd lleol<br>• RSPB<br>• Gweinidogion Cymru<br>• Ymddiriedolaeth archaeolegol perthnasol yng Nghymru<br>• Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru<br>• Y Siambr Longau<br>• Ystad Swangrove<br>• Cymdeithas Pysgotwyr Cymru<br>• Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Pysgotwyr<br>• Awdurdodau Pysgodfeydd a Chadwraeth y Glannau |
| **Gall y datblygiad arfaethedig arwain at effeithiau trawsffiniol** | Mae 'perthnasol' yn cyfeirio at gorff/sefydliad y mae'r cais yn debygol o effeithio arno.<br><br>• ACLlau perthnasol yn Lloegr<br>• Bwrdd Iechyd perthnasol yn Lloegr |

| | |
|---|---|
| | • Ymddiriedolaethau perthnasol y GIG yn Lloegr<br>• Awdurdod Tân ac Achub perthnasol yn Lloegr<br>• Ysgrifennydd Gwladol<br>• Natural England<br>• Asiantaeth yr Amgylchedd<br>• Comisiwn Historic England<br>• Cyflenwr dŵr perthnasol yn Lloegr (os bydd y datblygiad yn effeithio ar gyflenwad dŵr) |

9.12 Nid yw'r rhestr o ymgyngoreion statudol penodol yn hollgynhwysfawr a bydd yn cynnwys meini prawf cadarn ar gyfer achosion pan fydd angen ymgynghori â chorff penodol. Caiff penderfyniadau ynghylch manylion y meini prawf perthnasol eu gwneud ar y cyd â'r corff perthnasol.

9.13 Ceir nifer o gyrff yr ymgynghorir â nhw ym mhob achos, a bwriedir mai'r rhain fydd:

- CNC;
- Dŵr Cymru;
- Severn Trent Water;
- Y Weinyddiaeth Amddiffyn;
- Glandŵr Cymru;
- Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- Trafnidiaeth Cymru;
- Gwasanaethau Traffig Awyr Cenedlaethol (NATS).

9.14 Gan fod y gyfundrefn gydsynio ar gyfer prosiectau seilwaith arwyddocaol ar wahân i Ddeddf 1990, efallai y bydd rhai gwahaniaethau o ran yr ymgyngoreion statudol yr ymgynghorir â nhw ar bob achos. Ar y sail honno, ymgysylltwyd â'r cyrff sydd wedi cael eu hychwanegu at y rhestr hon (nad ydynt ar restr Deddf 1990) ac maent wedi cytuno dros dro y dylent gael eu cynnwys.

<u>Ymateb o sylwedd</u>

9.15 Bydd is-ddeddfwriaeth yn rhagnodi'r meini prawf ar gyfer ffurf, cynnwys a gofynion ymatebion i ymgyngoriadau. Bydd hyn yn sicrhau y rhoddir mewnbwn priodol yn ystod y broses archwilio.

9.16 Bydd hefyd yn helpu i sicrhau bod ymatebion i ymgyngoriadau yn canolbwyntio ar faterion y mae ymgyngoreion statudol yn gyfrifol amdanynt. Bydd hyn yn

berthnasol i bob math o ymgynghoriad, boed ar y cam cyn gwneud cais neu fel rhan o'r broses o archwilio ceisiadau.

9.17 Caiff y gofyniad i ymgyngoreion statudol roi ymateb o sylwedd ei drafod yn y bennod ar ymgynghori cyn gwneud cais ym mharagraff 7.47.

Terfynau amser

9.18 Bydd is-ddeddfwriaeth hefyd yn pennu'r amserlen ar gyfer ymateb. Bydd hyn yn cynnwys cyfnod penodedig, yn ogystal â'r opsiwn i'r ymgynghorai statudol a Gweinidogion Cymru gytuno ar gyfnod yn ysgrifenedig.

9.19 Rydym yn cynnig y dylai'r cyfnod ymgynghori bara 42 diwrnod.

Adroddiadau Ymgyngoreion Statudol

9.20 Yn seiliedig ar y gofyniad i roi ymateb o sylwedd, mae'n briodol i is-ddeddfwriaeth gyflwyno trefniadau monitro perfformiad er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion ymgynghori. Bydd is-ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod yr ymgynghorir ag ef o dan yr adran hon o'r Ddeddf gyflwyno adroddiad i Weinidogion Cymru ar gydymffurfiaeth yr awdurdod â'r gofynion ymgynghori.

9.21 Bydd yr adroddiadau'n ymwneud â chyfnod o 12 mis, a bydd is-ddeddfwriaeth yn pennu pa wybodaeth y bydd angen ei chynnwys yn yr adroddiadau hyn (fel gofyniad sylfaenol). Rhagwelwn y bydd hyn yn cynnwys:

- Nifer yr achlysuron pan ymgynghorwyd â'r ymgynghorai statudol yn ystod y flwyddyn;
- Nifer yr achlysuron pan gyflwynwyd ymateb o sylwedd;
- Nifer yr achlysuron pan roddwyd ymateb (naill ai o sylwedd neu fel arall) y tu allan i'r cyfnod ymateb penodedig, gan gynnwys rhesymau pam na lynwyd wrth y cyfnod penodedig;
- Bydd angen i adroddiadau gael eu cyflwyno ar ffurflen a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru.

9.22 Rydym yn croesawu awgrymiadau o ran pryd y bydd y cyfnod 12 mis hwn yn dechrau, gan y gallai hyn fod yn gysylltiedig â chyfnodau adrodd eraill neu'r flwyddyn galendr neu ariannol.

Cwestiynau

- A ydych yn cytuno y dylid ymgynghori â'r ymgyngoreion statudol arfaethedig ym mhob achos? Os nad ydych yn cytuno, pam?

- A ydych yn cytuno y dylid ymgynghori â'r ymgyngoreion statudol arfaethedig o dan amgylchiadau penodol? Os nad ydych yn cytuno, pam a pha rai sydd wedi cael eu colli?

## Pennod 10: Ffioedd

10.1 Bwriedir i'r broses gydsynio weithredu ar sail adennill costau llawn, ac mae'r Ddeddf yn darparu'r fframwaith i gyflawni hyn. Y syniad wrth wraidd adennill costau yw caniatáu i'r rhanddeiliaid hynny sy'n cyflawni swyddogaeth mewn perthynas â'r broses cydsyniad seilwaith adennill y costau y maent yn mynd iddynt wrth wneud hynny. Mae hyn ar y sail na wneir elw na cholled o ganlyniad i gyflawni swyddogaethau o'r fath.

10.2 Bwriedir i'r costau hyn gael eu cynnwys mewn costau sy'n gysylltiedig â'r cais, a ariennir gan y datblygwr. Caiff union fanylion y ffioedd eu nodi mewn is-ddeddfwriaeth.

10.3 Caiff y rhan fwyaf o swyddogaethau'r broses o wneud cais am gydsyniad seilwaith eu cyflawni gan adran Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru a bydd y ffioedd a godir yn seiliedig ar gostau gwneud y gwaith hwn.

10.4 Rydym hefyd yn bwriadu i ffioedd gael eu talu i ymgyngoreion statudol ac ACLlau am wasanaethau a swyddogaethau a gyflawnir mewn perthynas â'r broses gwneud cais. Bydd hyn yn cynnwys ffioedd ar gyfer ymateb i ymgyngoriadau, cymryd rhan mewn gwaith archwilio, a chostau eraill yr eir iddynt.

10.5 Gweinidogion Cymru fydd yn penderfynu ar y cais, a bydd yr elfen hon o'r broses gwneud cais hefyd wedi'i chynnwys yn y gyfundrefn ffioedd. Rydym yn cynnig y bydd ffioedd yn cynnwys costau staff a gorbenion, a chostau lleoliadau a chostau cyfreithiol lle y byddant yn berthnasol.

<u>Ymgynghoriad blaenorol</u>

10.6 Ar 13 Mai 2024, cafodd papur ymgynghori o'r enw ‘Bil Seilwaith (Cymru) – ffioedd ar gyfer swyddogaethau a gwasanaethau’ ei gyhoeddi.

10.7 Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am safbwyntiau, syniadau ac awgrymiadau ynghylch ffioedd am gyflawni swyddogaethau a gwasanaethau cydsynio seilwaith.

10.8 Mae copi o'r ddogfen ‘crynodeb o'r ymatebion’ sydd wedi dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad i'w weld yma:

**[Bil Seilwaith (Cymru): ffioedd ar gyfer swyddogaethau a gwasanaethau | LLYW.CYMRU]**

<u>Egwyddorion Cyffredinol</u>

10.9 Rydym yn cynnig y dylai'r ffioedd a godir am waith sy'n gysylltiedig â chamau cyn gwneud cais a chamau gwneud cais am gydsyniad seilwaith fod yn seiliedig ar y model a ddefnyddir ar gyfer datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol. Caiff ffioedd penodedig eu defnyddio pan fydd y gwaith o natur safonol a phan fydd yr un ymdrech yn ofynnol, ar gyfartaledd, bob tro y caiff y darn hwnnw o waith ei wneud. Os na fydd y gwaith o natur safonol, byddwn yn defnyddio cyfradd

ddyddiol neu fesul awr ac yn anfonebu'r ceisydd yn unol â hynny. Bwriedir i'r ceisydd gael ei hysbysu am unrhyw gostau ychwanegol ymlaen llaw.

10.10 Rydym yn cynnig strwythur ffioedd sy'n seiliedig ar adennill costau yr eir iddynt wrth wneud y gwaith y mae'r ffi yn gysylltiedig ag ef. Bydd hyn yn galluogi'r system ffioedd i gydymffurfio â rheolau Trysorlys EF, yn enwedig y gofyniad i adennill costau'r gwaith drwy'r ffi a godir.

10.11 Cynigir hefyd y caiff manylion ffioedd eu cynnwys mewn datganiad a gyhoeddir ar wefan Llywodraeth Cymru ac y gellir ei ddiweddaru o bryd i'w gilydd. Bydd hyn yn cynnig rhywfaint o hyblygrwydd o ran ffioedd mewn ymateb i ffactorau allanol megis chwyddiant.

10.12 Bydd y dull cyffredinol hwn yn rhoi rhywfaint o sicrwydd i ddatblygwyr ynglŷn â chost y broses gwneud cais, gan gadw'r hyblygrwydd i godi ffi briodol sy'n adlewyrchu natur amrywiol y broses gwneud cais ar gyfer seilwaith.

10.13 Mae'r ffioedd yn seiliedig ar y gost sy'n gysylltiedig â chyflawni swyddogaethau Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru mewn perthynas â'r broses gwneud cais. Felly, ystyriwyd costau staff a gorbenion wrth bennu'r ffioedd hyn.

10.14 Trafodir ffioedd yr eir iddynt i gyrff eraill ac ACLlau yn nes ymlaen yn y bennod hon.

10.15 Cynigir y bydd ffioedd fel a ganlyn, i'w diweddaru o bryd i'w gilydd:

**Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 – Ffioedd**

| | |
|---|---|
| **Gwasanaethau cyn gwneud cais** | Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru – Cyfradd fesul awr o £73 (ynghyd â TAW) |
| **Hysbysiadau gwybodaeth am dir a chostau cysylltiedig eraill** | £1,958 |
| **Hysbysiad mynediad at dir** | £1,958 |
| **Hysbysiad** | £773 |
| **Ffi Gychwynnol (a delir ar adeg cyflwyno'r cais)** | £20,445 |
| **Ffi am Adroddiad ar yr Effaith Leol/Adroddiad Effaith ar y Môr (a delir ar adeg cyflwyno'r cais)** | £10,322 |
| **Ffioedd am Archwilio'r Cais** | Cyfradd ddyddiol o £1,225 |

| | |
|---|---|
| **Ffi Benderfynu** | £19,579 (a delir yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru) |

10.16 Rydym yn agored i gael adborth ar y ffordd y caiff ffioedd eu codi. Mae ein cynnig presennol yn seiliedig ar godi ffioedd ar gamau penodol o'r broses gwneud cais.

10.17 Fodd bynnag, gallai un ffi gychwynnol gael ei chodi ar ddechrau'r broses gwneud cais i dalu am yr holl gostau tebygol a gellid rhoi ad-daliad i geisyddion unwaith y daw'r broses i ben, os bydd cost prosesu'r prosiect wedi bod yn is.

10.18 Roedd ymatebwyr i'r ymgynghoriad blaenorol ar ffioedd, a gynhaliwyd yn gynharach eleni, yn anghytuno y dylid codi ffi benderfynu ar wahân. Ystyrir o hyd a fydd y ffi hon yn cael ei chynnwys mewn ffi gychwynnol am gais.

<u>Ffioedd Lleol a Chenedlaethol</u>

10.19 Roedd yr ymgynghoriad blaenorol ar ffioedd, a gynhaliwyd yn gynharach eleni, yn gofyn am adborth ar bennu ffioedd ar lefel leol neu genedlaethol. Roedd ymatebwyr yn cefnogi'r defnydd o system ffioedd genedlaethol oherwydd ystyrid y byddai'n cynnig cysondeb a thryloywder o ran lefelau ffioedd. . Fodd bynnag, tystiolaeth gyfyngedig a gafwyd i ategu'r safbwynt, neu sut y gellid sefydlu system ffioedd genedlaethol.

10.20 Wrth roi ystyriaeth i hyn, mae swyddogion wedi ystyried yr ymatebion i gwestiynau eraill. Roedd pob ymatebydd o'r farn y dylai'r system ffioedd

- ddarparu ar gyfer adennill costau;
- ystyried maint, graddfa, lleoliad a chymhlethdod datblygiad arfaethedig;
- bod yn dryloyw.

10.21 Ystyrir, o dan lawer o amgylchiadau, mai ffi a bennir yn lleol sy'n darparu hyn yn y ffordd fwyaf effeithiol. Gall cyrff unigol nodi a chyfrif am eu costau rhedeg, gan gynnwys ffactorau megis cymhlethdod cais. Ystyrir y gellir sicrhau tryloywder drwy fesurau diogelu ar system ffioedd leol, gan gynnwys y gofyniad cyfrifyddu cyhoeddus i beidio â gwneud elw o'r math hwn o weithgarwch. Felly, rydym yn cynnig y dylid bwrw ymlaen â chymysgedd o systemau ffioedd.

<u>Ffioedd Ymgyngoreion Statudol</u>

10.22 Rhagwelir y gall ymgyngoreion statudol godi ffioedd am wasanaethau penodol mewn perthynas â phrosiectau cydsyniad seilwaith. Gall y ffioedd hyn fod ar gyfer costau unrhyw beth rhesymol sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau perthnasol.

10.23 Fel y nodir uchod, bwriedir y bydd ymgyngoreion statudol yn gallu pennu eu ffioedd eu hunain am ddarparu gwasanaethau a swyddogaethau, megis gwasanaethau cyn gwneud cais, mewn perthynas â cheisiadau am gydsyniad

seilwaith. Mae proses debyg wedi cael ei chyflwyno'n ddiweddar o dan Ddeddf Cynllunio 2008.

10.24 Er mwyn codi ffi ar geisydd am wasanaethau mewn perthynas â chais, bydd yn rhaid i ymgynghorai statudol gyhoeddi datganiad sy'n gwneud y canlynol:

- Disgrifio'r gwasanaethau perthnasol y codir ffioedd amdanynt;
- Nodi'r ffioedd, neu'r dull a ddefnyddir i gyfrifo'r ffioedd.

10.25 Mae manylion y cyrff a gaiff eu hystyried yn ymgyngoreion statudol wedi'u nodi ym mhennod 9.

Swyddogaethau a Gwasanaethau Cyn Gwneud Cais

10.26 Yn yr un modd â'r gyfundrefn ar gyfer datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol, bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi cyngor cyn gwneud cais mewn perthynas â cheisiadau seilwaith os gofynnir iddynt wneud hynny, a gaiff ei wneud, yn ymarferol, gan Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru. Codir ffi ar y ceisydd am ddarparu'r gwasanaeth hwn.

10.27 Oherwydd swyddogaeth Gweinidogion Cymru, ceir gwybodaeth gyfyngedig y gellir ei rhoi ar y cam cyn gwneud cais ac sy'n weithdrefnol ei natur. Gall ceisyddion hefyd wneud cais am farn gan Weinidogion Cymru ynghylch a fyddai datblygiad arfaethedig yn cael ei ddynodi'n ddatblygiad seilwaith arwyddocaol.

10.28 Rhagwelir mai Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru fydd yn darparu gwasanaethau cyn gwneud cais yn y rhan fwyaf o achosion. Rydym yn cynnig y dylai'r ffi am y gwaith hwn gael ei godi ar gyfradd fesul awr. Bydd Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru yn anfonebu'r datblygwr pan fydd y cyngor wedi cael ei roi. Fodd bynnag, gan y bwriedir i'r broses hon fod yn un iteraidd, mae'n bosibl y caiff anfonebau am waith a wneir eu cyflwyno bob hyn a hyn pan ofynnir am gyngor. Nodir cyfradd yr awr am hyn yn y tabl isod.

10.29 Bydd angen i ACLlau a CNC hefyd roi cyngor cyn gwneud cais ar gyfer ceisiadau seilwaith pan ofynnir iddynt wneud hynny. Byddant yn rhoi gwybodaeth fanwl am bolisïau lleol a gwybodaeth amgylcheddol. Codir ffi ar y ceisydd am ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bennir yn lleol gan ACLlau unigol a CNC.

Hysbysu am y bwriad i gyflwyno cais

10.30 Bydd yn ofynnol i geisyddion gyflwyno hysbysiad o fwriad i wneud cais am gydsyniad seilwaith i Weinidogion Cymru. Mae Pennod 7 ar wneud cais yn rhoi rhagor o fanylion am hyn.

10.31 Gan y bydd hon yn broses safonedig, ac er symlrwydd, rydym yn cynnig y dylai datblygwyr dalu ffi benodedig am gyflwyno hysbysiad. Ni fydd hysbysiad yn ddilys os na chaiff y ffi ei thalu.

10.32 Mae'n bosibl y bydd achosion lle na chaiff yr hysbysiad ei dderbyn. Gallai hyn fod am nad yw'r datblygiad yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cais seilwaith, neu am

nad yw'r hysbysiad yn cynnwys yr holl wybodaeth a dogfennau gofynnol. Os bydd hyn yn digwydd, rydym yn cynnig na fyddwn yn ad-dalu'r ffi. Y rheswm dros hyn yw bod y gwaith y bydd angen ei wneud i gadarnhau na ddylid rhoi hysbysiad o dderbyn cais yn debygol o fod yn gyfwerth â'r gwaith a fyddai'n arwain at roi'r hysbysiad.

Ffioedd gwneud cais

10.33 Bydd yn ofynnol i geisydd sy'n cyflwyno cais am gydsyniad seilwaith dalu ffi a bydd angen i'r ffi hon gael ei thalu er mwyn i'r cais gael ei ddilysu. Bydd y rhan hon o'r ffi yn benodedig oherwydd bwriedir iddi dalu am ddarnau safonol o waith o fewn y broses gwneud cais sydd yr un fath ar gyfer pob cais a gyflwynir. Bydd y ffi benodedig yn seiliedig ar gost safonedig am wneud y gwaith.

10.34 Codir ffi ar gyfradd ddyddiol am elfennau newidiol y broses gwneud cais. Bydd y gyfradd ddyddiol hon yn seiliedig ar gost amser yr awdurdod archwilio a gorbenion eraill. Caiff y ffi ar gyfradd ddyddiol ei chodi fesul hanner diwrnod a diwrnod llawn. Nodir y cyfraddau hyn yn y tabl uchod.

10.35 Mae natur amrywiol cais yn deillio o'r gwahanol fathau o weithdrefnau a ddefnyddir i ystyried y cais. Ceir rhagor o wybodaeth am y weithdrefn archwilio ym mhennod 11.

10.36 Y weithdrefn ar gyfer sylwadau ysgrifenedig sy'n gofyn am y lleiaf o adnoddau staff ac ymchwiliadau lleol sy'n gofyn am y mwyaf. Bydd yr awdurdod archwilio yn penderfynu ar y weithdrefn gwneud cais yn unol â meini prawf cyhoeddedig a chaiff y weithdrefn ei dewis yn seiliedig ar beth yw'r ffordd orau o archwilio'r materion perthnasol. Ni fydd ystyriaethau ariannol yn dylanwadu ar y penderfyniad hwn.

10.37 Pan fydd yr awdurdod archwilio yn cyflwyno adroddiad ac argymhelliad i Weinidogion Cymru, bydd yn anfon anfoneb at y ceisydd am y ffi gwneud cais sy'n weddill am ei ran o'r broses. Mae'n bosibl y bydd yr awdurdod archwilio yn cyflwyno anfonebau yn amlach yn ystod y broses o ystyried y cais, yn enwedig ar gyfer gweithdrefnau hwy'r gwrandawiad a'r ymchwiliad lleol, ac yna'n cyflwyno anfoneb derfynol pan gaiff yr adroddiad ei anfon at Weinidogion Cymru.

10.38 Cynigir y caiff ymgyngoreion statudol ac ACLlau bennu ffioedd ychwanegol wrth archwilio cais er mwyn adennill eu costau, megis presenoldeb mewn gwrandawiad neu ymchwiliad. Byddai hon yn ffi leol a bennir gan gyrff unigol.

Ffioedd penderfynu

10.39 Gweinidogion Cymru fydd yn gwneud y penderfyniad ynghylch cydsyniad seilwaith, a bydd yn seiliedig ar yr wybodaeth a gasglwyd wrth archwilio'r cais, gan gynnwys yr argymhelliad gan yr awdurdod archwilio.

10.40 Rydym yn cynnig y dylai rôl Gweinidogion Cymru yn y broses gwneud cais hefyd gael ei chynnwys yn y ffi a delir gan y ceisydd. Fel y nodir uchod, ystyrir a fydd y

ffi benderfynu hon yn rhan o'r ffi gychwynnol am gais neu a fydd yn cael ei chodi ar wahân.

10.41 Mae'n bosibl y bydd Gweinidogion Cymru hefyd yn mynd i gostau ychwanegol na ellir eu cynnwys mewn ffi benderfynu benodedig. Yn fwyaf tebygol, costau cyfreithiol yr eir iddynt wrth ystyried cydsyniadau cysylltiedig eraill fydd y rhain.

Adroddiadau ar yr Effaith Leol

10.42 Bydd yn ofynnol i'r ACLl(au) perthnasol ar gyfer cais lunio a chyflwyno Adroddiad ar yr Effaith Leol. Bydd hyn yn ddyletswydd statudol a'r bwriad yw rhoi gwybodaeth dechnegol berthnasol i'r penderfynwr am effaith y datblygiad arfaethedig. Ceir rhagor o wybodaeth ym mhennod 11 ar Archwilio.

10.43 Rydym yn cynnig y dylai'r ACLl gael ei dalu am gyflawni'r ddyletswydd statudol hon a swyddogaethau eraill, megis diweddaru'r Gofrestr Gynllunio a chyhoeddusrwydd. Bwriedir i'r taliad hwn sicrhau bod gan yr ACLl yr adnoddau i lunio'r adroddiad, a hynny i'r safon ddisgwyliedig, ac i gyflawni'r swyddogaethau eraill y disgwylir iddo eu cyflawni. Heb y taliad hwn, byddai'n rhaid i'r ACLl ddefnyddio adnoddau sydd ganddo eisoes, a all gael effaith anfwriadol a negyddol ar waith cynllunio arall a wneir ganddo.

10.44 Rydym yn cynnig y dylai'r ACLl gael y taliad yn llawn os bydd yn bodloni'r gofynion sylfaenol a'r amserlen ar gyfer cyflwyno. Os bydd yn methu â bodloni'r amserlen heb reswm da, mae'n bosibl mai dim ond rhan o'r ffi a gaiff, neu na chaiff ei dalu o gwbl.

10.45 Rydym yn cynnig y dylai'r taliad am yr Adroddiad ar yr Effaith Leol fod yn rhan o'r ffi benodedig y bydd y ceisydd yn ei thalu pan fydd yn cyflwyno ei gais.

10.46 Bydd Gweinidogion Cymru yn trosglwyddo'r ffi berthnasol i'r ACLl yn syth ar ôl i'r Adroddiad ar yr Effaith Leol gael ei gyflwyno yn unol â'r gofynion. Caiff unrhyw ran o'r ffi nas telir i'r ACLl, o ganlyniad i gyflwyno'n hwyr neu beidio â bodloni'r gofynion sylfaenol rhagnodedig, ei had-dalu i'r ceisydd.

10.47 Dim ond i ACLlau sydd â dyletswydd i gyflwyno Adroddiad ar yr Effaith Leol y bydd y taliad hwn yn berthnasol. Bydd partïon eraill sy'n dymuno cyflwyno Adroddiad ar yr Effaith Leol gwirfoddol, megis ACLl cyfagos neu gyngor tref neu gymuned, yn gwneud hynny ar eu traul eu hunain.

10.48 Bydd cost darparu Adroddiad ar yr Effaith Leol yn parhau i fod yn ffi benodedig ar wahân i ffioedd lleol eraill y gall ACLl eu codi.

Adroddiadau ar yr Effaith Forol

10.49 Bydd egwyddorion Adroddiadau ar yr Effaith Leol yn berthnasol i Adroddiadau ar yr Effaith Forol. Bydd yn ofynnol i CNC lunio a chyflwyno Adroddiad Effaith ar y Môr ar gyfer ceisiadau sy'n ymwneud â'r ardal forol. Bydd hon yn ddyletswydd statudol a'r bwriad yw y bydd yn darparu unrhyw wybodaeth berthnasol sydd gan

CNC i'r penderfynwr am effaith y datblygiad arfaethedig. Ceir rhagor o wybodaeth ym mhennod 11 ar Archwilio.

10.50 Bwriedir i'r taliad hwn sicrhau bod gan CNC yr adnoddau i lunio'r adroddiad i'r safon ddisgwyliedig, ac i gyflawni'r swyddogaethau eraill y disgwylir iddo eu cyflawni. Rydym yn cynnig y dylai CNC gael y taliad yn llawn os bydd yn bodloni'r gofynion sylfaenol a'r amserlen ar gyfer cyflwyno. Os bydd yn methu â bodloni'r amserlen heb reswm da, mae'n bosibl mai dim ond rhan o'r ffi a gaiff, neu na chaiff ei dalu o gwbl.

10.51 Rydym yn cynnig y dylai'r taliad am yr Adroddiad Effaith ar y Môr fod yn rhan o'r ffi benodedig y bydd y ceisydd yn ei thalu pan fydd yn cyflwyno ei gais. Bydd y ffi benodedig yn seiliedig ar gost gyfartalog llunio'r Adroddiad Effaith ar y Môr a chyflawni ei swyddogaethau eraill.

10.52 Bydd Gweinidogion Cymru yn trosglwyddo'r ffi berthnasol i CNC yn syth ar ôl i'r Adroddiad Effaith ar y Môr gael ei gyflwyno yn unol â'r gofynion. Caiff unrhyw ran o'r ffi nas telir i CNC, o ganlyniad i gyflwyno'n hwyr neu beidio â bodloni'r gofynion sylfaenol rhagnodedig, ei had-dalu i'r ceisydd.

10.53 Dim ond i CNC y bydd y taliad hwn yn berthnasol. Bydd partïon eraill sy'n dymuno cyflwyno Adroddiad Effaith ar y Môr yn wirfoddol, megis cyngor tref neu gymuned, yn gwneud hynny ar eu traul eu hunain.

10.54 Bydd cost darparu Adroddiad ar yr Effaith Morol yn parhau i fod yn ffi ar wahân i ffioedd lleol y gall CNC eu codi.

Costau Eraill

10.55 Mae'n bosibl y bydd yr awdurdod archwilio yn mynd i gostau ychwanegol yn ystod y broses archwilio na fyddai'n briodol eu cynnwys yn y ffi benodedig na'r cyfraddau dyddiol. Gallai'r costau ychwanegol hyn gynnwys costau lleoliadau ar gyfer gweithdrefnau'r gwrandawiad a'r ymchwiliad lleol; costau cyfreithiol; a chostau aseswyr. Mae'r costau hyn yn rhy amrywiol a phenodol i achosion unigol i'w cynnwys yn y ffioedd a godir ar bob ceisydd.

10.56 Rydym yn cynnig y dylai'r costau hyn, pan eir iddynt, gael eu codi ar y ceisydd a'u cynnwys yn yr anfoneb derfynol a gyflwynir pan fydd yr awdurdod archwilio'n cyflwyno'r adroddiad i Weinidogion Cymru. Bydd hyn yn sicrhau y caiff costau'r cais eu talu, ond dim ond pan eir iddynt.

Ad-daliadau

10.57 Bydd y ffioedd y bydd y ceisydd yn eu talu, yn arbennig y ffi benodedig a fydd yn ofynnol pan gaiff y cais ei gyflwyno, yn talu am waith y bydd Gweinidogion Cymru yn ei wneud ar ôl cael y cais. Mae'n bosibl y bydd achosion lle na fydd y gwaith hwn yn digwydd am fod y cais yn annilys, neu am fod y ceisydd yn tynnu'r cais yn ôl.

10.58 Os bydd cais yn annilys, ni chredwn y byddai'n briodol i Weinidogion Cymru gadw'r ffi gyfan a dalwyd gan y ceisydd. Fodd bynnag, byddant wedi mynd i gostau yn sgil prosesau dogfennau'r cais a chyrraedd y pwynt lle y cadarnheir bod y cais yn annilys. Dylai'r costau hyn gael eu talu gan y ceisydd.

10.59 Rydym yn cynnig y dylai cyfran o'r ffi benodedig a delir pan gyflwynir y cais gael ei had-dalu i'r ceisydd os penderfynir bod y cais yn annilys ac na fydd unrhyw waith pellach yn cael ei wneud arno. Caiff yr union ganran a gedwir ei nodi mewn is-ddeddfwriaeth. Bydd y ffi yn adlewyrchu faint o waith a wnaed yn ystod cam dilysu'r broses gwneud cais.

10.60 Mae'n bosibl y bydd amgylchiadau eraill lle y bydd dull adennill yn briodol, os bydd ffi wedi cael ei thalu ac na fydd gwasanaeth wedi cael ei ddarparu. Gan mai system newydd yw hon, caiff perfformiad ei fonitro ac efallai y bydd yn briodol ystyried ad-daliadau mewn meysydd eraill o'r broses yn y dyfodol.

Peidio â thalu ffioedd gwneud cais

10.61 Cynigir y bydd sawl adeg yn ystod y broses gwneud cais pan fydd yn ofynnol i'r ceisydd dalu ffi. Felly, potensial i'r ffi beidio â chael ei thalu. Os na fydd y ceisydd yn talu'r ffi benodedig ar ddechrau'r broses, bydd y cais yn annilys, ac ni chaiff unrhyw waith pellach ei wneud ar y cais.

10.62 Mewn sefyllfaoedd lle y bydd Gweinidogion Cymru yn cyflwyno anfoneb yn seiliedig ar elfen cyfradd ddyddiol y ffi, bydd yn ofynnol i'r ceisydd dalu'r ffi o fewn cyfnod penodol ar ôl i'r anfoneb gael ei chyflwyno. Os na fydd y ceisydd yn talu'r ffi, gallai Gweinidogion Cymru gymryd camau adennill dyled drwy'r llysoedd.

Dyfarnu costau

10.63 Os bydd ymddygiad afresymol wedi arwain at gostau y gellir eu hosgoi, bydd gan Weinidogion Cymru y pŵer i orchymyn ei bod yn rhaid talu costau mewn perthynas â'r broses archwilio.

10.64 Cynigir y gall y partïon wneud cais am eu costau o dan yr amgylchiadau hyn, ond gall Gweinidogion Cymru hefyd gychwyn dyfarniadau costau os byddant o'r farn bod hyn yn briodol. Drwy wneud hyn, caiff ymddygiad y partïon yn ystod y broses archwilio ei reoleiddio, a bydd ymddygiad afresymol yn destun dyfarniad costau i'r rhai yr effeithiwyd arnynt.

Cwestiynau

- A ydych yn cytuno y dylai'r ACLl perthnasol gael ffi benodedig am baratoi Adroddiad ar yr Effaith Leol? Os nad ydych yn cytuno, pam?

- A ydych yn cytuno y dylai'r ACLl gael llai o daliad neu ddim taliad, os na fydd yn cyflwyno'r Adroddiad ar yr Effaith Leol o fewn y terfyn amser ac yn unol â'r gofynion sylfaenol? Os nad ydych yn cytuno, pam?

- A ydych yn cytuno y dylai CNC gael ffi benodedig am baratoi Adroddiad Effaith ar y Môr? Os nad ydych yn cytuno, pam?

- A ydych yn cytuno y dylai CNC gael llai o daliad neu ddim taliad, os na fydd yn cyflwyno'r Adroddiad Effaith ar y Môr o fewn y terfyn amser ac yn unol â'r gofynion sylfaenol? Os nad ydych yn cytuno, pam?

- A ydych yn cytuno na ddylai'r ceisydd gael ad-daliad llawn os yw ei gais yn annilys? Os nad ydych yn cytuno, pam?

- A ydych yn cytuno y dylai ffioedd gael eu talu fesul cam neu y dylid talu un ffi gychwynnol am gais ac os bydd yn costio llai i brosesu'r cais, y caiff y swm hwn ei ad-dalu?

## Pennod 11: Archwilio

11.1 Bydd proses gydsynio effeithlon yn sicrhau y caiff pob cais ei archwilio yn y ffordd fwyaf priodol, cymesur ac amserol gan wneud yn siŵr y caiff adroddiadau o safon eu llunio er mwyn arwain at broses gwneud penderfyniadau gadarn.

11.2 Yn unol â hynny, rydym wedi mabwysiadu'r egwyddor mai'r person penodedig fydd yn y sefyllfa orau i benderfynu ar y dull archwilio mwyaf priodol a rheoli'r ffordd y caiff ei roi ar waith. Mae'r cynigion isod hefyd yn gwneud darpariaeth mewn is-ddeddfwriaeth er mwyn cynnwys y gymuned yn well drwy gynnal gwrandawiad llawr agored a galluogi pobl i'w gwylio drwy eu darlledu ar-lein.

11.3 Mae'r Ddeddf yn galluogi i geisiadau gael eu harchwilio gan ddefnyddio un o'r gweithdrefnau canlynol, neu unrhyw gyfuniad ohonynt, yn unol ag amserlen a bennir gan y person penodedig:

- Sylwadau ysgrifenedig;
- Gwrandawiad llawr agored;
- Gwrandawiad pwnc-benodol;
- Ymchwiliad pwnc-benodol.

11.4 Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu ar gyfer rheoli'r broses archwilio.

<u>Pwerau</u>

11.5 Mae'r adrannau perthnasol o'r Ddeddf fel a ganlyn:

- *Adran 40 – Penodi awdurdod archwilio;*
- *Adran 42 – Dewis o ymchwiliad, gwrandawiad neu weithdrefn ysgrifenedig;*
- *Adran 43 – Gwrandawiadau llawr agored;*
- *Adran 44 – Y weithdrefn archwilio;*
- *Adran 48 – Mynediad at dystiolaeth mewn ymchwiliad;*
- *Adran 49 – Talu cynrychiolydd penodedig pan fo mynediad at dystiolaeth wedi ei gyfyngu.*

### Penodi awdurdod archwilio

11.6 Un person penodedig neu banel o bersonau penodedig fel yr 'awdurdod archwilio' fydd yn archwilio ac yn ystyried cais am gydsyniad seilwaith.

11.7 Bydd rheoliadau'n gwneud darpariaeth bellach ar gyfer penodi awdurdod archwilio neu mewn perthynas â hynny. Rydym yn rhagweld y bydd hyn yn cynnwys neilltuo swyddogaethau i bersonau ar banel a sut y bydd y panel yn gwneud penderfyniadau; er enghraifft o ran llunio'r adroddiad terfynol i Weinidogion Cymru sy'n argymell a ddylid cymeradwyo neu wrthod cais. Ein bwriad yw y bydd y rheoliadau'n pennu y bydd gan yr awdurdod archwilio ddisgresiwn dros y materion hynny, gan y bydd y tasgau y bydd angen eu cyflawni wrth archwilio ac ystyried cais yn amrywio fesul achos yn dibynnu ar y materion y bydd angen penderfynu arnynt.

Penodi awdurdod archwilio i archwilio cais i newid neu ddirymu cydsyniad seilwaith

11.8 Mae adran 40(3) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r meini prawf a ddefnyddir wrth benderfynu ai un person neu banel penodedig a ddylai ddelio â chais i ddirymu neu newid cydsyniad seilwaith. Wrth wneud y penderfyniad hwn, bydd Gweinidogion Cymru yn defnyddio'r meini prawf canlynol:

*Pa mor gymhleth yw'r achos*

11.9 Bydd pa mor gymhleth yw'r materion a godir gan geisiadau unigol, a faint o'r materion hynny sy'n amrywio'n fawr, yn dibynnu, ymhlith pethau eraill, ar natur a lleoliad y datblygiad seilwaith arfaethedig, gan gynnwys a yw'r cynnig yn:

- codi materion newydd ar gyfer datblygiad;
- codi ystyriaethau cyfreithiol neu dechnegol cymhleth.

*Lefel diddordeb y cyhoedd yn y canlyniad*

11.10 Mae'n debygol y bydd pob cais ar gyfer prosiect seilwaith arwyddocaol yn unigryw, a bydd lefel diddordeb y cyhoedd yn amrywio'n fawr yn dibynnu ar faint, graddfa, lleoliad a natur y datblygiad arfaethedig. Yn benodol, bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried y tebygolrwydd y bydd angen cynnal gwrandawiadau fel rhan o'r broses archwilio, er mwyn i'r awdurdod archwilio brofi tystiolaeth a gyflwynir gan bartïon sydd â diddordeb wyneb yn wyneb.

Hysbysu am benodiad

11.11 Bydd y rheoliadau'n gwneud darpariaeth ynglŷn â'r person(au) a benodir i asesu cais ac unrhyw newidiadau dilynol i'r person(au) a benodir. Credir y dylai partïon penodol gael eu hysbysu am y person(au) penodedig ac unrhyw newidiadau.

11.12 Felly, rydym yn cynnig y bydd rheoliadau'n pennu y bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru roi gwybod i'r ceisydd a'r ACLl beth yw enw(au)'r person(au) penodedig. Os bydd Gweinidogion Cymru yn newid y person(au) penodedig, bydd yn rhaid rhoi gwybod i'r ceisydd a'r ACLl beth yw enw(au)'r person(au) penodedig newydd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

11.13 Os bydd Gweinidogion Cymru yn penodi person arall neu banel newydd, ond nid yw'n ymarferol gwneud hynny cyn i unrhyw wrandawiad neu ymchwiliad gael ei gynnal, bydd yn rhaid i'r person(au) penodedig a fydd yn cynnal y gwrandawiad neu'r ymchwiliad gyhoeddi ei enw/eu henwau a'r ffaith ei fod/eu bod wedi'i benodi/penodi, ar ddechrau'r gwrandawiad neu'r ymchwiliad hwnnw.

**Dewis o ymchwiliad, gwrandawiad neu weithdrefn ysgrifenedig**

11.14 Mae adran 42 o’r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod archwilio benderfynu sut y caiff pob cais ei archwilio cyn diwedd cyfnod a bennir mewn

rheoliadau. Rhaid i archwiliadau gael eu cynnal drwy wrandawiad, ymchwiliad, sylwadau ysgrifenedig neu gyfuniad o'r gweithdrefnau hyn. Rhaid i'r penderfyniad hwn ddarparu ar gyfer cynnwys gwrandawiad yn y broses o archwilio'r cais, oni fydd y penderfyniad yn darparu ar gyfer cynnal ymchwiliad lleol, neu fod yr awdurdod archwilio o'r farn na fyddai gwrandawiad yn helpu'r archwiliad. Wrth wneud y penderfyniad hwn, bydd yn rhaid iddo ystyried y meini prawf a ddefnyddir wrth wneud penderfyniadau o dan yr adran hon.

11.15 Er mwyn gwneud y penderfyniad hwn, bydd yn ofynnol i'r awdurdod archwilio wneud asesiad cychwynnol o'r prif faterion sy'n deillio o'r cais. Bydd yr asesiad cychwynnol hwn yn cynnwys dadansoddiad cychwynnol o ddogfennau'r cais, a gall hefyd ystyried unrhyw rai o'r sylwadau perthnasol a gafwyd mewn ymateb i unrhyw ymgynghoriad ar y cais.

11.16 Drwy gynnal asesiad cychwynnol, bydd gan y person neu'r panel o bersonau penodedig ddealltwriaeth gliriach o'r weithdrefn/gweithdrefnau a fydd fwyaf priodol i archwilio cais yn ei farn ef/yn eu barn nhw.

Meini prawf

11.17 Penderfynir pa weithdrefn archwilio i'w defnyddio yn unol â meini prawf cyhoeddedig. Caiff y rhain eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru (fel bod modd eu diwygio yn ôl yr angen) a byddant yn cynnig tryloywder ac enghreifftiau o faterion penodol a'r math o ddigwyddiad sydd fwyaf priodol i'w harchwilio. Nodir y meini prawf arfaethedig ar gyfer gwybodaeth isod:

*Sylwadau ysgrifenedig*

11.18 Byddai sylwadau ysgrifenedig yn briodol:

- os gellir deall y materion a godir yn glir o'r dogfennau ac archwiliad o'r safle;
- os nad yw'r materion yn gymhleth a'i bod yn annhebygol y bydd angen i'r person penodedig brofi'r dystiolaeth drwy holi'r partïon.

*Gwrandawiad*

11.19 Byddai gwrandawiad yn briodol:

- os bydd yn debygol y bydd angen i'r person penodedig brofi'r dystiolaeth drwy holi'r partïon neu ofyn iddynt egluro materion (er enghraifft os bydd angen profi tystiolaeth fanwl o'r effaith ar dirwedd drwy ofyn cwestiynau);
- os na fydd angen i'r dystiolaeth gael ei phrofi drwy holi ffurfiol gan eiriolwr neu ei rhoi ar lw; neu
- os gellir disgwyl yn rhesymol y gall pob parti gyflwyno ei achos ei hun (gyda chymorth tystion proffesiynol os bydd angen) heb fod angen i eiriolwr ei gynrychioli.

*Ymchwiliad*

11.20 Byddai ymchwiliad yn briodol:

- os bydd esboniad clir o'r angen i brofi'r dystiolaeth drwy holi ffurfiol gan eiriolwr (nid yw hyn yn eithrio ceisydd sy'n ei gynrychioli ei hun fel eiriolwr);
- os bydd y materion yn gymhleth (er enghraifft os bydd yn debygol y caiff llawer o ddata technegol iawn eu rhoi fel tystiolaeth); neu
- os bydd y cais wedi ennyn cryn dipyn o ddiddordeb lleol sy'n cyfiawnhau ymchwiliad yn hytrach na delio â'r achos drwy wrandawiad.

11.21 I effeithiau unigol datblygiad y bydd y meini prawf hyn yn berthnasol ac nid i'r cais yn ei gyfanrwydd. Bydd hyn yn golygu y gall gwahanol weithdrefnau archwilio fod yn berthnasol i wahanol rannau o gais.

<u>Amserlen</u>

11.22 Bydd datblygu amserlen yn cynnig sicrwydd a thryloywder i bob parti sy'n rhan o archwiliad. Rydym yn cynnig y bydd yn rhaid i'r amserlen bennu:

- erbyn pa ddyddiad y bydd yn rhaid cael unrhyw sylwadau pellach (os bydd hynny'n berthnasol) a pha fater(ion) y bydd yn rhaid iddynt fynd i'r afael ag ef/â nhw;
- p'un ai yn ysgrifenedig neu mewn gwrandawiad neu ymchwiliad y caiff sylwadau pellach o'r fath eu rhoi;
- erbyn pa ddyddiad y bydd yn rhaid i unrhyw barti sy'n gwneud sylwadau hysbysu'r person penodedig ei fod yn dymuno cael ei glywed mewn gwrandawiad neu ymchwiliad pwnc-benodol;
- dyddiad(au), lleoliad ac amser unrhyw wrandawiad neu ymchwiliad pwnc-benodol (os bydd hynny'n berthnasol) neu gyfarfod cyn archwilio, a'r materion y bydd y gwrandawiadau neu'r ymchwiliadau hynny'n mynd i'r afael â nhw;
- unrhyw derfynau amser eraill y bydd y person penodedig o'r farn eu bod yn angenrheidiol.

11.23 Rydym yn disgwyl hyn er mwyn gallu dod â'r archwiliad i ben o fewn 6 mis.

<u>Amserlen</u>

11.24 Bydd yr awdurdod archwilio fel arfer yn cwblhau ei asesiad cychwynnol o'r cais ac yn penderfynu ar y weithdrefn fwyaf priodol o fewn cyfnod o 20 diwrnod. Bydd hyn yn dechrau ar y diwrnod ar ôl y terfyn amser ar gyfer gwneud sylwadau perthnasol.

<u>Hysbysiad o benderfyniad ac amserlen</u>

11.25 Ar ôl penderfynu ar y weithdrefn archwilio, bydd rheoliadau'n darparu y bydd yn rhaid i'r awdurdod archwilio nodi materion penodol ar ffurf hysbysiad. Rydym yn cynnig y bydd yn rhaid i'r hysbysiad wneud y canlynol:

- nodi'r materion y penderfynir arnynt mewn gwrandawiad neu ymchwiliad, os oes rhai;
- os bydd Gweinidogion Cymru wedi penderfynu y caiff gwrandawiad neu ymchwiliad ei gynnal, nodi'r rhai a wahoddir i gymryd rhan; neu
- gynnwys datganiad yn dweud bod Gweinidogion Cymru yn bwriadu penderfynu ar y cais yn seiliedig ar sylwadau ysgrifenedig.

11.26 Rydym yn cynnig y bydd rheoliadau'n darparu y bydd yn rhaid i'r amserlen gael ei hanfon at:

- y ceisydd;
- yr ACLI(au) yn yr ardal y mae'r datblygiad wedi'i leoli ynddi neu'r ACLI agosaf ar y tir os yw'r cais yn ymwneud â chynnig alltraeth;
- ymgyngoreion statudol;
- ymgyngoreion hysbysu;
- partïon a gyflwynodd sylwadau;
- unrhyw berson(au) arall/eraill y maent o'r farn ei fod/eu bod yn briodol.

<u>Amrywio'r amserlen a'r weithdrefn</u>

11.27 Gall y person penodedig amrywio'r amserlen a'r weithdrefn archwilio a nodir ynddi unrhyw bryd, ar yr amod y bydd yr holl bartïon yr anfonwyd copi atynt yn cael eu hysbysu'n ysgrifenedig am yr amrywiad. Mae hyn yn cynnwys y gallu i gau digwyddiad cyhoeddus ac i gais gael ei archwilio drwy sylwadau ysgrifenedig yn lle hynny.

**Cyfarfodydd cyn archwilio**

11.28 Er y gall yr awdurdod archwilio benderfynu ar y weithdrefn archwilio a'r amserlen drwy'r cais a'r sylwadau, credwn y gall fod achosion pan fyddai'n fuddiol cynnal cyfarfod rhagarweiniol rhwng y partïon, cyn i gais gael ei archwilio.

11.29 Prif ddiben cyfarfod cyn archwilio fyddai i'r person neu'r panel o bersonau penodedig drafod unrhyw faterion gweithdrefnol gyda'r rhai a wahoddir i fod yn bresennol, a chlywed unrhyw sylwadau ganddynt ynghylch y ffordd y dylid archwilio cais yn eu barn nhw. Rydym yn rhagweld y byddai cyfarfod cyn archwilio'n cael ei gynnal ar gyfer y ceisiadau mwyaf cymhleth; fodd bynnag, mater i'r person penodedig benderfynu arno fyddai hyn.

11.30 Os penderfynir y dylid cynnal cyfarfod cyn archwilio, bydd rheoliadau'n darparu y bydd yn ofynnol i'r person neu'r panel o bersonau penodedig wahodd y partïon canlynol i gyfarfod:

- y ceisydd;
- ACLI y bydd y datblygiad arfaethedig yn effeithio arnynt;
- ymgyngoreion statudol;
- ymgyngoreion hysbysu;
- unrhyw berson arall/personau eraill y maent o'r farn ei fod/eu bod yn briodol.

11.31 Bydd yn ofynnol i'r awdurdod archwilio roi hysbysiad ysgrifenedig o ddyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod cyn archwilio i bob parti o leiaf 14 diwrnod ymlaen llaw. Rhaid i'r hysbysiad hefyd nodi'r materion a gaiff eu trafod yn y cyfarfod.

11.32 Os bydd un neu fwy o'r partïon a wahoddir i'r cyfarfod cyn archwilio yn gwrthod y gwahoddiad neu'n peidio ag ymddangos yn y lle ac ar yr amser a bennwyd ymlaen llaw ar gyfer cyfarfod cyn archwilio, gall y cyfarfod fynd rhagddo yn ei/eu (h)absenoldeb. Os na all parti fod yn bresennol, bydd modd i berson arall ei gynrychioli yn y cyfarfod cyn archwilio.

11.33 Os na fydd yn gyfleus i'r partïon fod yn bresennol mewn cyfarfod cyn archwilio wyneb yn wyneb, bydd modd iddynt gymryd rhan mewn cyfarfod, a chael eu hystyried fel pe baent wedi bod yn bresennol, drwy gysylltiad fideogynadledda neu delegynadledda, ar yr amod bod y person penodedig yn fodlon na fyddai cyfarfod o'r fath yn rhoi'r un o'r partïon o dan anfantais.

11.34 Ni fydd gan yr un parti hawl i'w gwneud yn ofynnol cynnal cyfarfod cyn archwilio. Y person neu'r panel o bersonau penodedig yn unig a gaiff benderfynu cynnal cyfarfod cyn archwilio.

**Gwrandawiadau llawr agored**

11.35 Bydd person neu banel o bersonau penodedig yn ystyried yr holl sylwadau a gyflwynir ynghylch cais. Bydd sylwadau ysgrifenedig yr un mor bwysig â chyflwyniadau llafar. Fodd bynnag, deellir y byddai'n well gan rai partïon wneud sylwadau wyneb yn wyneb. Mae gwrandawiadau llawr agored yn gyfle i unigolion a grwpiau cymunedol siarad â'r awdurdod archwilio yn uniongyrchol. Er mwyn sicrhau archwiliad didrafferth ac amserol, bydd rheoliadau'n rhoi rhagor o fanylion am y digwyddiadau hyn.

<u>Pryd y bydd gwrandawiad llawr agored yn ofynnol</u>

11.36 Bydd rheoliadau'n darparu y bydd yr awdurdod archwilio yn cynnal o leiaf un gwrandawiad llawr agored os bydd 10 neu fwy o bartïon â diddordeb yn gwneud cais am un erbyn y terfyn amser a nodir yn yr amserlen archwilio; neu lle bo llai na 10 os credir y bydd hynny'n angenrheidiol neu'n ddefnyddiol i'r archwiliad. Mae'n rhaid bod gan y partïon â buddiant fuddiant dilys yn y cais a'u bod wedi gwneud sylwadau yn briodol.

11.37 Bydd rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw bersonau sy'n gwneud cais nodi'r materion yr hoffent eu codi yn y gwrandawiad. Bydd hyn yn galluogi'r awdurdod archwilio i reoli'r broses, gan olygu y bydd modd cynnal proses archwilio fwy cydlynol. Os bydd y materion hyn wedi'u nodi yn adran 58 o'r Ddeddf (darpariaethau ynghylch materion y caniateir eu diystyru wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau), gellir diystyru'r sylw wrth ystyried nifer y partïon sy'n gwneud cais am wrandawiad llawr agored.

11.38 Bydd rheoliadau'n darparu y bydd gan yr awdurdod archwilio y pŵer i ddyrannu personau â diddordeb i wrandawiadau pwnc-benodol er mwyn osgoi cynnal

gwrandawiadau llawr agored diangen lle y byddai hyn yn arwain at ddyblygu pynciau.

11.39 Bydd y rheoliadau hefyd yn galluogi'r person penodedig i wrthod cais am wrandawiad llawr agored os bydd unrhyw bersonau sy'n gwneud cais amdano yn codi materion y tu hwnt i gylch gwaith yr archwiliad; er enghraifft, os bydd y person yn dymuno codi gwrthwynebiadau i ddeddfwriaeth neu bolisi cynllunio cenedlaethol.

11.40 Bydd y penderfyniad ynghylch a ddylid cynnal gwrandawiad llawr agored yn cael ei wneud yn ôl disgresiwn yr awdurdod archwilio, gyda thybiaeth o blaid galluogi ymgysylltu priodol â'r broses.

Sut y caiff gwrandawiad ei gynnal

11.41 Bydd rheoliadau'n darparu, os caiff gwrandawiad llawr agored ei gynnal, y caiff y gwrandawiadau hyn eu cynnal yn yr un ffordd â gwrandawiad pwnc-benodol, lle y bydd gan yr awdurdod archwilio y gallu i ragnodi'r ffordd y caiff y gwrandawiad ei gynnal. Y bwriad fydd i'r awdurdod archwilio sicrhau y caiff pob parti gyfle i siarad yn y gwrandawiad a'i fod yn mynd rhagddo'n ddidrafferth.

**Sylwadau pellach**

11.42 Mae'n bosibl y bydd achosion lle y bydd angen i'r person penodedig gael sylwadau pellach gan un neu fwy o bartïon er mwyn cael eglurhad o faterion penodol, er mwyn ei helpu i ddod i gasgliadau a llunio argymhellion ynghylch cais. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd rheoliadau'n caniatáu i'r person penodedig wneud cais am sylwadau pellach.

11.43 Mae'n bosibl y bydd gwneud cais am sylwadau manylach ar fater penodol yn golygu na fydd angen cynnal digwyddiad penodol ar y materion hyn, neu'r cynllun yn ei gyfanrwydd, ac felly y caiff y cais ei archwilio'n gyflymach ac mewn modd mwy cymesur.

Pwy y gellir gofyn iddynt wneud sylwadau pellach

11.44 Os bydd y person penodedig o'r farn y byddai sylwadau pellach yn fuddiol er mwyn cael eglurhad o faterion penodol, bydd rheoliadau'n darparu y gall anfon hysbysiad ysgrifenedig yn gofyn am ymatebion pellach ynglŷn â materion sydd yn eu sylwadau. Bydd y rheoliadau'n darparu mai'r personau y gellir anfon hysbysiad atynt yw:

- y ceisydd;
- yr ACLI;
- ymgyngoreion statudol;
- unrhyw berson a wnaeth sylwadau mewn perthynas â'r cais.

Sut y bydd yn rhaid i wybodaeth gael ei chyflwyno

11.45 Bydd rheoliadau'n darparu y bydd yn rhaid i unrhyw sylwadau pellach gael eu cyflwyno o fewn cyfnod a bennir gan Weinidogion Cymru, y bydd yn rhaid iddynt fod yn ysgrifenedig, ac ni chaniateir i bob sylw ar unrhyw fater penodol fod yn hwy na 3,000 o eiriau.

11.46 Gellir diystyru sylwadau pellach a ddaw i law ar ôl y terfyn amser penodedig, neu yr ystyrir eu bod yn flinderus neu'n wacsaw, neu'n ymwneud â deunydd ynglŷn â digolledu am gaffael tir yn orfodol neu faterion y tu hwnt i gylch gwaith yr archwiliad. Yn yr un modd, gellir diystyru sylwadau pellach sydd dros 3,000 o eiriau hefyd. Fodd bynnag, gall y person penodedig ddychwelyd y sylwadau gan ofyn am iddynt gael eu hailgyflwyno o fewn y terfyn o 3,000 o eiriau ac o fewn amserlen a bennir gan Weinidogion Cymru. Bydd y person penodedig yn penderfynu ar yr amserlen ar gyfer gwneud sylwadau pellach fesul achos unigol, yn dibynnu ar faint o wybodaeth y bydd ei hangen. Fel arall, gall y person penodedig benderfynu cynyddu'r terfyn geiriau y tu hwnt i 3,000 o eiriau os bydd o'r farn bod hynny'n angenrheidiol.

11.47 Gall y person penodedig ofyn am sylwadau pellach unrhyw bryd cyn i'r broses o archwilio cais gael ei chwblhau.

11.48 Gall Gweinidogion Cymru ddiystyru unrhyw sylw a ddaw i law yn hwyr neu mewn modd heblaw'r hyn a bennir, neu sydd dros 3,000 o eiriau.

Penodi aseswr, bargyfreithiwr, cyfreithiwr neu eiriolwr

11.49 Pan fydd yn ymddangos yn debygol y bydd natur arbenigol i dystiolaeth a roddir ynglŷn â chais, neu y bydd ar lefel o gymhlethdod sydd y tu hwnt i arbenigedd personau penodedig, gall yr awdurdod archwilio benodi un aseswr neu fwy i'w helpu.

11.50 Rhagwelir mai'r awdurdod archwilio fydd yn gofyn cwestiynau i bersonau sy'n gwneud sylwadau ar lafar mewn gwrandawiadau yn y rhan fwyaf o achosion. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd angen i'r awdurdod archwilio gael cymorth eiriolwr proffesiynol o bryd i'w gilydd, er mwyn sicrhau y caiff y dystiolaeth ei phrofi yn y ffordd fwyaf effeithiol a dadlennol. Felly, bydd modd iddo benodi bargyfreithiwr, cyfreithiwr neu eiriolwr i roi cymorth a chyngor cyfreithiol i'r awdurdod archwilio.

**Sut y caiff y broses archwilio ei chynnal**

Dyddiad, lleoliad ac amser digwyddiad

11.51 Bydd yr is-ddeddfwriaeth arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i'r person penodedig roi hysbysiad ysgrifenedig o ddyddiad, amser a lleoliad y gwrandawiad neu'r ymchwiliad i'r ceisydd, yr ACLl(au) perthnasol, unrhyw bartïon â diddordeb ac unrhyw bersonau eraill yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol o leiaf bedair wythnos ymlaen llaw. Bydd y rheoliadau'n darparu y bydd yn rhaid i ddyddiad digwyddiad cyhoeddus fod ymhen 10 wythnos ar ôl diwedd y cyfnod gwneud sylwadau fan

bellaf. Ni fydd y cyfnod hwn yn cynnwys unrhyw sylwadau ychwanegol y bydd y person penodedig yn gofyn amdanynt.

Rhoi cyhoeddusrwydd i wrandawiad neu ymchwiliad

11.52 Bydd rheoliadau'n darparu y bydd yn rhaid i'r hysbysiad sy'n hysbysebu gwrandawiad neu ymchwiliad gynnwys:

- dyddiad, amser a lleoliad y digwyddiad(au) cyhoeddus;
- y materion a gaiff eu trafod yn y digwyddiad(au) cyhoeddus;
- disgrifiad ysgrifenedig o'r tir sy'n ddigonol i ddangos ei leoliad;
- disgrifiad o'r cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y ffurflen gais;
- disgrifiad o unrhyw gydsyniadau tybiedig neu gydsyniadau a ddiddymwyd y gwneir cais amdanynt;
- manylion ble y gellir gweld y cais a dogfennau cysylltiedig.

Materion i'w hystyried

11.53 Bwriedir y bydd yn rhaid i ddigwyddiadau cyhoeddus gael eu llywyddu gan y person penodedig neu'r panel o bersonau penodedig. Bydd hefyd yn ofynnol i'r person penodedig nodi'r materion i'w hystyried mewn digwyddiad cyhoeddus ac unrhyw faterion y bydd angen iddo gael esboniad pellach ohonynt.

Cymryd rhan mewn digwyddiadau cyhoeddus

11.54 Y person penodedig fydd yn gyfrifol am arwain y gwrandawiad neu'r ymchwiliad. Bydd yn enwi'r rhai a wahoddir i gymryd rhan. Gall aelodau o'r cyhoedd arsylwi ar y digwyddiad, a gall y person penodedig reoli ymddygiad aelodau o'r cyhoedd yn y gwrandawiadau neu ymchwiliadau pwnc-benodol cyhoeddus er mwyn sicrhau na fydd neb yn tarfu ar y digwyddiad.

Galw tystiolaeth mewn gwrandawiad neu ymchwiliad

11.55 Cynigir y bydd gan unrhyw barti sydd â hawl i ymddangos a chymryd rhan mewn gwrandawiad neu ymchwiliad hawl i alw person arall i roi tystiolaeth. Cynigir hefyd, os bydd y person penodedig o'r farn ei bod yn briodol neu'n angenrheidiol, y gall hefyd ganiatáu i unrhyw berson arall alw person arall i roi tystiolaeth.

Sut y caiff gwrandawiad ei gynnal

11.56 Bydd rheoliadau'n darparu mai cyfrifoldeb y person penodedig fydd holi'r partïon sy'n bresennol yn ystod gwrandawiad. Bydd yn rhaid i unrhyw sylwadau a wneir ar lafar yn ystod gwrandawiad fod yn seiliedig ar y sylwadau ysgrifenedig a wnaed gan y person sy'n gwneud y sylwadau ar lafar neu y mae'r sylwadau ar lafar yn cael eu gwneud ar ei ran.

11.57 Os bydd person sy'n cymryd rhan mewn gwrandawiad, neu sy'n bresennol mewn gwrandawiad, yn ymddwyn mewn modd fydd yn tarfu ar y gwrandawiad ym marn y person penodedig, bydd gan y person penodedig y pŵer i fynnu bod unigolion

yn gadael y digwyddiad. Mae'n bosibl y gwrthodir caniatâd i'r unigolion hynny ddychwelyd, neu y cânt ddychwelyd ar amod yn unig.

11.58 Bydd gan y person penodedig y pŵer i ohirio gwrandawiad unrhyw bryd ac, os caiff dyddiad, lleoliad ac amser y gwrandawiad a ohiriwyd eu cyhoeddi mewn gwrandawiad a gynhelir cyn y gohiriad, ni fydd angen hysbysiad ysgrifenedig pellach.

11.59 Gall yr awdurdod archwilio fwrw ymlaen â gwrandawiad yn absenoldeb person sydd â hawl i ymddangos ynddo.

**Y weithdrefn ar gyfer ymchwiliadau pwnc-benodol**

11.60 Bydd rheoliadau'n darparu y bydd y weithdrefn ar gyfer ymchwiliadau'n debyg i wrandawiadau i raddau helaeth, ond caniateir y gallu i groesholi partïon, yn ôl disgresiwn y person penodedig. Ni fwriedir y byddai croesholi o'r fath yn digwydd ar lw.

11.61 Bydd yr is-ddeddfwriaeth arfaethedig yn cynnwys darpariaeth sy'n galluogi unrhyw berson a wahoddir i gymryd rhan yn yr ymchwiliad i groesholi partïon eraill sy'n rhoi tystiolaeth, ond bydd yn rhaid i alw tystiolaeth a chroesholi ddigwydd yn ôl disgresiwn y person penodedig.

11.62 Gall y ceisydd, yr ACLl(au) ac unrhyw berson arall a wahoddir i gymryd rhan mewn ymchwiliad alw person arall i roi tystiolaeth, ond bydd gan y person penodedig hefyd y pŵer i ganiatáu i unrhyw berson arall alw person arall i roi tystiolaeth.

**Gwrandawiadau ac ymchwiliadau rhithwir ac electronig**

11.63 Mae'r gallu i archwilio ceisiadau ar lafar drwy wrandawiad neu ymchwiliad yn hanfodol er mwyn i'r person penodedig allu mynd ati'n gyflym i archwilio ceisiadau cymhleth neu'r rhai lle mae angen tystiolaeth o dan lw, megis rhai sy'n cynnwys gorchmynion prynu gorfodol.

11.64 Bydd yr is-ddeddfwriaeth yn caniatáu i wrandawiadau pwnc-benodol ac ymchwiliadau pwnc-benodol gael eu cynnal drwy ddulliau electronig, yn lle neu'n ychwanegol at y fformat traddodiadol, sef ymddangos yn y digwyddiadau hyn wyneb yn wyneb. Arfer cyfredol Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru yw 'dulliau rhithwir yn gyntaf' ar gyfer gwrandawiadau llafar am ei fod wedi gweld eu bod yn fwy cynhwysol a hygyrch i fwy o randdeiliaid ac yn effeithlon i bawb dan sylw.

Yr ACLl yn hwyluso mynediad at archwiliadau ar-lein

11.65 Bydd rheoliadau'n darparu y caiff gwrandawiadau ac ymchwiliadau eu darlledu ar-lein, gan y byddai hyn yn gwella hygyrchedd i'r cyhoedd yn y broses archwilio. Rydym hefyd yn cynnig hwyluso mynediad i'r rhai na allant weld y digwyddiad ar-lein o bosibl. Bydd yr ACLl yn gwneud trefniadau i'r darllediad ar-lein fod ar gael i'r cyhoedd, os gofynnir am hynny.

Mynediad at dystiolaeth mewn ymchwiliad

11.66 Os cynhelir ymchwiliad lleol, mae adran 48 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl dystiolaeth lafar gael ei chlywed yn gyhoeddus ac i'r holl dystiolaeth ddogfennol fod ar gael i'r cyhoedd fwrw golwg drosti. Gall Gweinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol (“awdurdod gweinidogol”) gyfarwyddo mai dim ond personau penodol (ac nid y cyhoedd) a gaiff glywed tystiolaeth lafar a bwrw golwg dros ddogfennau. Dim ond pe na bai'n briodol datgelu tystiolaeth i'r cyhoedd oherwydd materion yn ymwneud â diogelwch gwladol neu'r mesurau a roddwyd ar waith (neu a gaiff eu rhoi ar waith) er mwyn sicrhau diogelwch unrhyw dir neu eiddo, ac y byddai datgelu gwybodaeth o'r fath i'r cyhoedd yn groes i fudd y cyhoedd y byddai hyn yn digwydd.

11.67 Rydym yn cynnig y bydd y rheoliadau'n darparu ar gyfer addasu'r darpariaethau a nodir uchod os gwneir cyfarwyddyd o'r fath er mwyn sicrhau nad effeithir ar ddiogelwch gwladol. Er enghraifft, byddai hyn yn cynnwys gwrandawiadau caeedig ar dystiolaeth benodol.

11.68 Hefyd, gall y Cwnsler Cyffredinol benodi person (“cynrychiolydd penodedig” i gynrychioli buddiannau personau a gaiff eu hatal rhag clywed neu archwilio tystiolaeth. Bwriedir i hyn sicrhau na fydd dal gwybodaeth yn ôl yn atal ystyriaeth briodol o faterion a godir gan drydydd partïon na allant weld y deunydd.

Cwestiynau

- Ai'r awdurdod archwilio sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu ar y weithdrefn ar gyfer archwiliad?

- A yw deg neu fwy o geisiadau yn nifer priodol i weithredu gofyniad i gynnal o leiaf un digwyddiad llawr agored yn ystod archwiliad? Os nad ydych yn cytuno, nodwch faint o geisiadau a fyddai'n briodol.

## Pennod 12: Penderfynu ar geisiadau a gwneud gorchmynion

12.1 Yn dilyn yr archwiliad, bydd yr awdurdod archwilio yn drafftio adroddiad. Bydd yr adroddiad hwn yn sail ar gyfer rhan nesaf y broses, gan reoli'r penderfyniad ei hun a'r broses o wneud gorchymyn.

12.2 Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaethau ynghylch pwy fydd yn penderfynu ar gais am gydsyniad seilwaith, yr hyn y bydd yn rhaid i'r penderfynwr ei ystyried wrth benderfynu ar gais, ynglŷn â'r amserlen ar gyfer gwneud y penderfyniad, ac ynglŷn â gwneud y penderfyniad a rhoi cyhoeddusrwydd iddo.

12.3 Lle y penderfynir rhoi cydsyniad, daw hyn i rym drwy orchymyn. Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaethau ynglŷn â gwneud y gorchmynion hyn, megis sut y cânt eu cyhoeddi.

Pwerau

12.4 Mae'r adrannau perthnasol o'r Ddeddf fel a ganlyn:

- *Adran 52 – Adroddiadau gan awdurdod archwilio;*
- *Adran 55 – Swyddogaeth penderfynu ar geisiadau;*
- *Adran 57 – Dyletswydd i roi sylw i faterion penodol wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau;*
- *Adran 58 – Materion y caniateir eu diystyru wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau;*
- *Adran 60 – Rhoi neu wrthod cydsyniad seilwaith;*
- *Adran 62 – Rhesymau dros benderfynu rhoi neu wrthod cydsyniad seilwaith;*
- *Adran 85 – Gorchmynion cydsyniad seilwaith: eu cyhoeddi a'r weithdrefn;*
- *Adran 94 – Hyd gorchymyn cydsyniad seilwaith;*
- *Adran 95 – Pryd y mae datblygiad yn dechrau.*

### Adroddiad

12.5 Bydd yn ofynnol i'r awdurdod archwilio lunio adroddiad ysgrifenedig i Weinidogion Cymru yn nodi ei gasgliadau ynglŷn â'r materion a godwyd a'i argymhellion ynghylch a ddylid rhoi cydsyniad ai peidio. Bydd hyn yn digwydd ar ôl i'r archwiliad ddod i ben a bydd yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud eu penderfyniad.

12.6 Gan y bydd yr amser y bydd yn ei gymryd i lunio adroddiad yn amrywio fesul achos unigol yn dibynnu ar raddfa a chymhlethdod datblygiad arfaethedig, rydym yn cynnig y bydd rheoliadau'n cadarnhau y caiff y terfyn amser ar gyfer llunio'r adroddiad ei nodi yn yr amserlen archwilio ar gyfer pob cais.

### Swyddogaeth penderfynu ar geisiadau

12.7 Mae'r Ddeddf yn galluogi naill ai'r awdurdod archwilio neu Weinidogion Cymru i benderfynu ar gais. Er mwyn sicrhau cysondeb ac eglurder yn y broses gydsynio, bydd is-ddeddfwriaeth yn pennu'r ceisiadau hynny y bydd yr awdurdod archwilio yn penderfynu arnynt ar ôl i archwiliad ddod i ben. Gweinidogion Cymru fydd yn

penderfynu ar unrhyw geisiadau na fyddant wedi'u cynnwys mewn is-ddeddfwriaeth, yn rhinwedd y math neu'r categori o ddatblygiad a bennir yn yr is-ddeddfwriaeth.

12.8 Nid ydym yn rhagweld y caiff unrhyw fathau penodol o ddatblygiadau eu pennu mewn is-ddeddfwriaeth ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'n bosibl y caiff mathau penodol o ddatblygiadau eu pennu yn y dyfodol, lle y bydd tystiolaeth mewn perthynas â phenderfynu ar fathau penodol o geisiadau a gyflwynir o dan y broses gydsynio newydd yn cadarnhau eu bod yn rhai syml ac nad oes rheswm i Weinidogion Cymru benderfynu arnynt.

**Dyletswydd i roi sylw i faterion penodol wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau**

12.9 Wrth benderfynu ar gais am gydsyniad seilwaith, bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i faterion penodol a nodir yn y Ddeddf, megis unrhyw Adroddiadau ar yr Effaith Leol neu Adroddiadau ar yr Effaith Forol ac ystyriaethau perthnasol eraill.

12.10 Oherwydd yr amrywiaeth eang o fathau o ddatblygiadau a gwmpesir gan y broses gydsynio ar gyfer seilwaith, mae adran 57(d) o'r Ddeddf yn galluogi is-ddeddfwriaeth i bennu unrhyw faterion eraill y bydd yn rhaid i'r awdurdod sy'n penderfynu hefyd roi sylw iddynt wrth benderfynu ar gais, a fydd yn benodol i fathau penodol o ddatblygiadau. Nid ydym wedi nodi unrhyw faterion a gaiff eu pennu ar hyn o bryd.

12.11 Gall Gweinidogion Cymru hefyd ddiystyru sylwadau os byddant o'r farn eu bod yn flinderus neu'n wacsaw, yn ymwneud â rhinweddau polisi a nodir mewn datganiad polisi seilwaith, Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru neu unrhyw gynllun morol, neu'n ymwneud â digolledu am gaffael tir yn orfodol neu fuddiant mewn tir neu hawl dros dir. Mae adran 58(3) o'r Ddeddf yn galluogi is-ddeddfwriaeth i ychwanegu materion at y rhestr hon neu i newid neu ddileu materion. Nid ydym wedi nodi unrhyw faterion a gaiff eu pennu ar hyn o bryd.

**Hysbysu am y penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad**

12.12 Pan fydd Gweinidogion Cymru wedi penderfynu ar gais, byddant yn hysbysu partïon penodol am eu penderfyniad, ac yn rhoi rhesymau dros y penderfyniad hwn.

12.13 Caiff yr hysbysiad o'r penderfyniad a'r rhesymau cysylltiedig eu rhoi i'r ceisydd, unrhyw awdurdod cynllunio neu gyngor cymuned a fydd wedi cyflwyno Adroddiad ar yr Effaith Leol, CNC os bydd wedi cyflwyno Adroddiad Effaith ar y Môr ac unrhyw berson neu bersonau sy'n cyfateb i ddisgrifiad a bennir mewn rheoliadau. Rydym yn cynnig y bydd y rheoliadau'n nodi unrhyw bersonau ychwanegol y bydd Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn briodol eu hysbysu.

**Gwneud gorchymyn**

12.14 Bydd yn rhaid i gais ar gyfer prosiect seilwaith arwyddocaol, ymhlith dogfennau eraill, gynnwys drafft o'r gorchymyn cydsyniad seilwaith, ynghyd â memorandwm esboniadol. Mae'r drafft yn ddogfen allweddol yn y cais, a bydd y gorchymyn arfaethedig, ymhlith materion eraill, yn cael ei ystyried wrth benderfynu ar gais.

12.15 Gall Gweinidogion Cymru ddiwygio'r gorchymyn drafft os bwriedir rhoi cydsyniad. Y gorchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru yw'r brif ddogfen sy'n nodi'r paramedrau ar gyfer yr hyn a ganiateir os rhoddir cydsyniad (a thrwy oblygiad pa agweddau eraill ar gynnig nas caniateir ac y gall fod angen cydsyniad pellach ar eu cyfer).

Hyd gorchymyn cydsyniad seilwaith

12.16 Mae adran 94 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r datblygiad y rhoddir cydsyniad seilwaith ar ei gyfer ddechrau cyn diwedd cyfnod a bennir mewn rheoliadau. Os na fydd y datblygiad wedi'i ddechrau cyn diwedd y cyfnod penodedig, ni fydd y cydsyniad seilwaith yn cael effaith mwyach ar ddiwedd y cyfnod hwnnw.

12.17 Rhagwelir y bydd uchafswm cyfnod o bum mlynedd i ddatblygiad ddechrau yn cael ei ragnodi mewn rheoliadau, yn unol â'r gyfundrefn ar gyfer datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol. Er mwyn sicrhau y caiff seilwaith ei gyflenwi'n amserol, ar gyfer datblygiad yr ystyrir ei fod yn dderbyniol, bydd Gweinidogion Cymru yn cynnal trafodaethau gyda'r ceisydd er mwyn ei annog i ddechrau'r datblygiad cyn gynted â phosibl. Gall Gweinidogion Cymru bennu cyfnod byrrach ar gyfer dechrau'r datblygiad yn y gorchymyn sy'n rhoi cydsyniad, os bydd hyn yn ddymunol ac yn ymarferol ar gyfer y datblygiad unigol.

12.18 Nid oes gofyniad i'r cyfnod ar gyfer dechrau'r datblygiad gael ei nodi yn y gorchymyn. Os nodir y cyfnod yn y gorchymyn a'i fod yn wahanol i'r hyn a nodir mewn rheoliadau, y cyfnod a nodir yn y gorchymyn fydd yn berthnasol.

Pryd mae datblygiad yn dechrau

12.19 At ddibenion y cyfnod pum mlynedd, ystyrir y bydd datblygiad wedi dechrau ar y dyddiad cynharaf pan fydd unrhyw weithrediad perthnasol sydd wedi'i gynnwys yn y datblygiad, neu a wneir at ddibenion y datblygiad, yn dechrau cael ei gynnal. O dan adran 95 o’r Ddeddf, gall Gweinidogion Cymru eithrio gweithrediadau penodol o'r diffiniad o weithrediad perthnasol. Ar hyn o bryd, nid ydym yn cynnig pennu unrhyw faterion.

Gwneud gorchymyn yn sylweddol wahanol

12.20 Os bydd Gweinidogion Cymru yn bwriadu caniatáu cais am gydsyniad seilwaith, bydd yn rhaid iddynt wneud gorchymyn. Fodd bynnag, cydnabyddir y gall fod angen gwneud diwygiadau i'r gorchymyn o gymharu â'r hyn y gwnaed cais amdano. Mae'r Ddeddf yn rhoi'r gallu i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn cydsyniad seilwaith ar delerau sy'n sylweddol wahanol i'r rhai a gynigir yn y cais.

O dan amgylchiadau o'r fath, caiff unrhyw weithdrefn angenrheidiol ei nodi mewn is-ddeddfwriaeth.

12.21 Byddem yn disgwyl na fyddai'r mwyafrif o addasiadau'n gwneud unrhyw newid sylweddol i gynigion. Felly, os bydd Gweinidogion Cymru o'r farn bod hyn yn wir, nid ydym yn cynnig gweithdrefn ffurfiol.

12.22 Os bydd Gweinidogion Cymru yn cynnig newid mwy sylweddol, bydd yn rhaid iddynt ymgynghori â'r personau canlynol:

- Y ceisydd;
- Os bydd y newidiadau'n ymwneud â chydsyniad tybiedig neu gydsyniad a ddiddymwyd, y corff fydd yn gyfrifol am y cydsyniad;
- Unrhyw berson arall y maent o'r farn ei fod yn briodol.

12.23 Rhaid i'r ymgynghoriad nodi'r newid arfaethedig a'r rhesymau dros y newid. Ni chaniateir iddynt wneud y gorchymyn cyn i 21 diwrnod fynd heibio ar ôl yr ymgynghoriad. Bydd hyn yn galluogi'r ymgyngoreion i ymateb i'r diwygiadau arfaethedig.

12.24 Ni all Gweinidogion Cymru wneud gorchymyn sy'n fwy nag ychydig yn sylweddol wahanol i'r hyn y gwnaed cais amdano yn wreiddiol mewn cais am gydsyniad seilwaith. Bydd canllawiau'n nodi y bydd hyn yn cynnwys diwygiadau sy'n debygol o wneud y canlynol:

- newid hawliau dros dir (h.y. caffael tir yn orfodol);
- golygu bod angen gwneud newidiadau i Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol;
- arwain at yr angen am Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ychwanegol; neu
- golygu bod angen trwydded ychwanegol ar gyfer Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop.

12.25 O dan amgylchiadau o'r fath, bydd angen gwrthod y cais.

<u>Cyhoeddi</u>

12.26 Mae adran 85 o'r Ddeddf yn gosod y gofynion cyhoeddi sylfaenol ar gyfer gorchymyn sydd wedi'i gynnwys mewn offeryn statudol. Ar gyfer gorchmynion eraill, rhaid iddynt gael eu cyhoeddi mewn modd sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru. Rydym yn rhagweld y cânt eu cyhoeddi mewn cyfuniad o hysbysiadau ysgrifenedig, a'u cyhoeddi ar wefan sy'n eiddo i Weinidogion Cymru ac sy'n cael ei chynnal ganddynt.

<u>Cwestiynau</u>

- Yn ychwanegol at y rhai a bennwyd yn adran 60(2) a 62(3) o'r Ddeddf, pwy ddylai Gweinidogion Cymru eu hysbysu am benderfyniad ynglŷn â chydsyniad seilwaith a'r rhesymau dros y penderfyniad?

**Pennod 13: Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol**

13.1 Bwriedir i weithdrefn yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol gynnig gwarchodaeth amgylcheddol a thryloywder mewn perthynas â'r broses gwneud penderfyniadau ar gyfer prosiectau. Mae'n sicrhau y caiff pryderon amgylcheddol eu hystyried o gychwyn cyntaf prosiectau adeiladu newydd neu brosiectau datblygu, neu newidiadau neu estyniadau iddynt, yn ogystal â bod yn gyfle i ymgysylltu â'r cyhoedd.

13.2 Bydd y dull polisi ar gyfer y ffordd y caiff effeithiau amgylcheddol eu hasesu yn debygol o newid dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, i Adroddiadau Canlyniadau Amgylcheddol. Fodd bynnag, bydd y trefniadau presennol ar gyfer Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol yn parhau i fod ar waith am y tro.

13.3 Bydd y prosesau a'r angen i gynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn aros yr un fath. Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017 fydd yn llywodraethu ceisiadau am gydsyniad seilwaith ar dir. Rheoliadau Gwaith Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2007 fydd yn llywodraethu ceisiadau am gydsyniad seilwaith yn ardal forol Cymru.

13.4 Gan y bydd y ddwy broses ar gyfer Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol yn parhau i fod ar waith, bydd hyn yn golygu y bydd y cyfundrefnau ar wahân ar gyfer Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol yn berthnasol os bydd datblygiad arfaethedig wedi'i leoli ar dir ac yn y môr. Rydym yn rhagweld mai dim ond i nifer bach o geisiadau y bydd hyn yn berthnasol.

13.5 Gan na fydd y prosesau ar gyfer Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol yn newid erbyn i'r Ddeddf gael ei gweithredu, rhagwelir y gall ceisyddion barhau i baratoi Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer datblygiadau arfaethedig. Mae rhagor o wybodaeth am drosglwyddo gwaith o un gyfundrefn i'r llall i'w gweld yn y bennod ar ddarpariaethau trosiannol.

13.6 Caiff rhagor o fanylion am y prosesau ar gyfer Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol, gan gynnwys sgrinio a phennu cwmpas, eu nodi mewn canllawiau.

Cwestiynau

- A oes gennych unrhyw awgrymiadau ynglŷn â sut i gysoni prosesau presennol Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol â'r Ddeddf Seilwaith?

## Pennod 14: Ar ôl y penderfyniad

14.1 Fel arfer, ni fydd y broses ar gyfer cydsyniad seilwaith yn dod i ben pan fydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu rhoi cydsyniad. Fel yn achos unrhyw ganiatâd, bydd cyfrifoldebau i fodloni gofynion a phosibilrwydd o ddiwygiadau i'r prosiect a gafodd gydsyniad.

14.2 Pan fydd penderfyniad ar gais am gydsyniad seilwaith wedi cael ei wneud, mae'n bosibl y bydd achosion pan ddeuir o hyd i wall yn y cydsyniad. Gall y rhain gael eu canfod gan y ceisydd wrth fwrw golwg dros ei gydsyniad, gan Weinidogion Cymru, y person penodedig, neu bartïon eraill sydd â diddordeb yn y penderfyniad. Dylai gwallau o'r fath gael eu cywiro at ddibenion eglurder.

14.3 Mae defnyddio amodau a galluogi diwygiadau i gydsyniadau yn ffordd o sicrhau bod y broses gydsynio ar gyfer seilwaith yn gweithredu'n effeithlon. Gall cyflawni amodau helpu i gyflymu'r broses gydsynio, drwy dynnu mân faterion o'r brif drafodaeth. Yn bwysig ddigon, maent yn sicrhau bod y cydsyniad yn gyflawnadwy ac yn gyson er mwyn sicrhau y caiff y gwaith o adeiladu a gweithredu'r datblygiad ei reoli a'i liniaru'n ddigonol.

14.4 Mae'r broses ar gyfer gorchymyn yn cydnabod y gall prosiectau newid yn ystod y cam dylunio ac adeiladu terfynol. Gall hyn ddigwydd drwy baramedrau dylunio y cytunir arnynt ac a nodir yn y gorchymyn. Fodd bynnag, os na fydd newid wedi'i nodi yn y gorchymyn, bydd proses gwneud cais i wneud diwygiad ffurfiol i'r gorchymyn naill ai cyn i brosiect ddechrau cael ei adeiladu neu yn ystod y broses adeiladu yn galluogi'r datblygiad i ymateb i ffactorau eraill. Gan fod y broses ar gyfer gorchymyn wedi'i dylunio i gwmpasu mwy nag un cydsyniad, bydd hyn yn cynnwys darpariaeth a wneir yn y gorchymyn o dan adran 84 i ddiddymu neu dybio cydsyniad arall.

<u>Pwerau</u>

14.5 Mae adrannau perthnasol y Ddeddf fel a ganlyn:

- *Adran 87 – Pŵer i gywiro gwallau mewn dogfennau penderfyniad;*
- *Adran 88 – Cywiro gwallau: rheoliadau;*
- *Adran 63 – Yr hyn y caniateir ei gynnwys mewn gorchymyn cydsyniad seilwaith;*
- *Adran 90 – Pŵer i newid neu ddirymu gorchmynion cydsyniad seilwaith;*
- *Atodlen 1 (a gyflwynir gan adran 63) – Darpariaeth sy’n ymwneud â datblygiad neu faterion sy’n atodol iddo.*

### Cywiro gwallau

<u>Beth a ystyrir yn wallau?</u>

14.6 At ddibenion pennu'r hyn sy'n gyfystyr â gwall cywiradwy a'r weithdrefn sy'n dilyn, rydym yn cynnig mai gwallau neu hepgoriadau sydd wedi'u cyfyngu i'r rhan o'r ddogfen penderfyniad sy'n cofnodi'r penderfyniad ac nad ydynt yn rhan o'r datganiad o'r rhesymau dros benderfyniad fydd y rhain.

Cywiro gwallau ansylweddol: yn unochrog

14.7 Os bydd Gweinidogion Cymru neu'r awdurdod archwilio yn darganfod gwall neu hepgoriad mewn dogfen penderfyniad, gall Gweinidogion Cymru ei gywiro'n unochrog.

14.8 Os na chredir bod y gwall neu'r hepgoriad yn sylweddol, er enghraifft cyfeirnod cais anghywir, a bod Gweinidogion Cymru yn bwriadu ei gywiro, bydd rheoliadau'n darparu y bydd yn ofynnol iddynt roi hysbysiad ysgrifenedig yn nodi'r cywiriad ar gyfer y gwall neu'r hepgoriad i'r canlynol:

- Y ceisydd;
- Pob ACLl perthnasol;
- Pob cyngor cymuned perthnasol (os oes un wedi'i sefydlu);
- CNC (os yw'n berthnasol);
- Unrhyw bersonau eraill y bydd Gweinidogion Cymru o'r farn eu bod yn briodol.

14.9 Rhaid i'r hysbysiad ysgrifenedig gael ei roi cyn gynted â phosibl ar ôl i'r cywiriad gael ei wneud, a hefyd ei gyhoeddi ar wefan sy'n eiddo i Weinidogion Cymru ac yn cael ei gynnal ganddynt.

Cywiro gwallau ansylweddol; hysbysiad gan geisyddion neu unrhyw berson arall

14.10 Yn ogystal â'r gallu i Weinidogion Cymru gywiro gwall neu hepgoriad yn unochrog, rydym hefyd yn cynnig cyflwyno'r gallu i geisyddion, neu unrhyw berson arall a ddaw o hyd i wall neu hepgoriad, roi hysbysiad ysgrifenedig i Weinidogion Cymru i'w gywiro. Rhaid i'r hysbysiad gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Cyfeirnod y cais;
- Manylion y gwall neu hepgoriad sydd wedi'i ddarganfod;
- Sut y dylid cywiro'r gwall neu'r hepgoriad.

14.11 Ar ôl cael yr hysbysiad ysgrifenedig, bydd Gweinidogion Cymru yn dilyn yr un weithdrefn ag a nodir uchod ym mharagraffau 14.7 – 14.9. Fodd bynnag, yn ogystal â'r partïon hynny y bydd yn rhaid rhoi hysbysiad cywiro iddynt, a nodir ym mharagraff 14.8, bydd yn rhaid rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r person a gyflwynodd y cais i gywiro gwall neu hepgoriad hefyd, pe na bai'r person hwnnw'n cael ei hysbysu fel arall drwy'r rhestr benodedig ar gyfer diwygiad unochrog.

14.12 Ar ben hynny, ni fydd yn rhaid i Weinidogion Cymru gywiro'r gwall neu'r hepgoriad os nad oes gwall na hepgoriad yn eu barn nhw.

14.13 O dan amgylchiadau o'r fath, bydd yn rhaid i'r hysbysiad ysgrifenedig mewn ymateb i'r cais roi gwybod am y penderfyniad i beidio â chywiro'r gwall neu'r hepgoriad, ynghyd â'r rhesymau pam, a bydd yn rhaid iddo hefyd gael ei gyhoeddi ar wefan sy'n eiddo i Weinidogion Cymru ac yn cael ei gynnal ganddynt.

Gwallau neu hepgoriadau yr ystyrir eu bod yn sylweddol

14.14 Os caiff gwall neu hepgoriad ei ddarganfod gan Weinidogion Cymru neu'r awdurdod archwilio, neu yn dilyn hysbysiad ysgrifenedig gan geisydd neu unrhyw berson arall, ac os bydd Gweinidogion Cymru o'r farn ei fod yn sylweddol, cynigir proses fanylach.

14.15 O dan yr amgylchiadau hyn, bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru ysgrifennu at y canlynol:

- Y ceisydd;
- Y person a gyflwynodd gais i gywiro gwall neu hepgoriad (os bydd yn berthnasol ac yn wahanol i'r ceisydd);
- Pob ACLl perthnasol;
- Pob cyngor cymuned perthnasol (os oes un wedi'i sefydlu);
- CNC (os yw'n berthnasol);
- Unrhyw bersonau eraill y bydd Gweinidogion Cymru o'r farn eu bod yn briodol.

14.16 Diben hyn yw i Weinidogion Cymru hysbysu partïon â diddordeb bod gwall neu hepgoriad y maent yn bwriadu ei gywiro, rhoi rhestr neu atodlen o'r cywiriadau a gynigir ac esbonio'r rheswm/rhesymau dros y cywiriad.

14.17 Bydd gan y personau hynny a gaiff yr hysbysiad hwn o leiaf 14 diwrnod i ymateb i'r cywiriad(au) arfaethedig, ond gall Gweinidogion Cymru ganiatáu cyfnod hwy ar gyfer gwneud sylwadau os byddant o'r farn bod hynny'n angenrheidiol neu'n briodol.

14.18 Ar ôl i'r cyfnod gwneud sylwadau ddod i ben, bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru benderfynu a ddylid cywiro'r gwall neu'r hepgoriad. Bydd yn rhaid rhoi hysbysiad ysgrifenedig o'r penderfyniad i'r personau hynny a nodir ym mharagraff 14.15 cyn gynted â phosibl.

14.19 Bydd yn rhaid i'r penderfyniad gael ei gyhoeddi ar wefan sy'n eiddo i Weinidogion Cymru ac sy'n cael ei chynnal ganddynt.

Effaith cywiriad

14.20 Os bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud cywiriad, nid ydym yn cynnig disodli'r ddogfen penderfyniad (boed yn orchymyn neu'n offeryn statudol) ac anfon un wedi'i chywiro yn ei lle. Ein bwriad yw y caiff cywiriadau eu nodi mewn gorchymyn neu offeryn statudol, yn dibynnu ar y ffordd y cafodd y penderfyniad gwreiddiol ei roi, sy'n diwygio'r penderfyniad gwreiddiol ac y dylid ei ddarllen ochr yn ochr ag ef.

14.21 Fodd bynnag, os bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu na ddylid cywiro gwall neu hepgoriad, bydd y penderfyniad gwreiddiol yn parhau i gael grym ac effaith lawn ac ni fydd camau a gymerwyd mewn perthynas â'r gwall neu'r hepgoriad arfaethedig yn effeithio ar y penderfyniad gwreiddiol.

Pryd y bydd cywiriad yn cael effaith

14.22 Rydym yn cynnig y bydd unrhyw gywiriad a wneir gan Weinidogion Cymru yn cael effaith o'r dyddiad y caiff hysbysiad cywiro ei roi neu, os bydd yn ofynnol i'r cywiriad gael ei wneud drwy orchymyn mewn offeryn statudol, o'r dyddiad a nodir yn y gorchymyn.

**Cyflawni amodau**

14.23 Yr awdurdod perthnasol a bennir yn y gorchymyn fydd yn cyflawni amodau sy'n gysylltiedig â'r cydsyniad seilwaith. Yn y rhan fwyaf o achosion, yr awdurdod perthnasol a fyddai fel arfer yn gyfrifol am y cydsyniad nad yw'n ofynnol mwyach o ganlyniad i adran 20, neu a ddiddymwyd neu a dybiwyd o dan adran 84, fydd hwn. Fodd bynnag, lle y bo'n briodol, gall y cydsyniad seilwaith bennu awdurdod gwahanol, er enghraifft os bydd materion cydsynio'n gorgyffwrdd, neu oherwydd materion yn ymwneud â ffiniau.

14.24 Pan fydd amod i'w gyflawni, nid ydym yn cynnig ei gwneud yn ofynnol ymgynghori ag aelodau o'r cyhoedd, deiliaid tai na chynghorau cymuned, na rhoi cyhoeddusrwydd i hysbysiadau ar y cais arfaethedig er mwyn cyflawni amod. Er nad oes rhwymedigaeth, gall yr awdurdod perthnasol hysbysu unrhyw berson y cred ei fod yn berthnasol os bydd o'r farn y byddai hynny'n fuddiol i'r broses gydsynio.

14.25 Rydym yn cynnig y bydd rheoliadau'n darparu y dylai'r cydsyniad seilwaith nodi pwy yw'r ymgyngoreion statudol ar gyfer pob gofyniad, megis yr ACLl neu CNC. Bydd y cyrff hyn yn cael 21 diwrnod i ymateb. Os bydd unrhyw bersonau eraill, fel cynghorau cymuned neu aelodau o'r cyhoedd, yn dewis gwneud sylwadau, bydd croeso iddynt wneud hynny.

14.26 Bydd yr awdurdod cyflawni yn rhoi sylw i unrhyw sylwadau sy'n berthnasol i'r cynnig. Ni fydd angen i unrhyw sylwadau cyhoeddus ddod i law er mwyn i'r corff gyflawni'r ddogfen gofynion a fydd wedi cael ei chyflwyno iddo. Cynigir y bydd y cydsyniad seilwaith hefyd yn pennu cyfnod ar gyfer gwneud penderfyniad. Disgwylir y byddai hyn yn seiliedig ar gymhlethdod yr amod, ond na fyddai'n hwy nag wyth wythnos. Gall y cydsyniad seilwaith hefyd bennu “cymal tybio” sy'n datgan, os na fydd yr Awdurdod Cyflawni wedi gwneud penderfyniad o fewn y cyfnod penodedig, y tybir yn awtomatig fod y ddogfen a gyflwynwyd wedi'i chymeradwyo.

**Cais i newid cydsyniad seilwaith**

14.27 Mae natur prosiectau seilwaith arwyddocaol yn golygu ei bod yn bosibl y bydd angen gwneud newidiadau i'r prosiect, naill ai cyn i gam adeiladu'r prosiect ddechrau neu yn ystod y broses adeiladu. Os na fydd newidiadau o'r fath o fewn paramedrau'r Gorchymyn Cydsyniad sydd wedi'i ganiatáu ar gyfer y prosiect, caiff Gweinidogion Cymru wneud diwygiad yn unochrog, neu bydd angen gwneud cais i wneud newid ffurfiol i'r Gorchymyn.[2]

[2] Mae adran 90(3) o'r Ddeddf yn pennu pwy all wneud cais i ddiwygio cydsyniad seilwaith.

*Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud diwygiadau i orchmynion cydsyniad seilwaith yn unochrog*

14.28 Mae adran 90 o'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio gorchymyn cydsyniad seilwaith yn unochrog.

14.29 Pan fydd Gweinidogion Cymru yn bwriadu defnyddio'r pŵer hwn, credwn ei bod yn hanfodol eu bod yn gwneud hynny mewn ffordd agored a thryloyw. Felly, bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru anfon hysbysiad ysgrifenedig o'u bwriad i ddiwygio cydsyniad seilwaith at y canlynol:

- Y ceisydd gwreiddiol (neu olynydd yn y teitl);
- Unrhyw berson sydd â buddiant yn y tir y mae cydsyniad seilwaith yn ymwneud ag ef;
- Unrhyw berson y mae'r cydsyniad seilwaith yn cael effaith er ei fudd;
- Yr ACLl(au) y mae'r datblygiad wedi'i leoli ynddi/ynddynt;
- CNC (ar gyfer cydsyniadau seilwaith yn ardal forol Cymru).

14.30 Bydd yn ofynnol i'r cyfryw hysbysiad gynnwys yr wybodaeth ganlynol a chael ei hategu gan y canlynol:

- Copi o'r gorchymyn arfaethedig;
- Unrhyw ddogfennau neu gynlluniau a ystyrir yn angenrheidiol i gefnogi'r gorchymyn;
- Datganiad ynghylch a yw'r gorchymyn arfaethedig yn cynnwys datblygu Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol;
- Rhif cyfeirnod y cydsyniad seilwaith;
- Datganiad yn cadarnhau lle y bydd copi o'r gorchymyn arfaethedig ac unrhyw ddogfennau neu gynlluniau ar gael i'w harchwilio (gan gynnwys cyfeiriad / cyfeiriad gwe a'r amseroedd);
- Y dyddiad olaf y gellir gweld gorchymyn arfaethedig ac unrhyw ddogfennau neu gynlluniau, na chaniateir iddo fod yn gynharach na chyfnod o 28 diwrnod yn dechrau ar y dyddiad y bydd person yn cael hysbysiad;
- Manylion sut y gellir gwneud sylwadau;
- Y dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid i sylwadau ddod i law (heb fod yn gynharach na 28 diwrnod o'r dyddiad y bydd person yn cael hysbysiad).

14.31 Yn debyg i'r weithdrefn ar gyfer Gorchmynion Cydsyniad Datblygu yn Neddf Cynllunio 2008, nid ydym yn bwriadu cyflwyno unrhyw ofyniad gorfodol ar gyfer yr archwiliad ffurfiol i ddiwygio cydsyniad seilwaith ar ôl i'r cyfnod sylwadau ddod i ben. Yn hytrach, caiff Gweinidogion Cymru fynd yn eu blaen yn syth at benderfyniad a hysbysu personau perthnasol am eu penderfyniad.

*Ceisiadau i ddiwygio gorchymyn cydsyniad seilwaith*

14.32 Bydd newidiadau i gydsyniad seilwaith yn cael gwahanol lefelau o effaith, a gaiff eu hystyried yn newidiadau helaeth, sylweddol neu ansylweddol. Nid oes diffiniad

o'r rhain ac, o ystyried yr amrywiaeth o brosiectau seilwaith a gaiff eu cydsynio drwy'r Ddeddf, a'r amrywiaeth o newidiadau a allai gael eu cynnig ar gyfer prosiect unigol o bosibl, nid oes modd rhagnodi a fyddai unrhyw fathau penodol o newid yn helaeth, yn sylweddol neu'n ansylweddol. Mae'n anochel y bydd penderfyniadau o'r fath yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos penodol.

14.33 Yn gyffredinol, mae'n debygol y bydd diwygiadau nad ydynt yn golygu y bydd angen gwneud newidiadau i ddatganiad amgylcheddol neu Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd nac y bydd angen trwydded newydd neu ychwanegol mewn perthynas â Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop yn rhai ansylweddol. Hefyd, mae'n debygol y bydd newidiadau i awdurdodi caffael yn orfodol unrhyw dir, neu fuddiant mewn tir neu hawliau dros dir, nas awdurdodwyd drwy'r cydsyniad cyfredol, yn newidiadau sylweddol.

14.34 Bydd newid helaeth yn fwy tebygol mewn achosion lle y byddai'r newid arfaethedig ei hun yn gyfystyr â phrosiect seilwaith arwyddocaol, neu lle y byddai'r datblygiad ar ei newydd wedd yn gyfystyr â math gwahanol o brosiect seilwaith i'r un sydd eisoes wedi cael cydsyniad. Mae'n bosibl y bydd effaith gronnol newidiadau blaenorol a wnaed i'r cydsyniad seilwaith hefyd yn berthnasol wrth ystyried a ddylai cais pellach am newid gael ei drin fel prosiect newydd.

14.35 Oherwydd lefelau amrywiol effaith ac er mwyn sicrhau bod unrhyw weithdrefn sy'n gysylltiedig â diwygio gorchymyn cydsyniad seilwaith yn gymesur, rydym yn cynnig gweithdrefnau ar wahân ar gyfer diwygiadau sy'n ansylweddol a'r rhai sy'n fwy nag ansylweddol.

*Hysbysiad*

14.36 Er mwyn cynorthwyo Gweinidogion Cymru i ragweld a fydd unrhyw geisiadau yn cael eu cyflwyno iddynt sy'n cynnig diwygiad(au) i gydsyniad seilwaith, bydd yn ofynnol i geisyddion roi hysbysiad ysgrifenedig i Weinidogion Cymru o'u bwriad i gyflwyno cais i ddiwygio cydsyniad seilwaith. Bydd yn rhaid i'r hysbysiad gynnwys yr wybodaeth ganlynol (o leiaf):

- Cyfeirnod unigryw cydsyniad seilwaith (a roddir ar adeg rhoi cydsyniad);
- Disgrifiad cryno o'r newid(iadau) arfaethedig;
- Datganiad yn cadarnhau a yw'r newid, ym marn y ceisydd, yn ansylweddol neu'n fwy nag ansylweddol;
- Datganiad yn cadarnhau y caiff cais ffurfiol ei gyflwyno o fewn chwe mis i ddyddiad cyflwyno'r hysbysiad;
- Unrhyw wybodaeth arall sy'n briodol ym marn y ceisydd.

14.37 Ar ôl cael eu hysbysu, bydd gan Weinidogion Cymru gyfnod o hyd at 10 diwrnod gwaith i benderfynu a yw'r diwygiad arfaethedig yn ansylweddol neu'n sylweddol yn eu barn nhw a rhoi cadarnhad ysgrifenedig o hyn i'r ceisydd.

14.38 Bydd y cadarnhad hwn yn ddilys am gyfnod o chwe mis ac ni fydd Gweinidogion Cymru yn derbyn unrhyw gais sy'n dod i law ar ôl y cyfnod hwn.

*Ymgynghoriad a chyhoeddusrwydd cyn gwneud cais*

14.39 Ar ôl iddynt hysbysu Gweinidogion Cymru, rydym yn cynnig y bydd yn ofynnol i geisyddion ymgynghori â chymunedau lleol a rhanddeiliaid perthnasol ar eu diwygiad(au) arfaethedig i gydsyniad seilwaith a all fod yn meddu ar rywfaint o arbenigedd mewn maes penodol. Dim ond i ddiwygiadau arfaethedig y mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu eu bod yn fwy nag ansylweddol y bydd hyn yn gymwys. Ni fydd unrhyw ddiwygiadau ansylweddol yn ddarostyngedig i ofynion ymgynghori a chyhoeddusrwydd cyn gwneud cais. Bydd yn ofynnol i geisyddion ymgynghori â'r canlynol (o leiaf):

- Yr ACLl(au) y mae'r safle wedi'i leoli ynddi/ynddynt;
- Cynghorau cymuned y mae'r safle wedi'i leoli ynddynt (os oes un bodoli);
- CNC, os yw'r datblygiad yn ardal forol Cymru;
- Ymgyngoreion statudol;
- pob Aelod o'r Senedd a Thŷ'r Cyffredin sy'n cynrychioli ardal y mae'r datblygiad arfaethedig wedi'i leoli ynddi.

14.40 Os bydd ceisyddion o'r farn nad oes angen ymgynghori ag unrhyw berson(au) a nodir, gallant ysgrifennu at Weinidogion Cymru neu'r awdurdod archwilio yn gofyn am eu caniatâd i eithrio'r person hwn/y personau hyn os byddant o'r farn na fyddai eu diwygiad(au) arfaethedig yn effeithio arno/arnynt, gan gynnwys rhesymau dros hynny.

14.41 Bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru roi ymateb ysgrifenedig i gais o fewn pedair wythnos yn dechrau ar y dyddiad y daw cais i eithrio person(au) penodol i law.

14.42 Ar y cam hwn, rydym hefyd yn cynnig bod yn rhaid i geisyddion fodloni gofynion cyhoeddusrwydd a hysbysu ychwanegol er mwyn helpu i roi cyhoeddusrwydd i'r diwygiadau arfaethedig. Rydym yn rhagweld y bydd y rhain yn dilyn y gofynion a bennwyd yn ystod y cam gwneud cais (gweler paragraffau 8.28 – 8.42 o'r ymgynghoriad hwn)

14.43 Bydd yn rhaid i ymatebion i'r ymgynghoriad gael eu cyflwyno'n ysgrifenedig i'r ceisydd erbyn y dyddiad a nodir ar yr hysbysiad safle, mewn cyhoeddiadau ac ar unrhyw hysbysiadau ysgrifenedig. Bydd y dyddiad hwn o leiaf bedair wythnos ar ôl y dyddiad cyhoeddi.

*Cais*

14.44 Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben (pan ystyrir bod diwygiad yn fwy nag ansylweddol), bydd ceisyddion yn gwneud cais ffurfiol i Weinidogion Cymru. Bydd yn rhaid i'r cais hwn gael ei gyflwyno cyn diwedd y cyfnod o chwe mis, neu gyfnod arall y cytunwyd arno'n ysgrifenedig, yn dechrau ar ddyddiad cyflwyno'r hysbysiad o ddiwygiad(au) arfaethedig i'r person penodedig.

14.45 Rhaid i geisiadau gynnwys yr wybodaeth ganlynol (o leiaf):

- Enw a chyfeiriad y darpar geisydd;
- Enw a chyfeiriad yr asiant (os bydd un wedi'i benodi);

- Cyfeirnod y cydsyniad seilwaith gwreiddiol a roddwyd;
- Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (os byddant yn ofynnol);
- Disgrifiad manwl o'r newid y gwneir cais amdano.

14.46 Ynghyd â'u cais, bydd yn ofynnol i geisyddion gyflwyno'r canlynol:

- Yr holl ymatebion a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori;
- Unrhyw ddogfennau neu gynlluniau y credir eu bod yn angenrheidiol i ategu cais, wedi'u lluniadu wrth raddfa a nodwyd;
- Unrhyw ffi berthnasol;
- Cadarnhad p'un a yw'r cais, ym marn y ceisydd, yn ansylweddol neu'n fwy nag ansylweddol.

*Dilysu*

14.47 Pan gaiff cais, ynghyd â'r dogfennau ategol a'r ffi, eu cyflwyno i'r person penodedig, bydd yn ofynnol iddo benderfynu p'un a yw'n ddilys ai peidio o fewn pythefnos ar ôl i'r cais gael ei gyflwyno, neu o fewn unrhyw gyfnod hwy y bydd Gweinidogion Cymru neu'r person penodedig yn hysbysu'r ceisydd amdano. Os penderfynir bod cais yn ddilys, ni fydd hyn yn gyfystyr ag asesiad o ba mor sylweddol yw'r diwygiad y gwneir cais amdano.

14.48 Fodd bynnag, os bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried cais i newid cydsyniad seilwaith, gallant wrthod ystyried y cais os byddant o'r farn y byddai'n briodol i'r datblygiad a fyddai'n cael ei awdurdodi o ganlyniad i'r newid fod yn destun cais newydd am gydsyniad seilwaith.

14.49 Bydd Gweinidogion Cymru yn ysgrifennu at y ceisydd i'w hysbysu am y penderfyniad hwn.

*Gofynion cyhoeddusrwydd a hysbysu*

14.50 Pan fydd cais i ddiwygio cydsyniad seilwaith wedi cael ei dderbyn gan Weinidogion Cymru ar ôl ei ddilysu, bydd rhai gofynion cyhoeddusrwydd a hysbysu. Rydym yn rhagweld y bydd y rhain yn dilyn y gofynion a bennwyd yn ystod y cam gwneud cais (gweler paragraffau 8.28 – 8.42 o'r ymgynghoriad hwn).

*Diwygiad ansylweddol*

14.51 Os ystyrir bod diwygiad(au) yn ansylweddol, bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried yr wybodaeth a roddwyd, ynghyd ag unrhyw sylwadau a gafwyd, ac yn nodi a fydd angen cael gwybodaeth ychwanegol gan y ceisydd neu gan ymgynghorai. Os bydd angen gwybodaeth ychwanegol, y terfyn amser ar gyfer ei chyflwyno fydd 21 diwrnod.

14.52 Er mwyn sicrhau proses gyflymach a symlach, nid ydym yn bwriadu i'r diwygiadau arfaethedig sy'n rhai ansylweddol ym marn Gweinidogion Cymru fod yn ddarostyngedig i archwiliad ac, felly, gellir mynd yn syth i benderfyniad ynghylch p'un a ddylid caniatáu'r diwygiad ai peidio.

*Diwygiad sylweddol*

14.53 Os bydd Gweinidogion Cymru neu'r person penodedig yn penderfynu bod cais am ddiwygiad(au) arfaethedig yn fwy nag ansylweddol a bod angen craffu ymhellach arno, bydd yr awdurdod archwilio yn cynnal archwiliad. Bydd hyn naill ai drwy sylwadau ysgrifenedig neu wrandawiad. Oherwydd natur ddisgwyliedig diwygiadau sylweddol, nid ydym yn disgwyl i geisiadau o'r fath fod yn gynhennus ac rydym yn rhagweld y bydd y mwyafrif yn mynd rhagddynt heb fod angen gwrandawiad. Ni chynigir y dylid cynnal gwrandawiad llawr agored ar gyfer cais i newid cydsyniad.

14.54 Yn dilyn canlyniad yr archwiliad, caiff y cais ei broses mewn ffordd debyg i gais am gydsyniad seilwaith, gyda'r awdurdod archwilio'n paratoi adroddiad a Gweinidogion Cymru yn gwneud penderfyniad, a fydd yn cael cyhoeddusrwydd ac yn cael ei hysbysu i bartïon penodedig.

14.55 Os bydd diwygiad i gydsyniad seilwaith yn arwain at gaffael tir, buddiant mewn tir neu hawliau dros dir yn orfodol yn unig, cynigir proses symlach ar wahân. Mae manylion am hyn i'w gweld yn y bennod ar gaffael yn orfodol yn y papur ymgynghori hwn.

*Penderfynu*

14.56 Rydym yn cynnig mai Gweinidogion Cymru, neu'r awdurdod archwilio, fydd yn penderfynu ar geisiadau am ddiwygiadau ansylweddol a sylweddol i gydsyniad seilwaith, o fewn cyfnodau amser statudol, sef 8 wythnos ar gyfer diwygiadau ansylweddol, yn dechrau ar y diwrnod y derbyniwyd bod cais yn ddilys a 24 wythnos ar gyfer diwygiadau sylweddol.

14.57 Fel yn achos gofynion hysbysu eraill drwy gydol y broses gydsynio, mae'n bwysig bod ceisyddion a phartïon eraill â buddiant yn cael eu hysbysu am benderfyniad mewn modd amserol drwy hysbysiad ysgrifenedig.

14.58 Mewn ymdrech i hyrwyddo tryloywder a chyrraedd cynulleidfa mor eang â phosibl, rydym hefyd o'r farn ei bod yn briodol i Weinidogion Cymru neu'r person penodedig gyhoeddi penderfyniad, rhesymau dros benderfyniad ac unrhyw ddogfennaeth berthnasol ar wefan y maent yn berchen arni neu wefan sy'n cael ei chynnal ganddynt.

**Dirymu cydsyniad seilwaith**

14.59 Pan fydd cydsyniad seilwaith wedi cael ei roi ond na fydd wedi cael ei weithredu, dros amser bydd amgylchiadau yn codi a all gyfiawnhau diddymu'r cydsyniad gwreiddiol, er enghraifft os canfyddir dros amser ei fod yn groes i unrhyw Fframwaith Datblygu Cenedlaethol newydd.

14.60 O dan amgylchiadau o'r fath, mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru ddirymu cydsyniad seilwaith, naill ai'n unochrog neu ar ôl cais.

*Dirymu cydsyniad seilwaith yn unochrog*

14.61 Er bod gan Weinidogion Cymru y pŵer i ddirymu cydsyniad seilwaith yn unochrog, rydym yn credu, er mwyn bod yn agored ac yn dryloyw, ei bod yn hanfodol bod pob parti â buddiant yn cael ei hysbysu ac yn cael cyfle i wneud sylwadau ar ddirymiad arfaethedig.

14.62 Felly, cyn y gellir dirymu cydsyniad seilwaith yn unochrog, rydym yn cynnig y bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi hysbysiad ysgrifenedig o'u bwriad i wneud hynny:

- Y ceisydd gwreiddiol (neu olynydd yn y teitl);
- Unrhyw berson sydd â buddiant yn y tir y mae cydsyniad seilwaith yn ymwneud ag ef;
- Unrhyw berson y mae'r cydsyniad seilwaith yn cael effaith er ei fudd;
- Yr ACLl(au) y mae'r datblygiad wedi'i leoli ynddi/ynddynt;
- CNC (ar gyfer cydsyniadau seilwaith yn ardal forol Cymru).

14.63 Bydd angen i hysbysiadau o'r fath bennu manylion ynglŷn â'r dirymiad, yn ychwanegol at wybodaeth ynglŷn â sut y gellir gwneud sylwadau. Rydym yn cynnig bod yn rhaid i hysbysiadau ysgrifenedig i ddirymu cydsyniad seilwaith gynnwys y manylion canlynol:

- Enw a chyfeiriad Gweinidogion Cymru;
- Datganiad i'r perwyl bod Gweinidogion Cymru yn cynnig y dylid dirymu cydsyniad seilwaith;
- Rhif cyfeirnod y cydsyniad seilwaith;
- Datganiad yn cadarnhau lle y bydd copi o'r ddogfen ddirymu arfaethedig ac unrhyw ddogfennau neu gynlluniau ar gael i'w harchwilio (gan gynnwys cyfeiriad / cyfeiriad gwe a'r amseroedd);
- Y dyddiad olaf y gellir gweld dogfen ddirymu ac unrhyw ddogfennau neu gynlluniau, na chaniateir iddo fod yn gynharach na chyfnod o 28 diwrnod yn dechrau ar y dyddiad y bydd person yn cael hysbysiad;
- Manylion sut y gellir gwneud sylwadau;
- Y dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid i sylwadau ddod i law (heb fod yn gynharach na 28 diwrnod o'r dyddiad y bydd person yn cael hysbysiad).

14.64 Yn ychwanegol at roi hysbysiad ysgrifenedig, rydym hefyd yn cynnig y dylai Gweinidogion Cymru fodloni gofynion cyhoeddusrwydd a hysbysu penodol er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn fwy cyffredinol a rhanddeiliaid eraill yn cael cyfle i weld dirymiad arfaethedig a chyflwyno sylwadau, os byddant yn dymuno gwneud hynny. Bydd y rhain yn adlewyrchu'r gofynion cyhoeddusrwydd a hysbysu a gynigir ar gyfer y cam gwneud cais (gweler paragraffau 8.28 – 8.42 o'r ymgynghoriad hwn).

14.65 Yn debyg i'r weithdrefn ar gyfer Gorchmynion Cydsyniad Datblygu yn Neddf Cynllunio 2008, nid ydym yn bwriadu cyflwyno unrhyw ofyniad gorfodol ar gyfer yr archwiliad ffurfiol o ddirymu cydsyniad seilwaith ar ôl i'r cyfnod sylwadau ddod i

ben. Yn hytrach, caiff Gweinidogion Cymru fynd yn eu blaen yn syth at benderfyniad.

14.66 Fodd bynnag, bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi hysbysiad ysgrifenedig o'u penderfyniad. Mae adran 91(6) o'r Ddeddf eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru hysbysu'r ceisydd gwreiddiol neu'r olynydd yn y teitl, ynghyd ag unrhyw berson arall a bennir mewn is-ddeddfwriaeth. Rydym yn cynnig y personau canlynol:

- Unrhyw berson sydd â buddiant yn y tir;
- Unrhyw berson y mae'r cydsyniad seilwaith yn cael effaith er ei fudd;
- Yr ACLl(au) y mae'r datblygiad wedi'i leoli ynddi/ynddynt;
- CNC (ar gyfer cydsyniadau seilwaith yn ardal forol Cymru);
- Ymgyngoreion statudol;
- Unrhyw berson sydd wedi gwneud sylw perthnasol.

14.67 Er mwyn bod yn dryloyw, rydym hefyd o'r farn ei bod yn briodol bod is-ddeddfwriaeth yn pennu, pan fydd hysbysiad ysgrifenedig o benderfyniad ynglŷn â dirymu yn cael ei roi, fod yn rhaid cynnwys datganiad o resymau hefyd, a bod yn rhaid i'r gorchymyn dirymu neu'r hysbysiad hefyd bennu pryd y bydd y dirymiad yn weithredol.

*Dirymu cydsyniad seilwaith ar ôl cais*

14.68 Yn ogystal â gallu Gweinidogion Cymru i ddirymu cydsyniad seilwaith yn unochrog, mae adran 90 o'r Ddeddf hefyd yn gwneud darpariaeth i ofyn am ddirymiadau drwy gais gan:

- Y ceisydd, neu olynydd y ceisydd yn y teitl;
- Person sydd â buddiant yn y tir;
- Unrhyw berson arall y mae'r cydsyniad seilwaith yn cael effaith er ei fudd; neu
- ACLl.

14.69 Cyn cyflwyno cais ffurfiol i ddirymu cydsyniad seilwaith, bydd yn ofynnol i'r person(au) sy'n ceisio dirymiad anfon hysbysiad am hyn at Weinidogion Cymru.

14.70 Ar ôl i Weinidogion Cymru dderbyn hysbysiad, rydym yn cynnig y dylai ceisyddion fodloni gofynion cyhoeddusrwydd a hysbysu penodol er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn fwy cyffredinol a rhanddeiliaid eraill yn cael cyfle i weld dirymiad arfaethedig a chyflwyno sylwadau, os byddant yn dymuno gwneud hynny. Bydd y rhain yn adlewyrchu'r gofynion cyhoeddusrwydd a hysbysu a gynigir ar gyfer y cam gwneud cais (gweler paragraffau 8.28 – 8.42 o'r ymgynghoriad hwn).

14.71 Unwaith y bydd y cam cyhoeddusrwydd a hysbysu wedi dod i ben, yna gellir cyflwyno cais ffurfiol i ddirymu cydsyniad seilwaith i Weinidogion Cymru ac unwaith y byddant yn derbyn ei fod yn ddilys, rydym yn cynnig cylch arall o gyhoeddusrwydd a hysbysu er mwyn helpu i sicrhau bod cynifer o bobl â phosibl yn cael cyfle i gyflwyno sylwadau cyn y gwneir penderfyniad ynghylch a fydd cydsyniad seilwaith yn cael ei ddirymu ai peidio.

14.72 Ar ôl i'r cyfnod cyhoeddusrwydd a hysbysu hwn ddod i ben, rydym yn cynnig y bydd Gweinidogion Cymru yn gallu archwilio cais, gan fabwysiadu'r un weithdrefn archwilio a bennir ym mharagraffau 11.1 – 11.68.

14.73 Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gall amgylchiadau godi pan fyddai archwiliad yn anghymesur, er enghraifft, pan na chaiff unrhyw sylwadau eu cyflwyno neu pan na ddaw unrhyw wrthwynebiadau i law. O dan amgylchiadau o'r fath, rydym yn cynnig y caiff Gweinidogion Cymru fynd yn eu blaen yn syth at benderfyniad.

14.74 P'un a fydd dirymiad arfaethedig yn cael ei archwilio ai peidio, bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru hysbysu'r personau hynny a bennir ym mharagraff 14.62 uchod am eu penderfyniad, yn ychwanegol at unrhyw berson a gyflwynodd sylwadau.

14.75 Er mwyn bod yn dryloyw, rydym hefyd o'r farn ei bod yn briodol bod is-ddeddfwriaeth yn pennu, pan roddir hysbysiad ysgrifenedig, fod yn rhaid cyflwyno datganiad o resymau ar yr un pryd.

Cwestiynau

- A ydych yn cytuno â'r dull o ddiwygio gorchymyn cydsyniad seilwaith a nodwyd? Os nad ydych yn cytuno, pam?

- A ydych yn cytuno â'r dull o ddirymu gorchymyn cydsyniad seilwaith a nodwyd? Os nad ydych yn cytuno, pam?

## Pennod 15: Caffael yn Orfodol

15.1 Mae'n bosibl y bydd angen i geisydd sy'n gwneud cais am gydsyniad seilwaith gaffael tir nad oes ganddo reolaeth drosto er mwyn sicrhau y gall cynllun fynd rhagddo. Mae'r bennod hon yn nodi sut y gall y ceisydd gynnig caffael y tir yn orfodol fel rhan o'i gais.

15.2 Wrth wneud cais am gydsyniad seilwaith sy'n cynnwys cais i awdurdodi caffael tir yn orfodol ("archiad caffael gorfodol"), bydd angen i geisyddion gyfiawnhau eu cynigion. Bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru fod yn fodlon bod dibenion gwneud yr archiad caffael gorfodol yn gyfreithlon, eu bod er budd y cyhoedd, a'u bod yn ddigonol i gyfiawnhau ymyrryd â hawliau dynol pobl sydd â buddiant yn y tir yr effeithir arno. Bydd disgwyl i geisyddion gyfiawnhau cynigion o'r fath drwy gydol y broses o archwilio'r cais am gydsyniad seilwaith.

Pwerau

15.3 Mae'r Ddeddf yn nodi gofynion ar gyfer caffael tir yn orfodol fel rhan o gydsyniad seilwaith, a hynny yn adrannau 64 i 72 yn bennaf. Yn ogystal â hynny, ceir darpariaethau cysylltiedig o dan adrannau eraill, gan gynnwys 'Cael gwybodaeth ynghylch buddiannau mewn tir' o dan adran 28.

15.4 Nid yw'r bennod hon yn trafod y materion hynny a nodir yn y Ddeddf sy'n ymwneud â chaffael yn orfodol nad oes angen rhagor o fanylion ar eu cyfer. Lle y mae'n gorgyffwrdd ag adrannau eraill, dylid ei darllen ar y cyd â'r penodau hynny.

### Ymchwiliadau ar y cam cyn gwneud cais cyn cyflwyno ceisiadau sy'n cynnwys archiadau caffael gorfodol

15.5 Bydd yn rhaid i geisyddion am gydsyniad seilwaith sy'n cynnig caffael tir fel rhan o'u cynnig gael gafael ar wybodaeth am yr unigolion hynny sydd â buddiant yn y tir, ac ymgynghori â'r unigolion hynny, er mwyn i'r tir allu cael ei gaffael yn orfodol fel rhan o unrhyw gydsyniad. Bydd yr ymgysylltu hwn yn helpu ceisyddion i ffurfio cydberthynas â thirfeddianwyr/unigolion â buddiannau mewn tir a rhoi trosolwg o'r cynllun a'r broses gynllunio.

15.6 Hefyd, bydd yn rhaid i geisyddion ymgymryd ag unrhyw arolygon a gwaith ymchwilio perthnasol ar y tir ar y cam hwn. Byddai hyn yn cynnwys pennu ffin llinell goch y tir a gaiff ei gaffael yn orfodol er mwyn i archiad caffael gorfodol gael ei ddilysu (gweler yr adran isod ar ddilysu ceisiadau sy'n cynnwys archiadau caffael gorfodol).

15.7 Mae paragraffau 6.30 – 6.38 yn ymdrin â'r ceisiadau am hysbysiadau lle mae angen cyflwyno gwybodaeth am fuddiannau mewn tir. Bydd pob cais am hysbysiadau gwybodaeth yn dilyn y broses honno.

**Ymgynghori cyn gwneud cais**

15.8 Mae'r gofynion ar gyfer ymgynghori cyn gwneud cais, gan gynnwys ar gyfer y ceisiadau hynny sy'n cynnwys archiadau caffael gorfodol, i'w gweld yn y penodau ar y cam cyn gwneud cais yn y papur ymgynghori hwn.

**Gofynion dilysu ar gyfer derbyn ceisiadau sy'n cynnwys archiadau caffael gorfodol**

<u>Gofynion cyffredinol ar gyfer dilysu ceisiadau sy'n cynnwys archiadau caffael gorfodol</u>

15.9 Mae'r gofynion safonol ar gyfer y dogfennau y bydd angen eu cyflwyno a'r amserlenni ar gyfer dilysu cais am gydsyniad seilwaith i'w gweld ym mhennod 'Ceisiadau am Gydsyniad Seilwaith' y papur ymgynghori hwn. Yn ogystal â'r gofynion hynny, ar gyfer cais sy'n cynnwys archiad caffael gorfodol, bydd is-ddeddfwriaeth yn nodi gofynion i gyflwyno gwybodaeth a dogfennau penodol i ategu'r cais. Bydd rheoliadau'n darparu y bydd yn rhaid cyflwyno'r wybodaeth ganlynol i ategu'r archiad caffael gorfodol:

- cynllun tir wedi'u luniadu wrth raddfa gan nodi—
  (i) y tir sy'n ofynnol ar gyfer y datblygiad arfaethedig neu y bydd y datblygiad arfaethedig yn effeithio arno;
  (ii) lle y bo'n berthnasol, unrhyw dir y bwriedir arfer pwerau caffael yn orfodol neu hawl i ddefnyddio tir mewn perthynas ag ef;
  (iii) unrhyw dir y bwriedir diddymu hawddfreintiau, gwasanaethfreintiau a hawliau preifat eraill mewn perthynas ag ef;
  (iv) os bydd y tir yn cynnwys tir categori arbennig a thir cyfnewid, y categori arbennig a'r tir cyfnewid o dan sylw;

- 'Llyfr cyfeirio' (ceir rhagor o wybodaeth am y llyfr cyfeirio yn yr adrannau sy'n dilyn);

- Datganiad o resymau i gyfiawnhau'r archiad caffael gorfodol. Bydd yn rhaid i'r datganiad o resymau ddangos pam mae achos cymhellol sydd er budd y cyhoedd dros gynnwys caffael tir yn orfodol (y mae'n rhaid iddo fod ar gyfer y datblygiad ei hun, er mwyn hwyluso'r datblygiad neu'r tir cyfnewid) yn y cydsyniad seilwaith;

- Datganiad o gyllid i esbonio sut y byddai'r cydsyniad seilwaith sy'n cynnwys archiad caffael gorfodol yn cael ei ariannu ynghyd â thaliadau digolledu cysylltiedig (ceir rhagor o wybodaeth am y datganiad hwn yn yr adrannau sy'n dilyn);

- Cynllun yn dangos y tir a fyddai'n cael ei gaffael, gan gynnwys rhannau o'r tir a gaiff eu gwarchod rhag y datblygiad am resymau sy'n cynnwys yr angen i gadw hawliau neu ddyletswyddau presennol, unrhyw hawliau arfaethedig i'w diddymu ac unrhyw dir cyfnewid arfaethedig. Bydd hyn yn galluogi tirfeddianwyr neu unigolion sydd â buddiannau mewn tir i ddangos beth fyddai'r effeithiau tebygol arnynt;

- Manylion personau y byddai ganddynt hawl i wneud hawliad perthnasol am dâl digolledu yn unol â gofynion y darpariaethau digolledu yn Neddf Prynu Gorfodol 1965 a Deddf Digolledediad Tir 1973 pe bai'r cais yn cael cydsyniad ac yn cael ei roi ar waith. Byddai hefyd yn ofynnol i'r ceisydd gadw'r wybodaeth hon yn gyfredol yn ystod y broses gwneud cais;

- Croesgyfeirio tystiolaeth o sylwadau a gafwyd fel rhan o'r ymgynghoriad cyn gwneud cais yn erbyn y buddiannau mewn tir a nodir yn y llyfr cyfeirio. Bydd hyn er mwyn sicrhau yr ymgynghorir yn gywir â'r holl unigolion sydd â buddiannau mewn tir y gallai caffael gorfodol effeithio arnynt ac y cânt yr wybodaeth ddiweddaraf am hynt y cynllun sylfaenol. Cynigir y bydd angen sicrhau bod yr wybodaeth hon yn gyfredol a'i chyflwyno erbyn yr archwiliad. Gallai peidio â gwneud hynny arwain at oedi yn y broses o archwilio cais am gydsyniad seilwaith, ond ni fyddai'n effeithio ar y broses o'i ddilysu.

<u>Cyflwyno a chynnal llyfr cyfeirio</u>

15.10 Bydd yn rhaid i'r llyfr cyfeirio a gyflwynir gyda chais am gydsyniad seilwaith sy'n cynnwys archiad caffael gorfodol gynnwys enwau, cyfeiriadau a manylion cyswllt personau perthnasol sydd â buddiannau mewn tir, ar ôl iddynt gael eu nodi gan y ceisydd (gweler y penodau ar y cam cyn gwneud cais sy'n trafod cael gwybodaeth ynghylch buddiannau mewn tir). Y personau perthnasol yn y cyd-destun hwn fyddai'r rhai â buddiant uniongyrchol yn y tir, megis perchnogion neu feddianwyr a'r rhai sydd â hawliau dros y tir. Bydd hefyd yn pennu'r tir y mae'r cais i gaffael yn orfodol yn ymwneud ag ef.

15.11 Cynigir y bydd yn rhaid i lyfr cyfeirio gael ei gadw'n gyfredol. Bydd yn rhaid i unrhyw ddiwygiadau dilynol a wneir i lyfr cyfeirio ar ôl iddo gael ei gyflwyno gyda chais am gydsyniad seilwaith, am fod eiddo wedi newid dwylo, am fod tir wedi cael ei werthu, neu am fod buddiannau newydd wedi cael eu darganfod ac ati, gael eu rhannu â Gweinidogion Cymru erbyn y terfyn amser ar gyfer nodi'r amserlen ar gyfer archwilio'r cais cysylltiedig fan bellaf. Bydd hyn yn sicrhau y caiff yr holl fuddiannau mewn tir eu nodi'n briodol ac na fydd angen hysbysiadau ar wahân ynghylch buddiannau mewn tir ar ôl i gais gael ei dderbyn i'w archwilio.

15.12 Felly, rydym yn cynnig y bydd is-ddeddfwriaeth yn cynnig diffiniad o 'lyfr cyfeirio' ac yn cynnwys gofynion i'w gadw'n gyfredol, fel yr amlinellir uchod.

<u>Datganiad o gyllid gan gynnwys sicrwydd ynghylch digolledu</u>

15.13 Wrth benderfynu p'un a ddylid rhoi cydsyniad seilwaith sy'n cynnwys archiad caffael gorfodol ai peidio, cynigir y bydd Gweinidogion Cymru yn barnu a oes digon o gyllid ar gael i dalu hawliadau am dâl digolledu yn sgil caffael gorfodol os caiff pwerau caffael gorfodol eu rhoi.

15.14 Bydd yn ofynnol i geisyddion ddangos drwy eu datganiad o gyllid fod cyllid digonol ar gael i allu caffael tir yn orfodol ar ôl i'r cydsyniad seilwaith gael ei roi. Rhaid i'r datganiad ddangos bod yr holl oblygiadau o ran adnoddau wedi cael eu hystyried,

gan gynnwys sut mae'r ceisydd yn bwriadu sicrhau y caiff taliadau digolledu eu gwneud.

15.15 Felly, cynigir y caiff gofyniad ei nodi mewn is-ddeddfwriaeth i geisyddion sicrhau bod cais am gydsyniad seilwaith sy'n cynnwys caffael tir yn orfodol yn cynnwys gwarant ynghylch eu gallu i wneud taliadau digolledu mewn perthynas â'r tir neu fath arall o sicrhad at y diben hwnnw (sydd wedi'i gymeradwyo gan Weinidogion Cymru). Bydd sicrhau y caiff perchnogion tir eu digolledu'n llawn am unrhyw dir a gaiff ei gaffael yn orfodol yn sicrhau y caiff hawliau tirfeddianwyr eu diogelu, gan fodloni gofynion Erthygl 1[3] o Brotocol 1 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

**Cydnabod bod cais sy'n cynnwys archiad caffael gorfodol wedi dod i law**

15.16 Mewn rhan arall o'r papur ymgynghori, ceir gwybodaeth am gyrff perthnasol megis awdurdodau cynllunio lleol yn cael eu hysbysu bod cais am gydsyniad seilwaith wedi cael ei gyflwyno. Ni chaiff personau sydd â buddiannau mewn tir eu hysbysu bod cais wedi'i gyflwyno gan na fydd yn ofynnol iddynt roi mewnbwn ynglŷn â'r cais tan ar ôl y cam dilysu.

<u>Hysbysiad am gais a dderbynnir a chyhoeddusrwydd</u>

15.17 Os caiff cais sy'n cynnwys archiad caffael gorfodol ei dderbyn, bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi hysbysiad i'r holl bersonau perthnasol sydd â buddiannau mewn tir fel y'u nodir yn y llyfr cyfeirio. Bydd y gofyniad hwn yn sicrhau eglurder a thryloywder i'r holl randdeiliaid perthnasol ynglŷn ag elfen caffael gorfodol y cynllun, ac yn rhoi cyfle iddynt wneud sylwadau. Mewn rhan arall o'r papur ymgynghori, ceir rhagor o wybodaeth am y broses ar gyfer rhoi hysbysiad ysgrifenedig i bersonau yn rhoi gwybod iddynt fod cais am gydsyniad seilwaith wedi cael ei dderbyn.

15.18 Bydd yn ofynnol i geisyddion groesgyfeirio unrhyw sylwadau cyn gwneud cais â'r llyfr cyfeirio. Bydd hyn yn fodd i gadw golwg ar sylwadau gan bersonau sydd â buddiannau mewn tir drwy gydol y broses o archwilio'r cais, gwella'r trywydd archwilio a lleihau camgymeriadau wrth sicrhau bod safbwyntiau'r holl dirfeddianwyr/meddianwyr yr effeithir arnynt wedi cael eu hystyried. Gall unrhyw wallau y deuir o hyd iddynt rhwng y llyfr cyfeirio a'r dystiolaeth a groesgyfeirir arwain at oedi yn y broses o archwilio cais am gydsyniad seilwaith. Cynigir y bydd gofynion i'r ceisydd gynnal yr ymarfer croesgyfeirio a'i ddiweddaru'n rheolaidd â gwybodaeth am fuddiannau mewn tir yn cael eu rhagnodi mewn is-ddeddfwriaeth.

**Archwilio ceisiadau am gydsyniad seilwaith sy'n cynnwys archiadau caffael gorfodol**

15.19 Mae'r Ddeddf yn nodi gweithdrefnau ar gyfer archwilio ceisiadau am gydsyniad seilwaith a gaiff eu nodi mewn rheoliadau. Mae rhagor o wybodaeth am y broses

[3] *"Mae gan bob person naturiol neu gyfreithiol hawl i fwynhad heddychlon o'i eiddo. Ni chaiff neb ei amddifadu o'i eiddo ac eithrio er budd y cyhoedd ac yn ddarostyngedig i'r amodau y darperir ar eu cyfer gan y gyfraith a chan egwyddorion cyffredinol cyfraith ryngwladol."*

archwilio yn gyffredinol i'w gweld mewn rhan arall o'r papur ymgynghori hwn. Mae'n bosibl y bydd caffael tir yn orfodol yn ddarostyngedig i'w weithdrefn archwilio ei hun. Bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu ar hyn ar sail achos unigol. Bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried natur y caffaeliad arfaethedig wrth benderfynu ar y weithdrefn archwilio.

**Caffael tir ychwanegol yn orfodol**

15.20 Wrth ganiatáu i benderfyniad gael ei wneud ynglŷn â chaffael tir fel rhan o gais am gydsyniad seilwaith, cydnabyddir y gallai fod senario lle nad yw'r ceisydd yn cynnwys cynnig i gaffael tir penodol mewn cais a gaiff ei ddilysu gan Weinidogion Cymru yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, gallai'r ceisydd benderfynu bod angen cynnwys y tir penodol hwn fel rhan o'r cais er mwyn sicrhau y caiff y cynnig ei roi ar waith yn llwyddiannus. Er enghraifft, yn dilyn trafodaethau parhaus ynglŷn â rhoi'r cynnig ar waith, gellid tybio bod angen y tir ychwanegol i gymryd lle hawl tramwy bresennol.

15.21 Ar ôl i Weinidogion Cymru ddilysu'r cais, byddai'r ceisydd yn cynnig y caiff y tir ei gaffael fel rhan o'r cydsyniad (byddai'r tir yn y senario honno'n cael ei galw'n ‘dir ychwanegol’). O dan yr amgylchiadau hynny ac os na fydd person sydd â buddiant yn y tir ychwanegol yn cydsynio i'r cynnig gael ei gynnwys, bydd yn rhaid i'r tir ychwanegol ddilyn proses graffu debyg i'r tir a nodwyd yn y lle cyntaf er mwyn iddo allu cael ei gaffael yn orfodol. Felly, cynigir y bydd is-ddeddfwriaeth yn nodi'r weithdrefn ar gyfer caffael ‘tir ychwanegol’ yn orfodol.

<u>Diben a chrynodeb a phwerau</u>

15.22 Bydd y weithdrefn amlinellol fel a ganlyn:

- Darpariaeth arfaethedig – rhaid i'r ceisydd anfon manylion y ddarpariaeth arfaethedig i'r awdurdod archwilio, gan gynnwys llyfr cyfeirio ar gyfer y tir ychwanegol neu atodiad i lyfr sydd eisoes wedi'i gyflwyno; cynllun sy'n dangos y tir ychwanegol; a datganiad o resymau pam mae angen y tir ychwanegol a sut y cynigir y caiff y broses o gaffael y tir ychwanegol yn orfodol ei ariannu;

- Derbyn darpariaeth arfaethedig – bydd yr awdurdod archwilio yn penderfynu a ddylid derbyn y ddarpariaeth arfaethedig, gan gynnwys dilysu;

- Hysbysiad o ddarpariaeth arfaethedig – ar ôl i'r ddarpariaeth arfaethedig gael ei derbyn, rhaid i'r ceisydd roi hysbysiad o'r ddarpariaeth arfaethedig i bawb sydd â buddiant yn y tir ychwanegol neu y gallai fod ganddynt hawl i wneud hawliad perthnasol;

- Ymgynghoriad a chyhoeddusrwydd ynglŷn â'r ddarpariaeth arfaethedig – ar ôl i'r ddarpariaeth arfaethedig gael ei derbyn, rhaid i'r ceisydd gynnal ymgynghoriad ar y ddarpariaeth arfaethedig a rhoi cyhoeddusrwydd iddi yn yr un modd â'r cais gwreiddiol;

- Archwilio – ar ôl i'r ymgynghoriad a'r cyfnod hysbysu ddod i ben, bydd yr awdurdod archwilio yn cynnal asesiad ac yn diwygio'r amserlen archwilio yn ôl yr angen.

**Hysbysiad o awdurdodiad i gaffael yn orfodol**

15.23 Ar ôl i orchymyn cydsyniad seilwaith sy'n cynnwys caffael tir yn orfodol gael ei gymeradwyo, mae'r Ddeddf yn nodi darpariaethau ar gyfer rhoi cyhoeddusrwydd i'r caffael gorfodol drwy ei gwneud yn ofynnol i bwy bynnag sy'n prynu'r tir (gallai hyn gynnwys hawl drosto) fel rhan o'r datblygiad a gymeradwywyd roi hysbysiad o'r ffaith bod y tir yn cael ei gaffael.

Diben a chrynodeb

15.24 Mae adran 72 o'r Ddeddf (darpariaethau ynglŷn â hysbysiad o awdurdodiad i gaffael yn orfodol) yn nodi gofynion ar gyfer is-ddeddfwriaeth i wneud darpariaethau ar gyfer prynwr y tir mewn perthynas â rhoi, cyhoeddi neu arddangos hysbysiad yn awdurdodi ei gaffael yn orfodol, yn ogystal â galluogi'r cyhoedd i gael copi o'r hysbysiad hwnnw.

Pwerau

15.25 Yr adran berthnasol yn y Ddeddf yw:

- *Adran 72 – Hysbysiad o awdurdodiad i gaffael yn orfodol.*

Gwybodaeth benodol y bydd angen ei chynnwys mewn hysbysiad o awdurdodiad i gaffael tir yn orfodol

15.26 Er mwyn sicrhau y rhoddir cyhoeddusrwydd digonol i gaffael tir yn orfodol drwy orchymyn cydsyniad seilwaith, cynigir y bydd is-ddeddfwriaeth yn nodi gofynion i gyhoeddi'r hysbysiad mewn ffordd benodol ac iddo gynnwys gwybodaeth benodol, a grynhoir fel a ganlyn:

- At bwy y caiff yr hysbysiad ei gyfeirio o ran buddiannau yn y tir a disgrifiad o ble y caiff ei osod;
- Teitl y cydsyniad seilwaith perthnasol a gwybodaeth am y broses o'i roi;
- Beth mae caffael y tir yn ei olygu o ran ei ddiben;
- Sut y gall person sy'n anghytuno â'r cydsyniad seilwaith ei herio drwy adolygiad barnwrol;
- Gwybodaeth am y ffordd y bydd y prynwr yn caffael y tir o ran cymhwyso'r ddeddfwriaeth bresennol ar gaffael yn orfodol[4].

[4] Byddai hyn yn cynnwys Rhannau 2 a 3 o Ddeddf Prynu Gorfodol (Datganiadau Breinio) 1981.

**Diwygio gorchymyn cydsyniad seilwaith mewn perthynas â chaffael tir neu fuddiannau newydd yn orfodol**

15.27 Os rhoddir cydsyniad i brosiect seilwaith arwyddocaol, bydd proses ffurfiol y gall ceisyddion ei dilyn er mwyn gwneud newid i'r gorchymyn cydsyniad seilwaith. Mae rhagor o wybodaeth am y broses hon i'w gweld yn y bennod ar y broses ar ôl y penderfyniad yn y papur ymgynghori hwn.

Diben a chrynodeb

15.28 Mae adrannau 90 a 91 o'r Ddeddf (darpariaethau ynglŷn â newid neu ddirymu gorchmynion cydsyniad seilwaith) yn nodi y gall Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, wneud newid i orchymyn cydsyniad seilwaith neu ei ddirymu ac y bydd is-ddeddfwriaeth yn nodi'r weithdrefn i geisyddion wneud cais am gael gwneud hynny.

Gweithdrefn ar gyfer diwygio gorchymyn cydsyniad seilwaith, mewn perthynas â chaffael tir neu fuddiannau newydd yn orfodol yn unig

15.29 Fel yr amlinellir yn y bennod ar y broses ar ôl y penderfyniad sy'n berthnasol i orchymyn cydsyniad seilwaith, ystyriwn fod diwygiadau sy'n sylweddol yn cynnwys y rhai sy'n newid hawliau dros dir (h.y. caffael tir neu fuddiant mewn tir neu hawliau dros dir yn orfodol). Fodd bynnag, ar gyfer diwygiadau o'r fath, ni chredwn ei bod yn gymesur eu hystyried yn awtomatig drwy'r un broses â diwygiadau sylweddol eraill na'i gwneud yn ofynnol cyflwyno cais newydd.

15.30 Mae'r broses wedi'i symleiddio ar gyfer ymdrin â newidiadau sy'n ymwneud â chaffael tir neu fuddiant mewn tir neu hawliau dros dir yn unig yn adlewyrchu ein barn bod angen craffu ar newidiadau o'r fath mewn ffordd wahanol i newidiadau eraill sy'n sylweddol. Er enghraifft, yr angen am Ddatganiad Amgylcheddol wedi'i ddiweddaru, Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd neu drwydded newydd neu ychwanegol mewn perthynas â Rhywogaethau a Warchodir.

15.31 Felly, rydym yn cynnig gosod gweithdrefn ragnodedig mewn is-ddeddfwriaeth ar gyfer diwygio cydsyniad seilwaith os bydd yn ymwneud â chaffael tir newydd neu fuddiant mewn tir neu hawliau dros dir yn orfodol yn unig. Credwn y bydd y weithdrefn hon fel a ganlyn:

- Bydd angen gwneud cais penodol, y bydd yn rhaid iddo fod ar ffurflen a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru a chynnwys manylion y ceisydd, cyfeirnod y cydsyniad seilwaith a roddwyd yn wreiddiol a disgrifiad byr o'r newid i'r tir y gwneir cais amdano o leiaf.

- Bydd angen cyflwyno gwybodaeth benodol i ategu'r diwygiad i'r cynnig i gaffael tir yn orfodol. Bydd hyn yn debyg i'r wybodaeth sy'n ofynnol i ategu'r archiad caffael gorfodol gwreiddiol ochr yn ochr â'r cais y rhoddwyd cydsyniad iddo – gweler paragraff 9 uchod. Hefyd, byddai angen talu ffi berthnasol i ategu'r cynnig diwygiedig i gaffael tir, yn ogystal â datganiad yn cadarnhau bod y cais, ym marn y ceisydd, yn sylweddol ac yn ymwneud â chaffael tir newydd neu fuddiant mewn tir neu hawliau dros dir yn orfodol yn unig.

- Bydd gan Weinidogion Cymru bythefnos i benderfynu a ddylid derbyn y cais ai peidio, a bydd hyn yn ddibynnol ar b'un a yw'n cynnwys yr wybodaeth ofynnol a nodir uchod ai peidio. Wedyn, bydd yn rhaid iddynt hysbysu'r ceisydd bod y cais wedi'i dderbyn neu eu bod o'r farn nad yw'n ddilys, gan roi rhesymau.

- Wrth ystyried dilysrwydd y cais, bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried a yw'r diwygiadau'n sylweddol ac yn ymwneud â chaffael tir newydd neu fuddiant mewn tir neu hawliau dros dir yn orfodol yn unig. Fel arall, os byddant yn ymwneud â mwy na hynny, mae'n bosibl y bydd Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo na all y cais i ddiwygio fynd ymhellach ac y bydd angen i'r ceisydd gyflwyno cais newydd am gydsyniad seilwaith.

- Wrth ddilysu'r cais, bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i gyrff penodedig os byddant yn derbyn y cais. Bydd y gofyniad hwn yn debyg i'r gofyniad i Weinidogion Cymru gyflwyno hysbysiad wrth dderbyn y cais gwreiddiol am gydsyniad seilwaith sy'n cynnwys archiad caffael gorfodol.

- Bydd gofynion cyhoeddusrwydd a hysbysu ar gyfer y cais diwygiedig yn debyg i ofynion cyhoeddusrwydd a hysbysu safonol fel rhan o gais am gydsyniad seilwaith, fel y nodir mewn rhan arall o'r ymgynghoriad hwn. Er enghraifft, cyhoeddi hysbysiad o'r cais mewn papur newydd am o leiaf wythnos. Bydd yn ofynnol i unrhyw hysbysiad a roddir gan Weinidogion Cymru ynglŷn â'r cais gynnwys datganiad i'r perwyl bod Gweinidogion Cymru neu'r corff a benodwyd i benderfynu ar y cais yn credu ei fod yn sylweddol ac yn ymwneud â chaffael tir newydd neu fuddiant mewn tir neu hawliau dros dir yn orfodol yn unig, a chynnwys manylion y cydsyniad seilwaith y mae'r cais i ddiwygio'n ymwneud ag ef.

- Bydd cyfnod o dair wythnos ar gyfer cyflwyno sylwadau ar y cais, a fydd yn dechrau ar ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad o'r cais. Dim ond sylwadau ynglŷn â'r cynnig i gaffael tir newydd neu fuddiant mewn tir neu hawliau dros dir yn orfodol y bydd Gweinidogion Cymru yn eu hystyried.

- Rydym yn cynnig y byddai'r gweithdrefnau archwilio ar gyfer cais i ddiwygio ac archwilio tir nad oedd wedi'i gynnwys mewn cais am gydsyniad seilwaith yn wreiddiol, sef caffael ‘tir ychwanegol’ yn orfodol, yn debyg ac y gallent gynnwys un neu nifer o weithdrefnau ar ffurf sylwadau ysgrifenedig, gwrandawiad neu ymchwiliad. Y rheswm dros hyn yw bod y ddwy weithdrefn yn ymwneud ag ystyried diwygiadau i fuddiannau mewn tir fel rhan o'r prosiect seilwaith arwyddocaol yn unig.

- Gweinidogion Cymru, neu berson a benodir ar eu rhan, fydd yn penderfynu ar gais i ddiwygio, a bydd yn ofynnol i hynny ddigwydd o fewn 12 wythnos i ddyddiad dilysu'r cais. Yn hytrach na chreu cydsyniad newydd, bydd penderfyniad yn diwygio'r cydsyniad cyfredol. Ni chaniateir i Weinidogion Cymru na'r person penodedig wneud penderfyniad ar unrhyw ddiwygiadau arfaethedig yr ystyrir eu bod yn ansylweddol neu'n helaeth.

- Bydd y gofynion hysbysu ar gyfer penderfyniad ar gais i ddiwygio yn debyg i'r gofynion i hysbysu am benderfyniad ar gyfer y cydsyniad seilwaith gwreiddiol sy'n cynnwys archiad caffael gorfodol. Os caiff y cais i ddiwygio ei gymeradwyo, bydd darpariaethau mewn perthynas â chaffael y tir yn orfodol unwaith eto'n debyg i roi hysbysiad o awdurdodi'r archiad caffael gorfodol gwreiddiol.

15.32 Dylai cais i ddiwygio ddarparu ar gyfer cynnwys mwy nag un diwygiad i'r cynnig i gaffael tir newydd neu fuddiant mewn tir neu hawliau dros dir yn orfodol o fewn yr un cais. Gallai Gweinidogion Cymru, neu berson a benodir ar eu rhan, roi cymeradwyaeth rannol i gais am ddiwygiadau i gydsyniad seilwaith cyfredol sy'n ymwneud â chaffael tir newydd neu fuddiant mewn tir neu hawliau dros dir yn orfodol, os bydd mwy nag un diwygiad.

Cwestiynau

- A ydych yn cytuno â'r weithdrefn a bennir ar gyfer penderfynu ar gais i gaffael yn orfodol fel rhan o gais am gydsyniad seilwaith neu wrth ddiwygio gorchymyn sy'n bodoli eisoes. Os nad ydych yn cytuno, sut y dylid diwygio'r weithdrefn?

- A ydych o'r farn y dylai gweithdrefn benodol gael ei nodi mewn is-ddeddfwriaeth o ran archwilio cais i gaffael yn orfodol fel rhan o gais am gydsyniad seilwaith? Os ydych, pa weithdrefn y dylid ei phennu?

**Pennod 16 – Cofrestri o wasanaethau cyn gwneud cais a cheisiadau am Gydsyniad Seilwaith**

16.1 Er mwyn sicrhau bod cymunedau lleol a rhanddeiliaid eraill yn ymwybodol o ddatblygiadau arfaethedig sy'n debygol o effeithio arnynt, rhoddir gofynion ar Weinidogion Cymru, ACLlau a CNC i sefydlu a chynnal cofrestri sy'n cynnwys gwybodaeth am wasanaethau cyn gwneud cais a cheisiadau am gydsyniad seilwaith.

Diben a chrynodeb

16.2 Bydd y gofyniad i sefydlu a chynnal cofrestri o fudd i'r awdurdod cyhoeddus sy'n gyfrifol am y cofrestri, yn ogystal â rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn ehangach.

16.3 Bydd proses ffurfiol ar gyfer rheoli cofnodion yn sicrhau y gall Gweinidogion Cymru, ACLlau a CNC gael gafael ar gofnodion hanesyddol yn y dyfodol, os bydd eu hangen arnynt, a bydd hefyd o fudd i gymunedau lleol ac unrhyw bersonau eraill sydd â diddordeb mewn cais penodol drwy roi cyfle iddynt arfer eu hawliau i gael gwybodaeth mewn modd amserol.

Pwerau

16.4 Yr adran berthnasol yn y Ddeddf yw:

- *Adran 128 – Cofrestr o geisiadau a gwasanaethau cyn gwneud cais.*

Cofrestri: gwasanaethau cyn gwneud cais

16.5 Bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru, ACLlau a CNC i gyd sefydlu a chynnal cofrestr o wasanaethau cyn gwneud cais a ddarperir ganddynt fel rhan o'r broses gydsynio ar gyfer seilwaith.

16.6 Er mwyn helpu i sicrhau cysondeb, credwn ei bod yn briodol i gofrestri o'r fath gynnwys yr un wybodaeth.

16.7 Rydym yn cynnig y bydd is-ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol cynnwys yr wybodaeth ganlynol, o leiaf, mewn cofrestri gwasanaethau cyn gwneud cais:

- Copi o ffurflen gais am wasanaethau cyn gwneud cais (gan gynnwys yr holl gynlluniau a lluniadau ac unrhyw ddogfennau eraill a gyflwynwyd gyda'r ffurflen);
- Manylion y gwasanaethau cyn gwneud cais a ddarparwyd gan Weinidogion Cymru yn dilyn cais;
- Cynllun wedi'i luniadu wrth raddfa a nodwyd, sy'n dangos y lleoliad / ffin y mae datblygiad arfaethedig yn ymwneud ag ef/hi.

16.8 Fodd bynnag, gellir cynnwys gwybodaeth ychwanegol yn y cofrestri hefyd, os bydd yr awdurdod cyhoeddus sy'n gyfrifol am y gofrestr o'r farn bod hynny'n angenrheidiol neu'n briodol.

Cofrestri: ceisiadau am Gydsyniad Seilwaith

16.9 Mewn perthynas â cheisiadau am gydsyniad seilwaith, mae adran 128 o'r Ddeddf yn pennu, os bydd Gweinidogion Cymru yn cael cais dilys, y bydd yn rhaid iddynt gofnodi ei fanylion ar y gofrestr. Bydd hyn yn cynnwys y ffurflen gais ei hun ac unrhyw gynlluniau a dogfennau ategol neu unrhyw wybodaeth arall a gyflwynwyd gyda'r ffurflen gais.

16.10 Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd gwybodaeth ychwanegol a allai fod o ddiddordeb rydym yn cynnig y dylid ei chofnodi hefyd. Felly, er cyflawnder, rydym yn bwriadu ei gwneud yn ofynnol mewn is-ddeddfwriaeth i gofrestr sy'n ymwneud â cheisiadau am gydsyniad seilwaith a gynhelir gan Weinidogion Cymru hefyd gynnwys copi o'r canlynol:

- unrhyw hysbysiad a wneir i Weinidogion Cymru;
- unrhyw hysbysiad bod Gweinidogion Cymru wedi cael cais;
- unrhyw hysbysiad o dderbyn a roddwyd gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r cais, gan gynnwys mewn perthynas â thynnu'r cais yn ôl;
- unrhyw hysbysiad nad yw'r cais wedi cael ei dderbyn;
- unrhyw sylwadau ysgrifenedig a gafodd Gweinidogion Cymru mewn ymateb i unrhyw wahoddiad i wneud sylwadau gan Weinidogion Cymru ac o fewn yr amserlen a bennwyd gan Weinidogion Cymru;
- unrhyw hysbysiad ysgrifenedig o benderfyniad mewn perthynas â'r cais;
- unrhyw hysbysiad diwygiedig o benderfyniad, megis diwygiad neu gywiriad i wall.

16.11 Er y caiff ceisiadau am gydsyniad seilwaith eu cyflwyno i Weinidogion Cymru, rydym yn cydnabod y gall cymunedau a phartïon eraill sydd â diddordeb, yn y lle cyntaf, gysylltu â'u hawdurdod lleol neu CNC i gael gwybodaeth am gais am gydsyniad seilwaith.

16.12 Felly, rydym yn cynnig y dylid ei gwneud yn ofynnol i ACLlau a CNC hefyd sefydlu a chynnal cofrestr sy'n ymwneud yn benodol â cheisiadau am gydsyniad seilwaith. Er na fydd yr wybodaeth ar y cofrestri hyn mor helaeth â'r gofrestr a gaiff ei chynnal gan Weinidogion Cymru, rydym yn cynnig y bydd yn rhaid i gofrestri ACLlau a CNC gynnwys y canlynol o leiaf:

- dolen i ble y gellir gweld manylion cais am gydsyniad seilwaith ar wefan sy'n eiddo i Weinidogion Cymru ac sy'n cael ei chynnal ganddynt;
- unrhyw hysbysiad o dderbyn a roddwyd gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r cais;
- unrhyw hysbysiad ysgrifenedig o benderfyniad mewn perthynas â'r cais, gan gynnwys mewn perthynas â thynnu'r cais yn ôl;
- unrhyw hysbysiad diwygiedig o benderfyniad, megis diwygiad neu gywiriad i wall.

Cyhoeddi cofrestri

16.13 Er mwyn sicrhau tryloywder a gwneud yn siŵr bod cymunedau lleol a rhanddeiliaid eraill yn ymwybodol o ddatblygiadau arfaethedig sy'n debygol o effeithio arnynt, credwn ei bod yn angenrheidiol i bob cofrestr sy'n ymwneud â gwasanaethau cyn gwneud cais a cheisiadau am gydsyniad seilwaith gael ei chyhoeddi ar wefan sy'n eiddo i Weinidogion Cymru, i ACLl ac i CNC ac sy'n cael ei chynnal gan bob un ohonynt.

16.14 Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod yr holl wybodaeth sy'n ymwneud â datblygiad arfaethedig yn hygyrch ac ar gael yn eang i gynifer â phosibl o bobl.

16.15 Fodd bynnag, ceir camau yn y broses gydsynio a fydd yn digwydd cyn i gais ffurfiol gael ei gyflwyno, sef ceisiadau am wasanaethau cyn gwneud cais yn bennaf, lle y gall darpar geisydd deimlo'n anghyfforddus yn cymryd rhan yn y trafodaethau pwysig hyn, er enghraifft os bydd ei ddatblygiad arfaethedig yn fasnachol sensitif ac y byddai'n anfodlon i wybodaeth o'r fath gael ei chyhoeddi mor gynnar â hyn i'r cyhoedd yn ehangach ei gweld.

16.16 Felly, er mwyn sicrhau na fyddwn yn anghymell trafodaethau cyn gwneud cais, rydym yn cynnig y gall darpar geisyddion wneud cais ysgrifenedig i Weinidogion Cymru, yr ACLl neu CNC (pwy bynnag y ceisir trafodaethau am wasanaethau cyn gwneud cais ag ef/â nhw), am i wybodaeth am eu cais gael ei chyhoeddi ar y gofrestr ar ddyddiad diweddarach.

16.17 Ni all y dyddiad hwn fod yn hwyrach na'r diwrnod pan fydd y ceisydd yn hysbysu Gweinidogion Cymru yn ffurfiol am gais am gydsyniad seilwaith, neu ddim mwy na thair blynedd ar ôl trafodaethau am wasanaethau cyn gwneud cais (pa un bynnag a ddaw gyntaf).

16.18 Fodd bynnag, os na chaiff hysbysiad cyn gwneud cais ei gyflwyno yn dilyn trafodaethau am wasanaethau cyn gwneud cais, nid ydym yn cynnig y dylid dal yn ôl rhag cyhoeddi'r trafodaethau hyn am byth, gan y byddai hyn yn groes i'r nod o fod yn agored ac yn dryloyw. Felly, byddem yn ei gwneud yn ofynnol i'r trafodaethau hyn am wasanaethau cyn gwneud cais gael eu cyhoeddi o fewn dwy flynedd, os na chaiff hysbysiad cyn gwneud cais ei gyflwyno o fewn y cyfnod hwn.

16.19 Bydd yn rhaid i geisiadau ysgrifenedig gan geisyddion gynnwys rhesymau a chyfiawnhad dros gyhoeddi'r cais ar y gofrestr yn hwyrach na hynny (h.y. os bydd yr wybodaeth yn fasnachol sensitif) a mater i'r awdurdod cyhoeddus fydd penderfynu a yw'r rhesymau a'r cyfiawnhad dros beidio â datgelu yn drech na budd y cyhoedd. Fodd bynnag, rhaid bod rhagdybiaeth o blaid datgelu.

16.20 Os na fydd yr awdurdod cyhoeddus o'r farn bod y rhesymau a'r cyfiawnhad dros beidio â datgelu yn drech na budd y cyhoedd, bydd yn rhaid cyhoeddi'r cais ar y gofrestr cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

## Atodiad A – Rhestr arfaethedig o gydsyniadau a ddiddymwyd a chydsyniadau tybiedig

**<u>Materion y gellir eu tybio neu eu diddymu gyda chytundeb y corff cydsynio:</u>**

- Trwydded o dan adran 16 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981;
- Gofynion o dan Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991:
    - Trwydded o dan adran 24 (cyfyngiadau ar dynnu dŵr);
    - Trwydded o dan adran 25 (cyfyngiadau ar gronni dŵr);
    - Cydsyniad o dan adran 32 (cyfyngiadau ar dynnu dŵr);
    - Gorchymyn sychder o dan adran 73 (gorchmynion sychder);
    - Trwydded sychder o dan adran 79A (trwyddedau sychder);
    - Cydsyniad o dan is-ddeddfau a wneir o dan baragraff 5 neu baragraff 6 o Atodlen 25 (pwerau'r asiantaeth briodol i wneud is-ddeddfau);
    - Cydsyniad o dan adran 164 (cydsyniadau ar gyfer gollyngiadau penodol o dan adran 163).
- Trwydded o dan adran 10 o Ddeddf Gwarchod Moch Daear 1992.
- Awdurdodiad o dan reoliad 8 o Reoliadau Llygryddion Organig Parhaus 2007.
- Trwydded o dan reoliad 55 (trwyddedau ar gyfer gweithgareddau penodol sy'n ymwneud ag anifeiliaid neu blanhigion) o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017.
- Gofynion o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016:
    - Trwydded amgylcheddol neu esemptiad rhag y gofyniad i gael trwydded o'r fath;
    - Trwydded o dan reoliad 13, pan fo'r swyddogaeth honno yn arferadwy gan awdurdod lleol yn unol â rheoliad 32 neu reoliad 33 (rhoi trwydded amgylcheddol).
- Trwydded o dan Bennod 1 o Ran 2 o Reoliadau'r Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2012.
- Cydsyniad o dan adran 16 (cydsyniad awdurdod diogelu'r arfordir sy'n ofynnol i gyflawni gwaith diogelu'r arfordir) neu drwydded o dan adran 18 (gwahardd cloddio etc, deunyddiau ar neu o dan y morlannau) o Ddeddf Diogelu'r Arfordir 1949.
- Awdurdodiad o dan adran 20 yn unol ag is-ddeddfau (is-ddeddfau i ddiogelu gwarchodfeydd natur) Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949.
- Trwydded o dan adran 10 o Ddeddf Cadwraeth Morloi 1970.
- Cydsyniad o dan adran 28E (dyletswyddau mewn perthynas â safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.
- Trwydded o dan adran 8 (esemptiadau i bersonau trwyddedig) o Ddeddf Ceirw 1991.
- Gofynion o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000:
    - Cydsyniad neu awdurdodiad sy'n ofynnol o dan is-ddeddfau yn unol ag adran 17 (is-ddeddfau);
    - Cyfarwyddiadau o dan adran 24, 25 neu 26 (rheolir tir; osgoi perygl tân neu berygl i'r cyhoedd;  neu warchod natur a diogelu treftadaeth).

- Cofrestriad o dan reoliad 9 (stocrestrau o gyfarpar halogedig) o Reoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Gwaredu Biffenylau Polyclorinedig a Sylweddau Peryglus Eraill) (Cymru a Lloegr) 2000.
- Cydsyniad o dan rannau 2 neu 3 o Reoliadau Tynnu Dŵr a'i Gronni (Esemptiadau) 2017.
- Cadarnhau neu amrywio gorchymyn o dan adran 26 (cyfyngu ar drwyddedau pysgota) o Ddeddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975.
- Trwydded o dan ran 3 o Reoliadau Cadw a Chyflwyno Pysgod (Cymru) 2014.
- Cydsyniad o dan adran 166 (cydsyniadau ar gyfer gollyngiadau penodol o dan adran 165) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991.

**<u>Materion y gellir eu cynnwys heb gytundeb:</u>**

- Cydsyniad o dan adran 23 o Ddeddf Draenio Tir 1991 (gwaharddiadau ar rwystrau etc. mewn cyrsiau dwr).
- Trwydded o dan adran 18 (storio carbon deuocsid ) o Ddeddf Ynni 2008.
- Trwydded o dan reoliad 55 o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017.
- Gorchymyn o dan adran 14 (cyfarwyddyd drwy orchymyn na fydd meysydd pentref, etc, yn cael eu ffensio) o Ddeddf Cau Tiroedd 1852.
- Gorchymyn o dan adran 5, 9 neu 11 (cyfnewidiadau etc, ffensio etc) o Ddeddf Cau Tiroedd 1854.
- Gorchymyn o dan adran 1 (gellir hepgor ffensys) o Ddeddf Cau Tiroedd 1857.
- Gosod cyfyngiadau ac amodau o dan adran 193 (hawliau'r cyhoedd dros diroedd comin a thiroedd diffaith) o Ddeddf Cyfraith Eiddo 1925.
- Trwydded o dan adran 3 o Ddeddf Petrolewm 1998 (chwilio a thyllu am betrolewm a chael petrolewm).
- Cydsyniad neu awdurdodiad sy'n ofynnol o dan is-ddeddfau neu reoliadau a wneir yn unol ag adrannau 1 a 10 (pŵer cyngor dosbarth i wneud cynllun i reoleiddio tir comin; neu ddarpariaethau ynglŷn ag is-ddeddfau) o Ddeddf Tiroedd Comin 1899.
- Cydsyniad o dan adran 15 (pŵer i osod piblinellau mewn strydoedd) o Ddeddf Piblinellau 1962.
- Trwydded o dan adran 1 (cydsyniad neu drwydded diogelu safleoedd llongddrylliadau hanesyddol) o Ddeddf Diogelu Llongddrylliadau 1973.
- Cydsyniad neu drwydded o dan adran 6 neu 10 o Ddeddf Comin Coety Walia 1976.
- Trwydded o dan adran 8 (trwyddedau) o Ddeddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd 1985.
- Cydsyniadau o dan adran 13 (cais am gydsyniad sylweddau peryglus heb amod a atodwyd i gydsyniad blaenorol), adran 17 (dirymu cydsyniad sylweddau peryglus ar adeg newid rheolaeth dros dir) ac adran 18 (penderfynu ar geisiadau i barhau â chydsyniad sylweddau peryglus) o Ddeddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990.
- Cydsyniad o dan adran 198 (pŵer i wneud gorchmynion cadw coed) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.
- Gorchymyn o dan adran 247 (priffyrdd) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

- Gorchymyn o dan adran 257 (llwybrau troed, llwybrau ceffylau a chilffyrdd cyfyngedig y mae datblygiad yn effeithio arnynt: gorchmynion gan awdurdodau eraill) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.
- Gorchymyn o adran 110A (cysylltiadau newydd â charthffosydd cyhoeddus) neu gydsyniad o dan adran 118 (cydsyniad sy'n ofynnol i ollwng elifion masnach i mewn i garthffos gyhoeddus) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991.
- Gofynion o dan Ddeddf Aer Glân 1993:
  - Cymeradwyaeth o dan adran 4 (gofyniad y bydd ffwrneisiau newydd yn ddi-fwg cyhyd ag y bo hynny'n ymarferol);
  - Cymeradwyaeth o dan adran 6 (peiriannau atal ar gyfer ffwrneisiau annomestig newydd);
  - Esemptiad rhag gweithredu adran 6 o dan adran 7 (esemptiadau rhag adran 6);
  - Cymeradwyaeth o dan adran 8 (gofyniad i osod peiriannau atal ar gyfer llosgi tanwydd solet mewn achosion eraill);
  - Esemptiad o dan adran 14 (uchder simneiau ar gyfer ffwrneisiau);
  - Cymeradwyaeth o dan adran 15 (ceisiadau am gymeradwyo uchder simneiau ffwrneisiau);
  - Cymeradwyo cynlluniau o dan adran 16(2) (uchder simneiau eraill);
  - Esemptio lleoedd tân rhag darpariaethau adran 20 (gwaharddiad ar allyrru mwg mewn ardal rheoli mwg).
- Cydsyniad o dan reoliad 5 (tynnu gwrychoedd) o Reoliadau Gwrychoedd 1997.
- Gorchymyn o dan adran 53 (dyletswydd i adolygu map a datganiad diffiniol yn barhaus) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.
- Gorchymyn o dan adran 1 (pŵer i gyfyngu ar fewnforio etc. pysgod ac wyau pysgod) o Ddeddf Mewnforio Pysgod Byw (Cymru a Lloegr) 1980.
- Gorchymyn i reoleiddio traffig o dan adrannau 1, 9, 14, 15 neu 22BB (darpariaethau cyffredinol ar gyfer rheoleiddio traffig: rheoleiddio mewn achosion arbennig) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.
- Cydsyniad neu awdurdodiad sy'n ofynnol o dan is-ddeddfau neu reoliadau a wneir yn unol ag adran 15 (caiff perchnogion wneud is-ddeddfau) o Ddeddf Tiroedd Comin 1876.

## Atodiad B – Rhestr bosibl o gydsyniadau a ddiddymwyd a chydsyniadau tybiedig

| **Math o Gydsyniad** | **Deddfwriaeth** |
|---|---|
| **CYNLLUNIO / CYFFREDINOL** | |
| Trwydded gosod | Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016, gweithgareddau Atodlen 1 |
| Yr hawl i gysylltu â charthffosydd cyhoeddus – hysbysiad | Deddf y Diwydiant Dŵr 1991, adran 106 |
| Cysylltu â'r Prif Gyflenwad | Deddf y Diwydiant Dŵr 1991, a110A |
| Gollwng elifion masnach i mewn i garthffos gyhoeddus | Deddf y Diwydiant Dŵr 1991, a118 |
| Gollyngiadau o dan a165 | Deddf y Diwydiant Dŵr 1991, a166 |
| Cais am gydsyniad o dan orchymyn cadw coed | Adran 198 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 |
| Gorchymyn Calchbalmant | Adran 34 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 |
| Trwyddedau Amgylcheddol, hysbysiadau gorfodi a hysbysiadau atal dros dro (os caiff trwydded amgylcheddol ei thorri) | Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) OS 2016/1154) – rheoliad 12, rheoliad 13, rheoliad 36 a rheoliad 37 |
| Cydsyniad am waith ar safleoedd adeiladu | Deddf Rheoli Llygredd 1974, adran 61 |
| Gosod cyfyngiadau ac amodau o dan adran 193 o Ddeddf Cyfraith Eiddo 1925 (hawliau'r cyhoedd dros dir comin a thir diffaith) | Adran 193 o Ddeddf Cyfraith Eiddo 1925 |
| **CEMEGION / PLALEIDDIAID** | |
| Trwydded i chwilio a thyllu am betrolewm a chael petrolewm | Deddf Petrolewm 1998, a3 |
| Rhanddirymiad o dan reoliad 8 o Reoliadau Llygryddion Organig Parhaus 2007 | Rheoliad 8 o Reoliadau Llygryddion Organig Parhaus 2007 |

| | |
|---|---|
| Cydsyniad Sylweddau Peryglus | Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990, adrannau 4, 13, 17 a 18 a rheoliad 5 o Reoliadau Cynllunio (Sylweddau Peryglus) (Cymru) 2015 |
| Cofrestriad o dan reoliad 9 o Reoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Gwaredu Biffenylau Polyclorinedig a Sylweddau Peryglus Eraill) (Cymru a Lloegr) 2000 | Rheoliad 9 o Reoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Gwaredu Biffenylau Polyclorinedig a Sylweddau Peryglus Eraill) (Cymru a Lloegr) 2000 |
| **PIBLINELLAU** | |
| Cydsyniad o dan adran 15 o Ddeddf Piblinellau 1962 (pŵer i osod piblinellau mewn strydoedd) | Adran 15 o Ddeddf Piblinellau 1962 |
| **ANSAWDD AER** | |
| Cymeradwyaeth | Adran 4 o Ddeddf Aer Glân 1993 |
| Esemptiad o weithrediadau adran 6 o dan adran 7 o Ddeddf Aer Glân 1993 | Adran 7 o Ddeddf Aer Glân 1993 |
| Cymeradwyaeth | Adran 8 o Ddeddf Aer Glân 1993 |
| Cymeradwyaeth | Adran 15 o Ddeddf Aer Glân 1993 |
| Esemptiad | Adran 14 o Ddeddf Aer Glân 1993 |
| Cymeradwyo cynlluniau | Adran 16 o Ddeddf Aer Glân 1993 |
| Esemptio lleoedd tân | Adran 16(2) o Ddeddf Aer Glân 1993 |
| **MEWNGLODDIO** | |
| Gorchmynion Hawliau Gorfodi | Deddf Glo Brig 1958, adran 4 |
| **GWASTRAFF** | |
| Trwydded gwastraff | Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016, Atodlen 1 |

| | |
|---|---|
| **FFYRDD / PRIFFYRDD** | |
| Diddymu hawliau tramwy dros dir a ddelir at ddibenion cynllunio | Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adran 251. |
| Priffyrdd y mae datblygiad yn effeithio arnynt: gorchmynion gan yr Ysgrifennydd Gwladol – cau neu ddargyfeirio priffordd | Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adran 247 |
| Croesi priffordd neu ymuno â llwybr priffyrdd newydd arfaethedig | Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adran 248 |
| Gorchymyn sy'n diddymu hawl i ddefnyddio cerbydau ar briffordd | Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adran 249 |
| Diddymu hawliau tramwy cyhoeddus dros dir a ddelir at ddibenion cynllunio | Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adran 251. |
| Llwybrau troed, llwybrau ceffylau a chilffyrdd cyfyngedig y mae datblygiad yn effeithio arnynt: gorchmynion gan awdurdodau eraill – cau neu ddargyfeirio llwybr troed, llwybr ceffylau neu gilffordd gyfyngedig | Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adran 257. |
| Gorchymyn o dan adrannau 1, 9, 14, 15 neu 22BB o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (darpariaethau cyffredinol rheoleiddio traffig: rheoleiddio mewn achosion arbennig) | Adrannau 1, 9, 14, 15 neu 22BB o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. |
| Troi llwybrau troed yn llwybrau beicio. | Adran 3(10) o Ddeddf Llwybrau Beicio 1984 |
| Gorchmynion sy'n darparu ar gyfer adeiladu pontydd dros ddyfroedd llywiadwy neu dwneli o dan ddyfroedd llywiadwy | Adran 106 o Ddeddf Priffyrdd 1980 |
| Cau llwybrau troed, llwybrau ceffylau a chilffyrdd cyfyngedig | Adran 118 o Ddeddf Priffyrdd 1980 |
| Cau llwybrau troed, llwybrau ceffylau a chilffyrdd cyfyngedig sy'n croesi rheilffyrdd | Adran 118A o Ddeddf Priffyrdd 1980 |
| Dargyfeirio llwybrau troed, llwybrau ceffylau a chilffyrdd cyfyngedig sy'n croesi rheilffyrdd | Adran 119 o Ddeddf Priffyrdd 1980 |
| Gorchmynion diddymu a dargyfeirio llwybr cyhoeddus | Adran 120 o Ddeddf Priffyrdd 1980 |
| Rheoli sgaffaldau ar briffyrdd | Adran 169 o Ddeddf Priffyrdd 1980 |
| Rheoli dodi deunyddiau adeiladau a chloddio mewn strydoedd | Adran 171 o Ddeddf Priffyrdd 1980 |

| | |
|---|---|
| Hysbysfyrddau i'w gosod yn ystod gwaith adeiladu | Adran 172 o Ddeddf Priffyrdd 1980 |
| Cyfyngiad ar adeiladu pontydd dros briffyrdd | Adran 176 o Ddeddf Priffyrdd 1980 |
| Cyfyngiad ar adeiladu pontydd dros briffyrdd | Adran 177 o Ddeddf Priffyrdd 1980 |
| Cyfyngiad ar osod rheiliau, trawstiau dros briffyrdd | Adran 178 o Ddeddf Priffyrdd 1980 |
| Rheoli adeiladu seleri etc. o dan strydoedd | Adran 179 o Ddeddf Priffyrdd 1980 |
| Rheoli agor seleri etc. o dan strydoedd, a goleuadau palmentydd ac awyryddion | Adran 180 o Ddeddf Priffyrdd 1980 |
| **YNNI** | |
| Parthau diogelwch o amgylch gosodiadau ynni adnewyddadwy | Adran 95, Deddf Ynni 2004 |
| Trwydded i storio carbon deuocsid | Deddf Ynni 2008 a18 |
| **YR AMGYLCHEDD** | |
| Pŵer i berchnogion wneud is-ddeddfau mewn perthynas â thiroedd comin | Adran 15 o Ddeddf Tiroedd Comin 1876 |
| Pŵer i gynghorau wneud is-ddeddfau mewn perthynas â thiroedd comin | Adrannau 1 a 10 o Ddeddf Tiroedd Comin 1899 |
| Cydsyniadau ar gyfer gwaith ar dir comin neu ddadgofrestru a chyfnewid tir comin | Deddf Tiroedd Comin 2006 – Adran 38 yw gwaith ar dir comin; Adrannau 16 a 17 yw cyfnewid tir comin |
| Cydsyniad o dan reoliad 5 o Reoliadau Gwrychoedd 1997 (tynnu gwrychoedd) | Rheoliad 5 o Reoliadau Gwrychoedd 1997 |
| Trwyddedau Cwympo Coed | Deddf Coedwigaeth 1967, adran 9 |
| Trwydded o dan adran 10 o Ddeddf Cadwraeth Morloi 1970 (pŵer i roi trwydded) | Adran 10 o Ddeddf Cadwraeth Morloi 1970 |

| | |
|---|---|
| Trwyddedau o dan adran 8 o Ddeddf Ceirw 1991 | Adran 8 o Ddeddf Ceirw 1991 |
| Trwydded o dan adran 10 o Ddeddf Gwarchod Moch Daear 1992 | Adran 10 o Ddeddf Gwarchod Moch Daear 1992 |
| Trwydded o dan adran 16 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 | Adran 16 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 |
| Cyfarwyddyd i osgoi tân neu berygl i'r cyhoedd/atal neu gyfyngu ar fynediad at ddibenion gwarchod natur a gwarchod treftadaeth | Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, adrannau 25 a 26 |
| Cyfarwyddyd, ar gais i atal neu gyfyngu ar fynediad i dir | Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, a24 |
| Cydsyniad neu awdurdodiad sy'n ofynnol o dan is-ddeddfau | Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, a17 |
| Is-ddeddfau i Ddiogelu Gwarchodfeydd Natur | A20 o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 |
| Trwydded o dan reoliad 55 o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017 (pŵer i roi trwyddedau) | Rheoliad 55 o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017 |
| Trwydded o dan reoliad 55 o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (trwyddedau ar gyfer gweithgareddau penodol sy'n ymwneud ag anifeiliaid a phlanhigion) | Rheoliad 55 o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 |
| Cyfarwyddyd drwy orchymyn na chaiff meysydd pentref, etc, eu ffensio | Adran 14 o Ddeddf Cau Tiroedd 1852 |
| Gorchymyn o dan adrannau 5, 9 a 11 o Ddeddf Cau Tiroedd 1854 (cyfnewidiadau etc, ffensio etc) | Adrannau 5, 9 neu 11 o Ddeddf Cau Tiroedd 1854 |
| Gorchymyn o dan adran 1 o Ddeddf Cau Tiroedd 1857 (caniateir hepgor ffensys) | Adran 1 o Ddeddf Cau Tiroedd 1857 |
| Cydsyniadau SoDdGAau, gan gynnwys cydsyniadau A28H | Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, adrannau 28E a 28H |
| Gorchymyn o dan adran 53 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (dyletswydd i adolygu map a datganiad diffiniol yn barhaus) | Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, adran 53 |
| **DŴR** | |
| Awdurdodi gwaith draenio mewn cysylltiad â ffos | Adran 30 o Ddeddf Draenio Tir 1991 |

| | |
|---|---|
| Pwerau gweinidogion i awdurdodi perchnogion tir i gyflawni gwaith draenio | Adran 22 o Ddeddf Draenio Tir 1991 |
| Cydsyniad o dan adran 23 o Ddeddf Draenio Tir 1991 (gwaharddiadau ar rwystrau etc. mewn cyrsiau dwr) | Adran 23 o Ddeddf Draenio Tir 1991 |
| Cydsyniad o dan adran 16 o Ddeddf Diogelu'r Arfordir 1949 (cydsyniad awdurdod diogelu'r arfordir sy'n ofynnol i gyflawni gwaith diogelu'r arfordir) | Adran 16 o Ddeddf Diogelu'r Arfordir 1949 |
| Gwaharddiad ar gloddio, etc, deunyddiau ar neu o dan y morlannau | Adran 18 o Ddeddf Diogelu'r Arfordir 1949 |
| Pŵer Gweinidog i hwyluso gwaith diogelu'r arfordir | Adran 28 o Ddeddf Diogelu'r Arfordir 1949 |
| Parth Diogelu Dyfrdwy | Rheoliadau Parth Diogelu Dŵr (Dalgylch Afon Dyfrdwy) (Darpariaethau Gweithdrefnol a Darpariaethau Eraill) 1999, rheoliadau 4 a 5 |
| Trwydded o dan adran 1 o Ddeddf Diogelu Llonddrylliadau 1973 (cydsyniad neu drwydded diogelu safleoedd llongddrylliadau hanesyddol) | Adran 1 o Ddeddf Diogelu Llongddrylliadau 1973 |
| Trwydded ansawdd dŵr | Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016, Atodlen 1 |
| Tynnu Adnoddau Dŵr, Cronni Dŵr, Trydan Dŵr, trosglwyddo, trwydded dros dro | Deddf Adnoddau Dŵr 1991 – adrannau 24, 24A, 25, 32, 73, 79A, 109, 163, 164 a pharagraffau 5 a 6 o Atodlen 5. |
| Gorchmynion gwaith gorfodol | Adran 167 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 |
| Gorchmynion gwaith gorfodol | Adran 168 o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991 |
| Cyfyngiad ar drwyddedau pysgota | Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw, a26 |
| Pŵer i gyfyngu ar fewnforio etc. pysgod ac wyau pysgod | Deddf Mewnforio Pysgod Byw (Cymru a Lloegr) 1980, a1 |
| Cadw a Chyflwyno Pysgod i ddyfroedd mewndirol | Rhan 3 o Reoliadau Cadw a Chyflwyno Pysgod (Cymru) 2014 |
| Cyfyngiad ar dynnu neu gronni dŵr | Rhannau 2 neu 3 o Reoliadau Tynnu Dŵr a’i Gronni (Esemptiadau) 2017 |
| **CYDSYNIADAU ERAILL** | |

| | |
|---|---|
| Trwydded Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr neu osod | Rheoliadau'r Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2012 (Pennod 1 o Ran 2) |
| Trwyddedau | Deddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd 1985, a8 |
| Cydsyniad neu Drwydded o dan adran 6 neu 10 o Ddeddf Comin Coety Walia 1976 | Adran 6 neu 10 o Ddeddf Comin Coety Walia 1976 |
| Trwydded i ganiatáu i safleoedd gael eu defnyddio ar gyfer anheddau symudadwy | Deddf Iechyd y Cyhoedd 1936, a269 |